# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU**

Dyddiad ac Amser

**10.15 y.b., DYDD IAU, 26AIN TACHWEDD, 2015**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

**GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd 19/11/15)

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

**AELODAETHP (18)**

## Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans
E. Selwyn Griffiths
Sian Wyn Hughes
Ann Williams
R. H. Wyn Williams
Aled Ll. Evans
Christopher Hughes
Elin Walker Jones
R. Hefin Williams

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Dewi Owen
Beth Lawton
Eirwyn Williams

## Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Peter Read
Alwyn Gruffydd

## Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorwyr Linda Ann Jones

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

### Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

| | |
|---|---|
| Dylan Davies | Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Rita Price | Yr Eglwys Gatholig |
| Rhian Roberts | Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor |
| Canon Parchedig Robert Townsend | Yr Eglwys yng Nghymru |

## R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 1 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Medi 2015.

**5. ADRODDIAD GWERTHUSO PERFFORMIAD 2014/15 (AROLYGAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - AGGCC)** 12 - 31

***Aelod Cabinet: Cyng. W. Gareth Roberts***

I ystyried adroddiad gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol.

10.15 a.m. – 11.15 a.m.

**6. ADRODDIAD AR WAITH Y PANEL STRATEGOL DIOGELU PLANT AC OEDOLION BREGUS** 32 - 42

***Aelod Cabinet : Cyng. Mair Rowlands***

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc ar yr uchod.

11.15 a.m. – 12.00

**7.** **ADRODDIAD AR GALLUOGI O FEWN TREFNIADAU GWAITH NEWYDD** 43 - 45

***Aelod Cabinet: Cyng. W. Gareth Roberts***

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Oedolion a Iechyd ar yr uchod

12.00 – 12.45 p.m.

**SESIWN Y PRYNHAWN**

**8.** **ADRODDIAD CYNNYDD - PROSIECT ANSAWDD ADDYSG** 46 - 50

***Aelod Cabinet: Cyng. Gareth Thomas***

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg ar yr uchod.

1.15 p.m. – 2.00 p.m

**9.** **NEWIDIADAU YN Y GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD** 51 - 84

***Aelod Cabinet: Cyng. Gareth Thomas***

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg ar yr uchod

2.00 p.m. – 2.45 p.m.

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU DYDD MAWRTH, 22 MEDI 2015

**Yn bresennol**:
Yn y sesiwn bore

**Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Anwen J. Davies, Alan Jones Evans, E. Selwyn Griffiths, Chris Hughes, Alwyn Gruffydd, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Ann Williams, Eirwyn Williams, Hefin Williams ac R H Wyn Williams.

**Swyddogion:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn bresennol:**

**Ar gyfer Eitemau 4, 5, 6 a 7 isod**
Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg
Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg
Garem Jackson, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg

**Ar gyfer Eitem 4 isod**
Gwern ap Rhisiart, Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Addysg

**Yn bresennol :**
Yn sesiwn y prynhawn 'roedd:

**Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Anwen J. Davies, E. Selwyn Griffiths, Siân Wyn Hughes, Elin Walker Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Ann Williams, Hefin Williams ac R H Wyn Williams

**Swyddogion:** Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd W. Gareth Roberts, Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd
Aled Davies, Pennaeth Dros Dro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Caryl Elin Lewis, Rheolwr Uned Gofal Cwsmer a Gwybodaeth
Bethan Eluned Jones, Swyddog Comisiynu
Emyr Edwards, Rheolwr Polisi Strategol Adnoddau

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Jones Evans (p.m.), Alwyn Gruffydd (p.m.), Sian Wyn Hughes (a.m.), Linda Ann Wyn Jones (p.m.), Siôn Wyn Jones, W. Tudor Owen, Peter Read, Neil Foden (Undeb Athrawon) a Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol) - (a.m./p.m.).

**1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Estynnwyd croeso i'r canlynol i'w cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Craffu hwn:

Y Cynghorwyr Anwen Davies, Sian Wyn Hughes ac R H Wyn Williams.

(b) Dymunwyd gwellhad buan i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwn, Y Cynghorydd Peter Read, ac edrychwyd ymlaen at ei weld yn ôl ymhlith yr Aelodau yn fuan.

(c) Cyfeiriwyd at farwolaeth sydyn ac annisgwyl y Cynghorydd Robert J. Wright, Aelod dros Ward De Pwllheli, ac y byddai colled enfawr ar ei ôl. Gofynnwyd i bawb oedd yn bresennol sefyll am funud o dawelwch fel arwydd o barch tuag at ei deulu yn eu colled drist.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Selwyn Griffiths fuddiant personol yn Eitem 5 – Cynllun Trac oherwydd bod ei ferch-yng-nghyfraith wedi ei phenodi fel rhan o weithlu'r cynllun ond ni fyddai'n gadael y Siambr gan nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2015.

**4. CYNLLUN TRAC**

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn amlinellu cefndir y cynllun uchod sy'n cael ei arwain gan y chwe awdurdod lleol ar gyfer darparu'r sgiliau a'r gefnogaeth addas i ddisgyblion a phobl ifanc mwyaf bregus y Sir.

(b) Eglurwyd mai Cyngor Sir Dinbych sy'n arwain parthed rheolaeth a monitro cynllun busnes rhanbarthol a'i fe'i cyllidir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop gyda'r bwriad i gychwyn y cynllun Medi 2015 hyd at Awst 2018 gyda phosibilrwydd i'w ymestyn hyd at Awst 2020. Esboniwyd mai nod y cynllun fydd "mabwysiadu dull weithredu o adnabod disgyblion bregus yn gynnar ac ymateb i'w anghenion trwy ddarparu cwricwlwm a chefnogaeth addas ar eu cyfer".

(c) Rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau ac fe ymatebodd yr Aelod Cabinet Addysg a'r swyddogion iddynt fel a ganlyn:

- Mai 8 o swyddi fydd yn rhan o'r cynllun gyda'r Rheolwr eisoes wedi ei phenodi i gychwyn mis Tachwedd. Eglurwyd y bydd 6 o'r swyddi yn rhai gweithredol gyda dwy ohonynt o dan y teitl Gweithwyr Cymdeithasol Addysg a fydd yn gallu gweithio gyda theuluoedd a phlant i oresgyn rhwystrau sydd ddim yn cyfarfod â meini prawf anghenion Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y 4 swydd arall yn canolbwyntio ar bresenoldeb, gweithiwr ieuenctid yn ysbrydoli plant a phobl ifanc i ennill achrediadau a gweithiwr chwaraeon a fyddai'n rhan o dîm a fyddai'n targedu anghenion y bobl ifanc ac yn eu cefnogi i barhau mewn addysg wedi iddynt ymadael o ysgolion

- Bod arian cyfatebol yn cael ei gyfrannu o'r gwasanaeth sydd eisoes yn yr ysgolion o ran strategaeth cynhwysiad, cefnogi plant yn y prif lif, gwasanaeth lles a'r gwasanaeth cynnal ymddygiad canolog.
- Byddir yn targedu plant o Flwyddyn 7 i fyny ac yn gallu perchnogi disgyblion ar hyd y daith addysgol ac yn arbennig y gwaith pontio yn 16 oed a fydd yn gymorth i ddisgyblion wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gyrfaoedd ynghynt.
- Cadarnhawyd mai 480 o ddisgyblion o Wynedd yw'r nifer o gyfranogwyr sydd mewn risg ac esboniwyd yr adnabuwyd hwy drwy'r fframwaith ymgysylltu
- O safbwynt cymwysterau, pwysleisiwyd y byddai'r swyddogion perthnasol yn weithredol gyda'r plant yn ddyddiol ac yn ychwanegol bod hyfforddiant gyda nifer eang o gyrsiau ar gael iddynt ar gyfer cyflogaeth
- Bod nifer o blant sydd yn dadrithio yn is yng Ngwynedd o ran y ganran NEET (Not in Education, Employment or Training) sef oddeutu 7-8% ond eglurwyd y byddai'r cynllun Trac yn cyfarch anghenion y plant wedi iddynt fod mewn Colegau ac yn methu cael cyflogaeth
- O safbwynt goblygiadau hyfforddiant i staff ysgol, esboniwyd y gwelir bod staff ysgolion yn hyddysg iawn yn y meysydd dan sylw ond o dan bwysau cynyddol ac y byddai'r cynllun hwn yn ysgafnhau baich ysgolion drwy gael swyddog i weithio am gyfnod estynedig ar y cyd gyda phlant. Ni ragwelir y bydd gofyn hyfforddi staff ysgolion na ychwaith bod pwysau ychwanegol arnynt.
- Bod canran sylweddol o blant sydd yn dadrithio ar y rhestr anghenion addysgol ychwanegol a bod carfan o blant gydag ymddygiad dwys a thrwy'r cynllun bod modd mynd i'r afael â'r problemau yn gynnar.
- Bod cryfhau'r cyswllt gyda Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid o dan ystyriaeth ar hyn o bryd a bod y nifer sy'n agored i'r Gwasanaeth uchod wedi gostwng yn sylweddol yn genedlaethol ac nad oedd yr Adran wedi buddsoddi cymaint ag yn y gorffennol. Hyderir, drwy'r cynllun Trac, y gellir lleihau'r disgyblion sydd yn troseddu a'u cadw i fyw a ffynnu yn lleol.
- O safbwynt cysylltu gyda chyflogwyr lleol, esboniwyd bod anghenion yr hyfforddiant wedi ei ddatblygu ar lefel 6 awdurdod y Gogledd a bod ystod eang o gyrsiau cyffredinol wedi eu rhoi mewn lle ac nad oedd hyfforddiant ar gyfer meysydd arbenigol. Fodd bynnag, gellir rhoi ystyriaeth bellach i'r fframwaith hyfforddi ac y byddai modd cynnal trafodaethau gyda mwy o gyflogwyr lleol o'u hanghenion.
- Bod llithriad o ran derbyn y grant ond hyderir y byddir yn symud ymlaen yn fuan gyda dyraniad yr arian.
- O safbwynt pwyso a mesur gwasanaeth statudol yn erbyn anstatudol, gellir dadlau o wneud buddsoddiad yn gynnar y byddir yn arbed arian yn y tymor hir.
- Y byddai'r Paneli Mynediad Ardal yn gweithredu ar lefel ardaloedd ac yn rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau a'r math o wasanaethau a gynigir. Byddai'r Paneli yn cynnwys gweithwyr y cynllun Trac ynghyd â chynrychiolwyr o ysgolion.
- Sicrhawyd o safbwynt datblygu fframwaith gweithredu, y byddir yn cydweithio hefo Gwasanaeth Gyrfa Cymru
- Sicrhawyd ymhellach yn deillio o bryder ynglŷn â thensiwn daearyddol o ddosraniad yr arian rhwng y 6 awdurdod y byddai'r arian yn cael ei gyfeirio yn unol â meini prawf a lle fyddai'r anghenion.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad ar y prosiect sydd yn ei ddyddiau cynnar.**

**(b) Gofyn i'r Gwasanaeth Addysg gyflwyno diweddariad ar y cynllun ymhen blwyddyn o'i weithredu.**

## 5. AMODAU ARWEINYDDIAETH A MODELAU AMGEN

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn amlinellu prosiect ar gyfer gwella amodau arweinyddiaeth ysgolion er mwyn codi safonau.

(b) Cyfeiriwyd at nod y prosiect a fyddai'n edrych ar bum maes penodol sef:

- Comisiynu adroddiad ar amodau arwain a rheoli ysgolion y Sir a gweithredu ar yr argymhellion cytunedig
- Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio
- Datblygu rheolwyr a darpar reolwyr o fewn gwasanaethau ac adnabod arweinwyr ar gyfer y dyfodol
- Datblygu cyfundrefn ysgol i ysgol rymus a sicrhau bod trefniadau mewn lle er mwyn rhannu arfer gorau i osgoi dyblygu; a
- Sicrhau bod buddsoddiadau cyfalaf yn arwain at wella amodau arweinyddiaeth a rheolaeth

(c) Ymhelaethwyd ar y camau nesaf a'r bwriad i gynnal cyfarfod pellach gydag Ymgynghorwyr Annibynnol sydd â phrofiad rhyngwladol yn y maes ac y byddent yn croesawu'r cyfle i gyfweld ag aelodau o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau fel rhan o'u hymchwil.

(ch) Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau, ac fe wnaed y sylwadau canlynol:

(i) A yw'r broblem o recriwtio yn ymwneud â maint bychan y Sir ac oni fyddai cyfuno gyda Siroedd eraill o fantais mewn rhannu arbenigedd?

Mewn ymateb, eglurwyd bod natur ddaearyddol y Sir yn enfawr ac yn heriol gan fod anghenion ardaloedd y Sir yn dra gwahanol. Bwriad yr Adran Addysg yw ail-sefydlu'r Swyddfeydd Ardal fel bo modd cael trafodaethau lleol er mwyn diwallu anghenion y plant. O safbwynt datblygu unigolion yn arweinwyr yn enwedig yn yr ysgolion lleiaf, rhaid rhoi cyfle iddynt fedru arwain ar feysydd strategol er mwyn dangos profiadau mewn gwahanol feysydd ar gyfer y cymhwyster CPCP.

(ii) A oes tystiolaeth bod rhai ysgolion yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am ddisgyblion?

Mewn ymateb, nodwyd os byddir yn cyd-berchnogi'r prosiect i wella arweinyddiaeth a rheolaeth, bydd yn rhaid cadw llygad bod tegwch i bob dalgylch.

(iii) O safbwynt cytuno ar lefelau cyrhaeddiad disgyblion wrth bontio o'r cynradd i'r uwchradd, nodwyd bod yn ofynnol i'r wybodaeth gyfredol ar gyfer unrhyw blentyn fod yn gywir o'r cam cyntaf drwy'r cyfnod addysgol. Nodwyd ymhellach bod asesu yn drafodaeth barhaol ond er mwyn pontio llwyddiannus rhwng y cynradd a'r uwchradd rhaid cael dealltwriaeth rhyngddynt a bod yn glir ynglŷn â dehongliad y meini prawf.

(iv) Mewn ymateb i bryder ynglŷn â chanfyddiadau gan rieni bod rhai ysgolion yn fwy Saesnigaidd ac o ganlyniad bod niferoedd yn lleihau mewn ambell ddalgylch, nodwyd mai'r her ydoedd cysoni gweithrediad y polisi iaith. Eto, yn yr un modd gellid cynnal trafodaethau yn lleol er mwyn sicrhau bod plant yn cael yr un fath o brofiad a darpariaeth.

(v) Yng nghyd-destun ffederaleiddio ysgolion cynradd ac uwchradd i'r dyfodol, nodwyd y byddai hyn yn rhan o'r ymchwiliad i arweinyddiaeth a'r modelu amgen. Er bod syniadau penodol o fewn y Gwasanaeth derbyniwyd bod ymateb gan y gymuned o ran trefniadau a darpariaeth yn bwysig. O ran trefniadaeth rhaid sicrhau'r isadeiledd er mwyn i'r plant gael y canlyniadau gorau. Yn wyneb yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, os am wella

arweinyddiaeth a rheolwyr canol ysgolion, rhaid ystyried dulliau eraill o weithio megis rhannu gwaith ar draws dalgylch.

(vi) O safbwynt lefel y broblem recriwtio ar hyn o bryd, nodwyd bod record o lwyddiant yng Ngwynedd llynedd gan i 9 unigolyn lwyddo i gael y cymhwyster arweinyddiaeth CPCP ac fe roedd hyn yn cynrychioli bron i hanner cwota Gogledd Cymru. Fodd bynnag, rhaid creu cyfundrefn sydd yn hyfyw a rhoi cyfle i ddarpar arweinwyr ddangos sgiliau i fedru arwain a rheoli. Nodwyd ymhellach bod rhai ysgolion yn rhy fach i gael Tîm Rheoli sydd yn fwy na'r Pennaeth ei hunan ac felly yn ei gwneud yn anodd i unigolion ennyn profiadau ac yn hyn o beth rhaid creu cyfundrefn i symud unigolion i fod yn arweinwyr y dyfodol. Yng nghyd-destun diffyg recriwtio ar draws y Sir, nodwyd ei bod yn mynd yn anoddach ond rhaid newid y diwylliant o fod yn annibynnol i fod yn gydweithredol.

(vii) Mewn ymateb i bryder ynglŷn â chyllido rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, hyderir y bydd y Cyngor yn gallu buddsoddi cymaint ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau bod yr adeiladau yn galluogi'r gorau ar gyfer yr athrawon a phobl ifanc.

(viii) Yng nghyd-destun y Tîm Trefniadaeth ysgolion, nodwyd bod y Tîm wedi ei sefydlu ar gyfer gwaith pwrpasol ar gyfer rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, ac yn ddibynnol ar y gyllideb cyfalaf a chanfyddiadau'r ymchwiliad arweinyddiaeth, bydd angen ystyried ail-strwythuro o fewn yr Adran i gyfarch materion ehangach na threfniadaeth megis rôl cefnogi arweinyddiaeth yn yr ardal leol.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Enwebu'r aelodau canlynol o'r Pwyllgor Craffu hwn ar gyfer cwrdd â'r Ymgynghorwyr Annibynnol sy'n ymwneud â' prosiect i gynnig sylwadau ac argymhellion ar faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy:**

**Y Cynghorydd Beth Lawton – (Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau)**
**Y Cynghorydd Selwyn Griffiths**
**Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**
**Y Cynghorydd Elin Walker Jones**
**Y Cynghorydd Dewi Owen**
**Y Cynghorydd Hefin Williams**

**6. YMCHWILIAD CRAFFU ADDYSG GYMRAEG**

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg a fu'n ymchwilio i weithrediad, cysondeb a llwyddiant Polisi Iaith yr awdurdod yn ysgolion y Sir.

(b) Adroddodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Cadeirydd yr Ymchwiliad, bod yr ymchwil wedi ei gyfyngu i dri dalgylch sef Ardudwy, Bangor a Botwnnog oherwydd demograffeg ieithyddol y tair ardal benodol. Edrychwyd ar sut y gweithredir Polisi Iaith yr awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion unigol a'r graddau y mae'r ddarpariaeth yn gymorth i hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc. Tynnwyd sylw at yr atodiadau ynghlwm i'r adroddiad a oedd yn nodi sut y daethpwyd i gasgliad ar yr argymhellion. Cydnabyddir bod gwaith gwych yn digwydd yn yr ysgolion ond nid da lle gellir gwell i barhad y Gymraeg oddi fewn a thu allan i'w llibart.

(c) I gloi, cymerodd Cadeirydd yr Ymchwiliad y cyfle i ddiolch i'w gyd-aelodau a'r swyddogion am adroddiad cynhwysfawr a chlir. Diolchodd hefyd i bawb a fu'n rhan o'r Ymchwiliad drwy rannu eu profiadau yn agored.

(ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) Mynegwyd pryder o'r hyn sy'n cael ei weithredu mewn ysgolion preifat yn y Sir gyda fwyfwy o ddisgyblion yn dod allan o'r ysgolion hyn yn ddi-gymraeg.

Mewn ymateb i'r uchod, esboniwyd bod y sector cyhoeddus yn gorfod dilyn cwricwlwm cenedlaethol ond bod rhyddid i'r sector annibynnol, yn unol ag Adran 163 o'r Adran Arolygu, gynnig cwricwlwm eang lle nad oes raid i'r Gymraeg fod yn rhan o'r cwricwlwm hwnnw. Nodwyd nad oedd gan yr awdurdod addysg oruchwyliaeth drostynt ond gellid cysylltu â Llywodraeth Cymru / ESTYN i ganfod beth yw gofynion yr Adran benodol o'r ddeddf ac a yw'r arolygaeth yn mesur yn gydnaws i anghenion lleol.

(ii) Bod plant yn gwneud cynnydd da yn y Canolfannau Hwyrddyfodiad ond mynegwyd rhwystredigaeth bod y gyrwyr cludiant i'r plant i ac o'r canolfannau hyn yn ddi-gymraeg. Awgrymwyd y dylid gwneud cais i'r cwmnïau sydd yn ennill y cytundebau cludiant bod anghenraid i'r gyrwyr fod yn gallu siarad Cymraeg.

Mewn ymateb, cadarnhawyd y byddai'r Gwasanaeth Addysg yn ymchwilio i'r uchod.

(d) Nodwyd, er gwybodaeth i Aelodau, derbyniwyd cais gan Lywodraeth Cymru i'r awdurdod rannu'r Siarter Iaith ar draws Cymru.

(dd) Diolchodd yr Aelod Cabinet Addysg i'r Ymchwiliad Craffu am y gwaith trwyadl a gyflawnwyd ganddynt ac fe groesawyd a derbyniwyd yr holl argymhellion.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd i'r Aelod Cabinet Addysg gan ofyn iddo gyflwyno adroddiad cynnydd ar y gweithrediadau ymhen chwe mis.**

**(b) Gofyn i Swyddog Arweiniol yr Ymchwiliad Craffu rannu canfyddiadau'r Ymchwiliad Craffu gydag ysgolion a chanolfannau iaith y Sir.**

**(c) Cyfleu i Lywodraeth Cymru / ESTYN pryder y Pwyllgor Craffu hwn ynglyn a chwricwlwm ysgolion yn y sector annibynnol o ddefnydd yr iaith Gymraeg fel amlinellir yn (i) uchod.**

## 7. YMCHWILIAD CRAFFU GWASANAETHAU CEFNOGOL ADDYSG – BRIFF DRAFFT

(a) Cyflwynwyd briff drafft ar gyfer cynnal ymchwiliad craffu i'r Gwasanaethau Cefnogol Addysg ac fe amlinellodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol ar gynnwys y briff.

(b) Croesawyd y briff gan yr Aelodau ac mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag amserlen nodwyd y disgwylir i'r ymchwiliad gael ei gyflawni mewn oddeutu 6 -9 mis.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a chymeradwyo'r briff drafft.**

**(b) Enwebu'r Aelodau canlynol i wasanaethu ar yr Ymchwiliad Craffu Gwasanaethau Cefnogol Addysg:**

**Y Cynghorydd Beth Lawton (Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau)**
**Y Cynghorydd Selwyn Griffiths**
**Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**
**Y Cynghorydd Eirwyn Williams**
**Y Cynghorydd R H Wyn Williams**

**Aelod i'w enwebu o ardal Arfon (gyda'r Cynghorydd Hefin Williams wrth gefn pe byddai angen)**

Dechreuodd y sesiwn bore am 10.00 a.m. a daeth i ben am 12.00

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2014-15**

(a) Cyflwynwyd adroddiad blynyddol gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion ac Iechyd, yn rhoi trosolwg o'r ystadegau a phrif faterion sydd wedi deillio o gwynion yn ystod y flwyddyn 2014-15 ynghyd ag ymateb i gwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn yn ei gyfarfod paratoi ar 28 Gorffennaf.

(b) Atgoffwyd yr Aelodau bod y drefn gwynion yn un statudol sydd tu allan i drefn gwynion corfforaethol y Cyngor.

(c) Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ac fe ymatebodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion yn briodol iddynt fel a ganlyn:

(i) Bod y drefn gwynion statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar wahân i'r drefn gwynion corfforaethol a'u bod yn ymwneud yn uniongyrchol â gofal unigolion ond fe dderbynnir cwynion tu allan i'r drefn statudol ac yn yr achosion hyn fe ymdrinnir â hwy o dan y drefn gwynion corfforaethol. Eglurwyd bod dau gam i'r drefn gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol sef cam 1 - ymateb yn lleol a cham 2 lle prynir gwasanaeth ymgynghorydd annibynnol i ymchwilio i'r gwyn.
(ii) Mewn ymateb i bryder amlygwyd ynglyn â methiant i fedru darparu cyfarpar arbenigol megis gwelyau pwrpasol i gleifion sydd angen gofal yn eu cartref yn benodol mewn tai teras yn ardal Blaenau Ffestiniog, nodwyd bod y Gwasanaeth yn ymwybodol o'r broblem a'i fod yn destun trafodaeth gyda'r Bwrdd Iechyd
(iii) Nododd y swyddogion y sylw bod angen dehongli cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaeth Cymdeithasol oherwydd aneglurder trigolion y Sir ac fe ystyrir ymhellach sut y gellir cyfarch y mater hwn.
(iv) O safbwynt cleifion yn cael eu hanfon i Ysbytai cymunedol yn hytrach na chartrefi preswyl, esboniwyd bod datrysiad i'r mater hwn yn anodd oherwydd yr angen i geisio rhoi cefnogaeth iawn i deuluoedd.
(v) Nodwyd y pryder amlygwyd ynglyn â thacsi yn teithio o Ogledd y Sir i'r De i gludo claf i'r ysbyty lleol ac y byddir yn rhoi sylw i'r mater ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd pe byddai'r Aelod yn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol i'r Pennaeth Adran Oedolion Iechyd a Llesiant.
(vi) Bod y daflen gwynion arbennig i blant a phobl ifanc yn barod ac yn cael ei lansio yn fuan a nodwyd ymhellach bod taflen ar wahân i oedolion sydd eisoes yn cael ei weithredu.
(vii) Mewn ymateb i sylw bod y nifer o ymholiadau yn uwch na'r cwynion ac efallai bod pobl fregus yn llai tebygol o gwyno, nodwyd er nad yw pob ymholiad / sylw yn cael ei nodi fel cwyn, sicrhawyd bod y Gwasanaeth yn ceisio datrys yr ymholiadau.
(viii) O safbwynt y sylw a wneir bod angen sicrhau cyfathrebu clir gyda defnyddwyr ynglyn â threfniadau talu am ofal, gwelwyd o'r cwynion a gyflwynwyd bod trafodaethau wedi digwydd ond nad oedd tystiolaeth ysgrifenedig wedi ei gofnodi. Sicrhawyd bod darn o waith yn mynd rhagddo yn y cyswllt hwn fel datrysiad i'r mater.

(ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y sylwadau cyffredinol canlynol:

(a) Nododd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion ac Iechyd bod trefniadau a'r ffordd newydd o weithio yn Ysbyty Alltwen yn hynod o bwysig i geisio diddymu'r rhaniad rhwng cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nodwyd ymhellach bod y cleifion sydd wedi derbyn gwasanaeth drwy'r drefn newydd yn Ysbyty Alltwen wedi mynegi bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth.

(b) Bod yr adroddiad yn un eithaf cadarnhaol ac yn amlwg drwy drafodaethau bod y Gwasanaeth yn cynnig datrysiadau i'r defnyddwyr. Fodd bynnag, nodwyd ymhellach bod y Tim sy'n gweithredu yn rhan o'r gyfundrefn cynigion ar gyfer toriadau a phe byddir yn haneru'r adnoddau gall hyn effeithio ar y gwasanaeth a gynigir.

(c) Cymerwyd y cyfle i ddiolch i'r Gwasanaeth am eu gwaith.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad.**

## 9. DECHRAU I'R DIWEDD - OEDOLION

(a) Cyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion ac Iechyd adroddiad drafft ar adolygiad Dechrau i'r Diwedd ar wasanaethau pobl hŷn

(b) Derbyniwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Adran Gwasanaethau Oedolion Iechyd a Llesiant ar ffurf sleidiau ac fe nododd nad oedd y cyfeiriad a osodir i'r adolygiad yn newydd gyda llawer ohono yn seiliedig ar drefniadau presennol a phenderfyniadau'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf. Tynnwyd sylw at y weledigaeth, natur y weledigaeth a chyfres o egwyddorion gan y Gwasanaeth. Nodwyd ymhellach bod gofynion penodol wedi eu gosod gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) a rhaid tynnu sylw bod canran y boblogaeth hŷn yn cynyddu. Byddai'r gyllideb yn y dyfodol yn sylweddol llai na'r gorffennol ac y byddai angen cadw golwg ar ddylanwad hynny.

(c) Cyfeiriodd at fethodoleg yr adolygiad gan nodi'r camau sylfaenol isod:

1. Ymarfer Da - I ddysgu gwersi gan eraill am ddulliau blaengar o weithredu gan dderbyn nad oes un dull gorau ymhob achos neu faes. Mae sawl dull allai weithio a bydd angen bod yn ddoeth i ddewis beth fyddai yn briodol ac orau ar gyfer Gwynedd.
2. Cymharu - yn bennaf gyda'r 'teulu' o awdurdodau cymharol er mesur cynnydd/perfformiad Gwynedd
3. Edrych ar y cynnydd nid yn unig o ddata caled ond hefyd o ran casglu gwybodaeth ac ymateb ar lefel lleol

O safbwynt llesiant a rheoli'r galw, nodwyd:

1. Bod llesiant yn gyfrifoldeb ar draws y Cyngor, nid yn fater Gwasanaethau Gofal/Cymdeithasol yn unig a bod angen ystyried llesiant cyn i broblemau dwys godi
2. Yr angen i ddefnyddio ymyrraeth ac atal fel camau buan eu hunain ond hefyd yn medru gwneud cyfraniad pwysig at reoli'r galw am wasanaethau gofal ffurfiol
3. Nid oes un ateb delfrydol cyffredin ar gyfer siapio gwasanaethau llinell flaen. Hefyd yn medru cynnwys dulliau integredig megis gwaith Ffordd Gwynedd yn Alltwen a chyfraniad y 3ydd sector.
4. Bod perthynas gyda chymunedau yn cael sylw penodol yng Nghynllun Strategol y Cyngor. Bydd angen cyfeirio adnoddau i gyflawni hyn a rhaid derbyn nad yw Gwynedd nac unrhyw awdurdod lleol arall yn mynd i lwyddo heb gryfhau'r elfen yma o'r Gwasanaeth.
5. Y byddai ail strwythuro'r Adran yn allweddol i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd newydd a chyfarfod a disgwyliadau'r ddeddf a defnyddwyr gwasanaeth.

Yng nghyd-destun datblygiad ymarfer gwaith cymdeithasol, esboniwyd

1. ei bod yn anorfod i ymarfer gwaith cymdeithasol newid er mwyn ymateb i ofynion y ddeddf a'r angen i drawsnewid gwasanaethau.

2. Bod tystiolaeth yn dangos bod diwylliant a safon ymarfer gwaith yn allweddol i ganfod dulliau priodol a gwell i gyfarfod anghenion unigolion.
3. Bod angen ceisio cefnogi unigolion i fyw gartref gyda chefnogaeth briodol a dros amser fel bo'r ddibyniaeth ar ofal preswyl yn lleihau.
4. Bod cynnig a hyrwyddo taliadau uniongyrchol a rhoi'r ffocws ar ddeilliannau i'r unigolyn yn ddwy agwedd bwysig wrth ddatblygu ymarfer gwaith cymdeithasol.
5. Bod Tim Datblygu Gweithlu Gofal a rôl allweddol i ddatblygu gallu'r Cyngor i gyflawni'r newidiadau.

Er mwyn cyflawni amcanion a gofynion y Ddeddf, nodwyd bod angen cryfhau'r gefnogaeth i fyw gartref a chanolbwyntio ar yr agweddau penodol isod:

1. Dementia a bregusrwydd
2. Gofal Dydd yng Ngwynedd
3. Rôl y trydydd sector yn enwedig o ran darparu cefnogaeth yn y cartref ac yn y gymuned
4. Gofal Cartref - cydnabuwyd bod angen edrych ar y balans priodol o ran darpariaeth mewnol/allanol yng Ngwynedd gan ei fod oddeutu 50%/50% ar hyn o bryd gyda darpariaeth fewnol ac allanol yn destun pryder o ran recriwtio ym Meirionnydd

O safbwynt darpariaeth llety, nodwyd bod yn rhaid sicrhau dewis amgen ar gyfer pobl hŷn megis tai gofal ychwanegol. Nodwyd bod eglurder ynglŷn â rôl ysbytai lleol yn bwysig o ran cynllunio ar gyfer gofal nyrsio a preswyl yn y dyfodol ac fel cyd-destun i flaenoriaethu opsiynau dros y blynyddoedd nesaf. Bydd rhaid i'r blaenoriaethau adlewyrchu y gofynion fydd yn cael eu hamlygu o ganlyniadau asesiadau anghenion.

Gall integreiddio gyda GIG gyflawni canlyniadau positif ond fe all amrywio o ardal i ardal. Nodwyd bod y rhaglen Cronfa Gofal Canolradd yn ein harwain at well comisiynu a hwyluso symudiad i'r cyfeiriad cywir.

I gloi, nodwyd bod y fethodoleg yn ddeinamig gyda phenderfyniadau i'w cymryd dros y 18 mis nesaf, rhai ohonynt yn benderfyniadau gweithredol a strategol a fydd yn siapio'r dyfodol ac yn golygu newidiadau enfawr ac anorfod.

(ch) Rhoddwyd cyfle i Aelodau fynegi sylwadau ac fe amlygwyd y pwyntiau canlynol ganddynt:

(i) Rhaid sicrhau bod y trydydd sector yn gweithredu dros Wynedd gyfan
(ii) Bod canmoliaeth yn ardal Bangor i'r ddarpariaeth tai gofal ychwanegol
(iii) Pwysigrwydd i gynnwys darpariaeth gofal ysbaid o fewn y strategaeth i gefnogi'r gofalwyr
(iv) Pwysigrwydd i fagu perthynas gyda phartneriaethau eraill e.e. Môn/Menai yng Ngogledd y Sir a Ceredigion/Powys o safbwynt De'r Sir.
(v) Crybwyllwyd am ymarferion da a weithredir yn Ysbyty Dolgellau
(vi) Pwysigrwydd bod aelodau etholedig yn cefnogi'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a bod ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol yn hynod bwysig.
(vii) A fyddai trefniadau o weithredu cronfa gyllidol ("pool budget") yn addas ac yn gweithio ar gyfer y newidiadau yn y maes hwn?
(viii) Pam na all y Cyngor weithredu "cofrestriad deublyg" (dual registration) fel bo modd i'r nyrsys cymunedol roi gwasanaeth iddynt mewn cartrefi gofal preswyl?
(ix) Bod gofal yn y cartref yn gweithio'n llwyddiannus os yw'r cyfleusterau ar gael ond mai'n wybyddus bod unigolion yn gorfod symud o'u cynefin i gael darpariaeth gofal preswyl sydd yn creu anhawsterau i deuluoedd i ymweld a hwy o ran teithio , a.y.b.
(x) Pryder ynglyn a diffyg recriwtio gofalwyr mewn cystadleuaeth a chyflog gwell a gynigir gan archfarchnadoedd

(xi) A ellir dysgu gwersi oddi wrth awdurdodau eraill o'r teulu sy'n perfformio'n well ac a oes modd gwneud mwy o ddefnydd o gartrefi preswyl preifat?

(d) Bu i'r swyddogion ymateb i'r sylwadau uchod fel a ganlyn:

- Efallai y gellir rhoi ystyriaeth i arbrofi gweithredu cronfa gyllidol mewn rhai pocedi o'r Sir ond yn sicr byddai'n ofynnol ystyried y mater gam wrth gam
- O safbwynt cymhariaeth perfformiad gydag awdurdodau eraill sicrhawyd bod hyn wedi ei ystyried ac wedi eu hymgorffori yn argymhellion yr adroddiad.
- Bod y darlun ynglyn â chyflogau byw o bosib yn mynd i gau'r bwlch i'r dyfodol o safbwynt costau gofal preswyl a gofal preifat
- Er nad oedd gofal ysbaid wedi derbyn sylw penodol o fewn yr adroddiad, cydnabyddir bod lle i wneud defnydd o ofal ysbaid drwy ystyried dulliau eraill er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar ofal ysbaid

**Penderfynwyd: Derbyn cynnwys yr adroddiad drafft gan ofyn i'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion a Iechyd a'r Pennaeth Adran Gwasanaethau roi ystyriaeth i'r sylwadau perthnasol amlinellwyd gan yr aelodau yn (i) – (x) uchod fel rhan o'r adroddiad terfynol.**

**10. PROSIECT YR HER GOFAL**

(a) Cyflwynwyd adroddiad ar y prosiect Her Gofal sy'n rhan o brosiectau Cynllun Strategol y Cyngor ac yn allweddol i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol mewn ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r agenda ariannol heriol wynebir.

(b) Eglurodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion ac Iechyd y bwriedir cynnal Grwpiau Ffocws gydag Aelodau ar 29 Medi rhwng 2.00 - 4.00 y.p. ym Mhorthmadog a bod gwaith yn mynd rhagddo i ymgysylltu gyda defnyddwyr, partneriaid allweddol a chymunedau.

(c) Gofynnwyd am sylwadau'r Aelodau ar friff y prosiect ac erfyniwyd arnynt i gymryd rhan yn y Grŵp Ffocws ar 29 Medi.

(ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) Pryder bod cartrefi gofal preifat yn cau oherwydd methiant i recriwtio staff
(ii) Nodwyn gan Aelod bod nyrsys arbenigol ar gael ac eisiau gweithio ond y dylid ystyried y dull o recriwtio drwy gynnig cymhelliad ariannol ychwanegol i weithio sifft nos, costau teithio, a.y.b. fel nad oes raid recriwtio nyrsys o dramor. Byddai hyn hefyd yn sicrhau defnydd o'r iaith Gymraeg sydd mor bwysig i'r genhedlaeth hŷn.
(iii) Bod gwaith gweinyddol wedi cynyddu o'i gymharu â'r gorffennol lle'r oedd nyrsys yn gallu canolbwyntio ar ofalu am gleifion ond erbyn heddiw bod disgwyl iddynt wneud llawer o waith gweinyddol yn ogystal â nyrsio
(iv) Siom mai dim ond un sesiwn a gynigir ar gyfer y Grŵp Ffocws

(d) Ymatebodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion ac Iechyd a'r swyddogion i'r uchod gan nodi:

- Cydnabuwyd ei bod yn anodd recriwtio ond sicrhawyd bod gwaith yn cael ei gomisiynu gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ynghyd â gwaith pellach gyda Phrifysgol Bangor o safbwynt cael darpariaeth ysgol feddygaeth.
- Bod bwriad i gynnal mwy o sesiynau Grŵp Ffocws ond ei fod yn anodd medru cael dyddiad sy'n gyfleus i bawb
- Cadarnhawyd y byddir yn ail-anfon e-bost i Aelodau i'w hatgoffa am ddyddiad y sesiwn cyntaf o'r Grŵp Ffocws ar 29 Medi lle byddir yn trafod syniadau

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

Dechreuodd sesiwn y prynhawn am 1.00 p.m. a daeth i ben am 3.00 p.m.

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethu |
| **DYDDIAD** | 26.11.15 |
| **TEITL** | Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014 / 15 (Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol - AGGCC) |
| **PWRPAS** | Craffu'r Adroddiad dan sylw |
| **AWDUR** | Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (Atodiad 1)<br><br>Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol (adroddiad blaen yn unig) |

## 1 Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014 / 15 (Atodiad 1)

## 2 Cyflwyniad

2.1 Ar y 30 Hydref 2015, bu i ni dderbyn yn swyddogol Adroddiad Blynyddol ar berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn 2014/15. Bydd yr Adroddiad yma yn dod gerbron y Cabinet ym mis Rhagfyr eleni.

Mae'n debyg ei fod yn deg nodi fod yr adroddiad yn bositif iawn ac yn amlygu mannau amlwg y mae'r arolygwyr wedi profi cynnydd. Er hyn mae elfennau lle mae angen sylw pellach ac fe fydd y Cyfarwyddwyr Statudol, ynghyd a'r swyddogion perthnasol, yn ystyried y materion hyn yn fanwl iawn, gan lunio rhaglen waith pwrpasol mewn ymateb.

Rhagwelir cyflwyno drafft o'r rhaglen waith honno i gyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ym mis Rhagfyr, er gwybodaeth.

## 3 Ystyriaethau Perthnasol

3.1 Amherthnasol

## 4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

4.1 Mae'r Adroddiad Blynyddol yn linyn mesur greiddiol ac hanfodol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau dysgu a datblygu parhaus. Mae barn a sylwadau'r craffwyr yn rhan hanfodol o'r broses

honno.

## 5 Camau nesaf ac amserlen

5.1 Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Rhagfyr.

## 6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1

AGGCC
CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

## Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd



Hydref 2015

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 2014–15

© Hawlfraint y Goron 2015 WG26666 ISBN digidol 978 1 4734 4892 6

**Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-2015**

**Awdurdod Lleol:** **Cyngor Gwynedd**

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Gwynedd wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.**

## 1. Crynodeb

1.1. Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd cadarn yn gwella gwasanaethau cymdeithasol a pharatoi ar gyfer newidiadau i ddod. Mae gan y cyngor weledigaeth i roi cymorth i bobl yn eu cymunedau mewn ffyrdd creadigol, hyblyg a chost effeithiol, a gwella profiadau a dewisiadau i bobl ag anghenion cymhleth. Mae'r cyngor wedi dechrau datblygu gwasanaethau ar y llinellau hyn ar y cyd ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae mwy o ymgysylltiad a chefnogaeth gan y bwrdd iechyd bellach, yn flaenorol roedd y ddiffyg hwn wedi amharu ar ddatblygiad.

1.2. Mae gwell aliniad rhwng y cyngor ehangach a'r adrannau sy'n cynnig gwasanaethau cymdeithasol, fel y gwelir yn y blaenoriaethau a dulliau gweithredu sy'n cael eu rhannu. Cafwyd cefnogaeth hefyd i'r adran gyda'i hadolygiadau diweddar o'r gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau plant.

1.3. Mae'r ymdrechion i weithio yn fwy cost effeithiol ac effeithlon, ynghyd â'r codiadau sydd wedi eu cynllunio mewn treth cyngor, wedi galluogi'r Cyngor i haneru ei ddiffyg ariannol o £50 miliwn i £25 miliwn, gydag arbedion effeithlonrwydd pellach o £18 miliwn i'w gwireddu dros y blynyddoedd nesaf.

1.4. Mae'r perfformiad mewn rhai meysydd o wasanaethau cymdeithasol wedi bod yn gwella'n gynyddol bob blwyddyn, ac mae meysydd cadarn o arfer a chanlyniadau da megis ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae newid mewn cynllunio gwasanaethau wedi bod yn araf mewn meysydd eraill, megis gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a'r strategaeth llety i oedolion.

1.5. Bydd y newidiadau a fwriedir mewn gwasanaethau cymdeithasol yn gofyn am newid mewn arfer a diwylliant sefydledig. Mae natur a graddfa'r newidiadau mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn achosi risgiau sylweddol y bydd angen lefel uchel o arweinyddiaeth a chymorth arnynt er mwyn eu cyflenwi mewn dull amserol. Dylai'r trefniadau newydd, gydag aelod cabinet ar gyfer

oedolion ac iechyd ac aelod cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc, ei gwneud yn haws i weld y datblygiadau gwasanaeth newydd ac i ymgysylltu â'r bwrdd iechyd.

1.6. Mae'r cyngor yn perfformio'n gryf yn rhoi gofynion ‘Mwy na Geiriau’ – y fframwaith ar gyfer y Gymraeg – ar waith.

## 2. Yr ymateb i’r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

| Maes i'w wella a nodwyd y llynedd | Cynnydd yn 2014-2015 |
|---|---|
| Cynllunio strategol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn gwasanaethau i oedolion. | Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn cyd-gynllunio a chyd-ddatblygu gwasanaethau i oedolion. |
| Cynllunio strategol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. | Cafwyd rhywfaint o gynnydd yn sefydlu cyfarfodydd rheolaidd gydag uwch-reolwyr yn y bwrdd iechyd. Mae effaith y berthynas well hon eto i gael ei gwerthuso. |
| Defnyddio gwybodaeth gan baneli plant sy'n derbyn gofal i ddisgrifio anghenion a thueddiadau'r boblogaeth. | Mae cynnydd wedi ei wneud o ran arferion adrodd y paneli a fydd yn galluogi'r cyngor i ganfod patrymau dros gyfnod o amser. |
| Amseroldeb asesiadau cychwynnol mewn gwasanaethau plant. | Gwelliant bychan mewn perfformiad. Mae trefniadau newydd wedi'u gwneud i wella amseroldeb ymhellach. |
| Gwelliant parhaus i leihau nifer y plant sy'n cael eu hail-atgyfeirio. | Cafwyd gwelliant mewn perfformiad bob blwyddyn. Mae dealltwriaeth gynyddol o'r data a'r gwahaniad rhwng hysbysiadau ac atgyfeiriadau. |
| Ymwybyddiaeth o wasanaethau eiriolaeth a defnydd ohonynt. | Cafodd y gwasanaeth eiriolaeth ei roi i dendr yn rhanbarthol unwaith eto yn 2014, ac mae trefniadau ar waith yn awr i godi ymwybyddiaeth. |
| Cysondeb wrth ymateb i gwynion. | Gwell perfformiad – mwy o reoli a goruchwylio cwynion. |
| Mynediad at ofal iechyd a llety i blant sy’n derbyn gofal. | Mae'r perfformiad mewn perthynas ag asesiadau iechyd plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod ymhell y tu ôl i gyfartaledd Cymru. Mae llety symud ymlaen yn dal angen ei ddatblygu. Mae’r Cyngor wedi sefydlu’r cynllun ‘Pan fydda i’n Barod’ sydd yn yn cynnig opsiwn pellach i blant sy’n derbyn gofal. |
| Gwerthusiad o effaith y strwythurau diogelu corfforaethol | Mae diogelu'n cael blaenoriaeth uchel o fewn y cyngor. Ni welwyd |

| | |
|---|---|
| | tystiolaeth o effaith y trefniant newydd hyd yma. |
| Amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant. | Mae perfformiad o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella ychydig, ond mae'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (85% o'i gymharu â 93%). Mae hwn yn parhau i fod yn faes i'w wella. |
| Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau a gofynion y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a gwella'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu'r trefniadau. | Cafwyd cynnydd sylweddol mewn ceisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ac mae'r cyngor wedi cynyddu nifer yr aseswyr. |
| Sicrhau ansawdd. | Mae uned diogelu ac ansawdd newydd wedi cael ei sefydlu. Mae angen gweithio trwy'r prosesau newydd. |
| Cymorth rhiantu corfforaethol gan y cyngor a phartneriaid i blant sy'n derbyn gofal. | Mae aelodau newydd ar y Panel Rhiantu Corfforaethol, ac mae mwy o gymorth corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal. |

## 3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

3.1. Mae ymweliadau â safleoedd yn rhoi cyfle i AGGCC siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd, a'r staff sy'n rheoli a gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014-2015, cynhaliwyd ymweliadau â:

- Thai Gofal Ychwanegol Cae Garnedd.
- Tîm Integredig Iechyd a Gofal (wedi eu lleoli yn Ysbyty Alltwen) i bobl hŷn a phobl ag anableddau.

3.2. Cyfarfu AGGCC hefyd ag uwch-swyddogion y cyngor trwy gydol y flwyddyn i adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol a thrafod cynnydd gyda'r meysydd i'w gwella a nodwyd yng ngwerthusiad perfformiad y llynedd. Ymgysylltodd y cyngor yn effeithiol ag AGGCC, ac fe hwylusodd fynediad i alluogi ymweliadau â safleoedd.

3.3. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGGCC arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor a chan weithredwyr annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o'r gwasanaeth mewnol ar gyfer maethu, y gwasanaeth lleoli oedolion, cartrefi gofal, a

gwasanaethau gofal cartref. Mae manylion y rhain yn yr adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi, ac maent ar gael ar wefan AGGCC.

## 4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

4.1. Mae nifer o feysydd penodol ar gyfer gwella wedi cael eu nodi yng nghorff yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Bydd meysydd penodol ar gyfer camau dilynol yn cynnwys:

- Gwelliannau yn yr arfer o amddiffyn oedolion agored i niwed.
- Moderneiddio gwasanaethau anableddau dysgu.
- Strategaeth a gwasanaethau comisiynu iechyd meddwl.

## 5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref.
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu.
- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

## 6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

**<u>Oedolion</u>**

**Trosolwg**

6.1. Mae'r cyngor yn symud tuag at ei nod o sicrhau bod pobl yn derbyn y gofal cywir ar yr adeg gywir, yn y lle cywir a gan y gweithwyr proffesiynol cywir. Mae'r cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd i gyflawni hyn, ac enghraifft o'r gwasanaethau a ddatblygwyd i fodloni anghenion pobl ag anghenion cymhleth yw'r pedair uned tymor byr yng nghartrefi gofal y cyngor er mwyn osgoi derbyn i ysbytai. Mae cyfraddau oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac yn is nag yn y flwyddyn flaenorol.

6.2. Gwellodd perfformiad o ran cwblhau adolygiadau gofal blynyddol, ac roedd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (83% o'i gymharu ag 80%). Yn ystod y flwyddyn, nodwyd y dylai'r cyngor a'r bwrdd iechyd sicrhau bod ganddynt bolisïau, gweithdrefnau ac arferion effeithiol ar y cyd i sicrhau bod anghenion gofal preswylwyr cartrefi gofal yn cael eu hail-asesu'n amserol.

6.3. Mae nifer y bobl y rhoddodd y cyngor gymorth iddynt mewn cartrefi gofal i bob 1,000 o'r boblogaeth dros 65 oed ar ddiwedd y flwyddyn wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i fod gyda'r uchaf yng Nghymru (24 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 19). Mae'r cyngor wedi rhoi cymorth i lawer mwy o bobl mewn cartrefi cymunedol na'r cyfartaledd yng Nghymru am flynyddoedd lawer, ac mae pobl yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi gofal sy'n eiddo i'r cyngor yng Ngwynedd nac mewn cynghorau eraill yng Nghymru.

6.4. Canfu arolygiadau AGGCC o gartrefi gofal i oedolion y cyngor fod preswylwyr yn siarad yn gadarnhaol am ansawdd y gofal roeddent yn ei dderbyn. Nododd arolygiadau o'r gwasanaethau hyn bryderon ynghylch gweinyddu meddyginiaeth a chynnal rheolwyr cofrestredig effeithiol, ond cymerodd y cyngor gamau gweithredu amserol ac effeithiol pan godwyd pryderon.

6.5. Roedd tystiolaeth yn y prosiect Corneli Cudd o arfer da oedd wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor a'i chanolfan gelfyddydau ac arloesedd, Pontio. Chwaraeodd cerddor a phobl ifanc o'r ysgol leol gerddoriaeth a chanu caneuon Cymraeg, ac roedd y gerddoriaeth a'r canu'n rhan hanfodol o hunaniaeth a phrofiadau bywyd cynnar llawer o'r bobl hyn. Gwellodd y gerddoriaeth a'r cynnwrf ansawdd bywyd y bobl oedd yn byw yn y cartrefi.

6.6. Mae diogelu'n flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae wedi rhoi trefniadau corfforaethol ar waith i wella arferion diogelu. Mae angen iddo bellach roi newidiadau ar waith yn ei brosesau diogelu oedolion. Mae gan y cyngor bolisi corfforaethol ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed, ac mae ganddo banel strategol sefydledig o aelodau ac uwch-swyddogion. Caiff y panel strategol gymorth gan banel gweithredol gyda rheolwyr o bob un o adrannau'r cyngor. Mae tystiolaeth bod y prosesau diogelu corfforaethol wedi arwain at gamau gweithredu sydd wedi hyrwyddo diogelu ledled y cyngor. Mae'r panel wedi gwneud hyn trwy geisio gwybodaeth ac adroddiadau am ddigwyddiadau lleol penodol o fewn gwasanaethau'r cyngor, ac mae wedi dysgu o brofiadau unigolion agored i niwed. Mae'r panel diogelu strategol yn gweithredu rhaglen waith sy'n seiliedig ar ddysgu gan achosion lleol a chenedlaethol, yn edrych ar y gwersi gan archwiliadau, ac yn datblygu hyfforddiant, polisïau newydd, a dangosfwrdd diogelu. Mae tystiolaeth bod y panel

gweithredol ac adrannau'r cyngor yn rhoi cynlluniau ar waith i wella arferion diogelu.  Mae angen sicrhau bod y gwelliannau a nodwyd o ran diogelu yn digwydd yn gyson ac yn amserol.

6.7. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 178 o atgyfeiriadau oedolion agored i niwed, chwech yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol.  O'r atgyfeiriadau hyn, cwblhawyd 100% ohonynt gyda'r risg yn cael ei reoli.   Cyfrannodd y cyngor at Adolygiad o Arfer Gwasanaethau Oedolion, a nododd fod angen gwelliannau yn arferion amddiffyn oedolion agored i niwed y cyngor.   Pan fyddant yn weithredol, bydd y rhain yn cynyddu ymwneud darparwyr gofal ac yn gwneud yr archwiliad a'i ganlyniad yn fwy eglur. Bydd diogelu oedolion yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016.

6.8. Llwyddodd y cyngor i reoli pedair proses uwchgyfeirio pryder ynghylch cartrefi gofal a gwasanaeth gofal cartref, ble cafwyd pryder ynghylch ansawdd y gofal a ddarparwyd. Roedd hyn ddwywaith cymaint ag yn y flwyddyn flaenorol. Gweithiodd y cyngor yn effeithiol i reoli a chau asiantaeth gofal cartref trwy ddefnydd da o dîm brocera'r cyngor a gwasanaethau ac adnoddau'r cyngor ei hun. Roedd y cyngor yn gweithio'n dda gyda phartneriaid allweddol ac yn gwneud cynlluniau wrth gefn gofalus.

6.9. Mae’r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn darparu fframwaith cyfreithiol i amddiffyn pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal ac ysbytai ac sy'n agored i niwed oherwydd anhwylder meddyliol a diffyg galluedd meddyliol. Cafodd y cyngor gynnydd sylweddol (o saith i 365) mewn ceisiadau ar gyfer awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, sydd wedi arwain at oedi o ran ymgymryd ag asesiadau. Mae'r cyngor wedi ymateb trwy benodi cydgysylltydd a chynyddu nifer yr aseswyr budd pennaf.

6.10. Mae'r cyngor wedi dechrau datblygu strategaeth comisiynu iechyd meddwl, a bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016.  Canfu'r cyngor fod angen moderneiddio ei wasanaethau anableddau dysgu a datblygu amrywiaeth o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y person i gynyddu annibyniaeth.  Mae'r cyngor yn mabwysiadu'r model datblygu sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu, ac mae hwn yn ceisio gwireddu dyheadau'n well wrth wneud pobl yn annibynnol.  Mae'r agwedd hon yn hyrwyddo dysgu sgiliau newydd ac yn helpu pobl i wneud cymaint o bethau ag y gallant drostynt eu hunain. Mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn y flwyddyn i ddod.  Yn ystod 2014-2015, mae'r cyngor hefyd wedi ymgymryd ag adolygiad o wasanaethau i oedolion.

Mae'r cyngor yn nodi y bydd yr adolygiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2015.

6.11. Mae nifer y bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol wedi cynyddu i 120, gan alluogi'r bobl hyn i gael mwy o ddewis, hyblygrwydd a rheolaeth wrth gynnal eu hannibyniaeth. Yn ystod y flwyddyn, sefydlodd y cyngor grŵp gorchwyl, a gyda defnyddwyr gwasanaeth, fe gyd-gynhyrchodd ganllawiau newydd ar gyfer taliadau uniongyrchol, ac mae cynlluniau ar y gweill i gyd-gynhyrchu'r trefniadau yn y flwyddyn sydd i ddod.

**Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol (oedolion)**

**Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

6.12. Yn ystod y flwyddyn, mae'r cyngor wedi datblygu gwasanaethau ataliol gyda phartneriaid, gan agor ail adnodd gofal ychwanegol yn ystod mis Rhagfyr 2014 ym Mangor, ac mae'n bwriadu agor un arall ym Mhorthmadog yn 2017. Cafodd adnodd gofal ychwanegol Cae Garnedd ym Mangor ei ddatblygu gan bartneriaeth gyda Thai Gogledd Cymru, ac mae'n darparu llety o ansawdd uchel. Dywedodd y bobl oedd yn byw yng Nghae Garnedd eu bod yn derbyn gofal o ansawdd uchel. Roedd yr adnodd yn sefydlu ei weithgareddau cymunedol a chymdeithasol. Dywedodd y gofalwyr oedd yn gweithio yn yr adnodd gofal ychwanegol eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac yn gallu darparu gofal gwell a mwy diogel yn y datblygiad newydd.

6.13. Cafodd y rhaglen Heneiddio'n Dda ei datblygu yn ystod y flwyddyn mewn partneriaeth ag Age Cymru, gyda chanolfannau ym Mlaenau Ffestiniog, Penrhyndeudraeth, Cricieth, Porthmadog a Thremadog yn cael eu sefydlu ar yr egwyddorion ataliol o gadw pobl hŷn yn egnïol ac yn iach a gwella a chreu cyfleoedd cymdeithasol iddynt yn eu cymunedau lleol.

6.14. Fe wnaeth y cyngor asesu neu adolygu anghenion 241 o ofalwyr oedolion yn 2014-2015, sy'n ostyngiad o'r 298 o ofalwyr a gawsant eu hasesu yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn destun pryder gan fod nifer y rhai sy'n gofalu am oedolion sy'n derbyn asesiad o'u hanghenion eu hunain wedi codi dros y pedair blynedd diwethaf yng Nghymru, er bod y nifer wedi cwympo'n barhaus yng Ngwynedd. Nifer y gofalwyr oedolion a gawsant eu hasesu neu eu hail-asesu ar eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn y darparwyd gwasanaeth ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn oedd 132.

6.15. Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y cyngor pa mor effeithiol oedd y gwasanaeth ailalluogi, a nododd i'r gwasanaeth gynhyrchu arbedion o un filiwn o bunnau ac nad yw 58% o bobl sy'n derbyn y gwasanaeth

angen gwasanaeth am o leiaf un flwyddyn. Nodwyd y gellid targedu'r gwasanaeth ymhellach i wella effeithlonrwydd, a gellid canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau cytûn i'r dinesydd yn hytrach na cheisio lleihau defnydd o'r gwasanaeth yn y dyfodol.

**Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth**

6.16. Rhoddwyd blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gan y bwrdd gwasanaeth lleol, a chafodd ei gyflenwi gan y tîm trawsnewid integredig a'r fforwm sirol, sydd yn cynnwys y trydydd sector a phartneriaid tai. Ategwyd at weithio integredig gan rywfaint o gyd-leoli a gwell cyfathrebu rhwng systemau technoleg gwybodaeth. Cafodd rheolwr trawsnewid ei benodi ar y cyd ar draws gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac fe ddangosodd cynlluniau wedi eu cyllido gan y gronfa gofal canolradd ganlyniadau gwell i bobl. Un enghraifft yw'r defnydd o fferyllydd cymunedol, sy'n ymweld â phobl yn eu cartrefi ac sydd wedi gwella defnyddio meddyginiaeth yn effeithiol, lleihau gwastraff, a gwella lles unigolion.

6.17. Symudodd y cyngor a'r bwrdd iechyd tuag at weithio saith diwrnod yr wythnos a galluogi cleifion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty dros y penwythnos. Bydd lolfa ryddhau integredig yn Ysbyty Gwynedd yn cyd-fynd â hyn, gyda'r nod o wella cyfathrebu amlddisgyblaethol a lleihau cyfnod amser cleifion yn yr ysbyty.

6.18. Gwnaeth y Cyngor gynnydd sylweddol wrth gychwyn y ffordd newydd o weithio yn Ysbyty Alltwen, Porthmadog, lle mae tîm o staff gwasanaethau cymdeithasol a iechyd yn gweithioar y cyd i ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn a phobl ag anableddau. Cafwyd ymgysylltu cryf gyda'r bwrdd iechyd i ddatblygu'r gwasanaeth hwn trwy werthuso'r dull traddodiadol o weithio, sefydlu gwerthoedd newydd, a darparu cymorth ar lefel uwch i roi'r rhaglen ar waith. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar bobl ac ar weithredu egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan ddefnyddio agwedd 'yr hyn sy'n bwysig' ac adeiladu ar gryfderau pobl. Nod y gwasanaeth yw gwneud penderfyniadau amserol mor effeithiol â phosibl. Mae arweinwyr yn y cyngor a'r bwrdd iechyd wed bod ar flaen y gad yn herio a newid arferion, trwy oresgyn rhwystrau biwrocrataidd a chael gwared ar brosesau aneffeithlon. Bydd y cyngor a'r bwrdd iechyd yn wynebu heriau wrth osod y gwerthoedd a'r dulliau gwaith a ddatblygwyd yn y rhaglen beilot yn y brif ffrwd ar raddfa fwy. Gallai'r dull newydd o weithio achosi newidiadau sylweddol o bosibl ac arbedion mewn gwasanaethau i oedolion, a bydd yn dylanwadu ar y cyfeiriad newydd i wasanaethau i bobl hŷn.

**Meysydd o gynnydd**

- Gweithio'n strategol ac yn weithredol gyda'r bwrdd iechyd
- Datblygu arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

**Meysydd i'w gwella**

- Diogelu oedolion
- Cymorth i ofalwyr

**<u>Plant a phobl ifanc</u>**

**Trosolwg**

6.19. Roedd perfformiad gwasanaethau i blant yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, gyda chanlyniadau da'n cael eu cyflawni i blant sy'n derbyn gofal ac angen i wella perfformiad o ran gwaith asesu, rheoli gofal, ac adolygu o fewn gwasanaethau plant.

6.20 Mae rheolaeth y cyngor o atgyfeiriadau wedi gwella bob blwyddyn. Mae hysbysiadau ac atgyfeiriadau yn cael eu gwahanu, gan arwain at leihad yn nifer yr atgyfeiriadau plant mewn angen. Fodd bynnag, mae'r gyfradd ail-atgyfeirio'n dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (26% o'i gymharu â 21%).

6.21. Mae perfformiad o ran amseroldeb asesiadau cychwynnol wedi gwella, ond mae'n dal i fod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (70% o'i gymharu â 76%), ac mae'n dal yn faes y mae angen i'r cyngor ei wella.

6.22. Darparodd y gwasanaeth gofal cartref i blant anabl ofal o ansawdd da, wedi ei deilwra'n unol ag anghenion, dewis a hoffterau unigol. Dylai'r gwasanaeth ddatblygu gwell gwerthusiad o'i gapasiti i ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen.

6.23. Roedd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd y flwyddyn yn debyg i'r tair blynedd diwethaf yn dilyn cynnydd yn 2012-2013. Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwymp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwymp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i

fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd.

6.24. Profiad AGGCC yn ystod y flwyddyn oedd bod materion diogelu'n cael sylw'n brydlon, a bod cyfarfodydd strategaeth a phrosesau amddiffyn plant yn cael eu rheoli'n dda.

6.25. Mae'r cyngor wedi cyflawni o ran cyflenwi cynlluniau gweithredu i wella gwasanaethau diogelwch yn dilyn dynladdiad domestig ac adolygiad achos difrifol yr adroddwyd amdanynt y llynedd. Cafwyd dau adolygiad aml-asiantaeth yn ystod y flwyddyn ac un arall sydd wedi datblygu yn adolygiad estynedig ar arferion gwasanaethau plant. Mae swyddogion yn y cyngor wedi ymgymryd â hyfforddiant adolygu arferion gwasanaethau plant ac wedi cyfrannu at adolygiadau ledled y rhanbarth. Mae'r cyngor wedi cymryd camau gweithredu mewn perthynas â gwelliannau a nodwyd yn adolygiad thematig AGGCC ‘Diogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer Plant sy’n Derbyn Gofal a’r Rhai sy’n Gadael Gofal sy’n dangos Ymddygiad Agored i Niwed neu Ymddygiad Peryglus’. Gwnaed cynnydd o ran gwella dealltwriaeth o wybodaeth paneli a'r her a ddarparir gan aelodau etholedig. Fodd bynnag, mae cynnydd yn araf mewn meysydd fel gwella darparu gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol i blant sy'n derbyn gofal.

## Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol


### Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

6.26. Daeth gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar dan reolaeth yr adran plant a chefnogi teulu yn ystod y flwyddyn, ac mae hyn wedi bod o gymorth o ran gweithio'n agosach gyda'r timau. Bydd hyn yn caniatáu gwell cynllunio gofal i fodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Yn ystod y flwyddyn, mae'r cyngor wedi datblygu ei wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Mae ymestyn y ddarpariaeth Dechrau'n Deg i Fethesda a Thal-y-sarn wedi cynyddu nifer y plant o oedran cyn ysgol sy'n derbyn cymorth i wella eu sgiliau cyn mynd i'r ysgol yn sylweddol. Mae cynlluniau datblygu pellach i ymestyn y ddarpariaeth i Ddolgellau, Pen-y-groes a Gallt y Sil. Rhoddodd y tîm o amgylch y teulu – Gyda'n Gilydd – gymorth i 85 o deuluoedd, a chanfu ymchwil gan Brifysgol Cymru fod 80% o'r teuluoedd wedi nodi bod y gwasanaeth wedi rhoi cymorth iddynt wneud gwelliannau hir dymor. Cafwyd cadarnhad allanol hefyd gan werthusiad gan Brifysgol Oxford Brookes bod y gwasanaeth o ansawdd uchel a'i fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i deuluoedd. Mae'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, sy'n gweithio'n agos â theuluoedd i

gyflawni newid mewn ymddygiad, yn weithredol, ac mae'r adborth yn gadarnhaol am y gwasanaeth, ond bydd gwerthusiad mwy manwl o'r gwaith yn bosibl yn 2015-2016.

6.27. Nododd adolygiad dechrau i'r diweddy cyngorfuddiannau sefydlu Tîm Trothwy Gofal i osgoi gosod plant mewn gofal trwy ymyrraeth fer, ddwys. Mae'r tîm wedi bod yn gweithio ers dechrau mis Chwefror 2015. Mae’r cyngor yn nodi canlyniadau dechreuol da gan y gwasanaeth, ac mae'n bwriadu defnyddio'r sgiliau sydd wedi cael eu datblygu i drawsnewid gwasanaethau plant.

**Plant sy'n derbyn gofal**




**Niferoedd plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth**

| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 163 | 179 | 175 | 195 | 203 | 185 | 194 |

6.28. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi amrywio o gwmpas y rhifolyn 194 am y pedair blynedd diwethaf. Dros y saith mlynedd diwethaf, mae'r cyngor wedi derbyn nifer cynyddol o blant sy'n derbyn gofal yn unol â'r duedd ledled Cymru. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd hyn yn 8.19 plentyn i bob 1,000 yng Ngwynedd (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 8.82).

6.29. Casglodd adolygiad y cyngor o’r dechrau i’r diwedd yn 2013-2014 y dylai'r cyngor leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. Yn ystod y flwyddyn, daeth 64 o blant yn blant sy'n derbyn gofal, peidiodd 55 o blant â derbyn gofal, a chafodd pump eu mabwysiadu. Mae nifer cynyddol o blant wedi cael eu lleoli gyda'u rhieni dros y tair blynedd diwethaf, gan gynyddu o 6

i 17 ac i 27 yn 2015. Cwympodd nifer y lleoliadau gyda theuluoedd neu ffrindiau dros y tair blynedd (o 45 i 33 i 30 yn yr un modd). Mae nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir wedi aros yn sefydlog o gwmpas 13, gyda lleihad yn nifer y lleoliadau maethu asiantaeth dros dair blynedd (o 31 i 28 i 24).

6.30. Am y tair blynedd diwethaf, dechreuodd lleoliad pob plentyn sy'n derbyn gofal gyda chynllun gofal ar waith, ac mae cynlluniau sefydlogrwydd yn cael eu cwblhau ar amser ymron bob tro. Roedd perfformiad o ran presenoldeb a chyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn dda ar y cyfan, ond roedd y cymwysterau allanol a gyflawnwyd gan blant 16 mlwydd oed ymhell uwchben cyfartaledd Cymru (pwyntiau cymhwyster allanol cyfartalog o 428 o'u cymharu â 274).

6.31. Dim ond gwelliannau bach a wnaed gan y bwrdd iechyd o ran canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n derbyn asesiad iechyd yn ystod y flwyddyn, ac mae hwn yn dal yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (51% o'i gymharu ag 81%).

6.32. Eleni eto, mae gan 100% o'r rhai sy'n derbyn gofal gynllun llwybr ar waith a chynghorydd personol penodedig. Mae hyn wedi bod yr un fath am y tair blynedd diwethaf, ac mae'r cyngor yn gyson yn uwch na chyfartaledd Cymru o 90%.

6.33. Mae'r cyngor wedi rhedeg un o dri chynllun peilot sy'n ymestyn lleoliadau maethu y tu hwnt i ben-blwydd pobl ifanc yn ddeunaw oed. Mae'r cynllun 'Pan fydda i'n Barod' wedi rhoi mwy o ddewis llety i saith o bobl ifanc a'r cyfle i weithio'n agosach gyda nhw i'w paratoi ar gyfer bod yn annibynnol. Mae'r cyngor wedi gallu dysgu gan y cynllun peilot a chyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth.

6.34. Cynhaliodd AGGCC arolygiad o wasanaeth maethu'r cyngor ym mis Hydref a mis Tachwedd 2014, a chafwyd ei fod yn wasanaeth uchel ei barch, oedd yn ymatebol i anghenion y plant ac yn cael ei redeg yn dda. Mae plant sy'n derbyn gofal yn cael eu gweld yn rheolaidd gan weithwyr cymdeithasol, yn cael eu hannog i fynegi eu barn, ac yn cymryd rhan weithredol ym mywyd y teulu.

**Meysydd o gynnydd**

- Cynhaliwyd canlyniadau da i blant sy'n derbyn gofal
- Datblygu gwasanaethau ataliol

**Meysydd i'w gwella**

- Amseroldeb asesiadau cychwynnol
- Amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant
- Amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal
- Amseroldeb asesiadau iechyd i blant sy'n derbyn gofal

## 7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth

7.1. Mae'r cyngor wedi datblygu protocol sy'n disgrifio perthynas y cyfarwyddwr statudol gyda'r swyddogion allweddol. Mae'r protocol yn cael ei nodi yng nghyfansoddiad newydd y cyngor, a bydd y swyddogion allweddol yn edrych arno ac yn ei gymeradwyo. Mae'r cyngor wedi penodi swyddogion i swyddi newydd pennaeth oedolion, iechyd a lles, a phennaeth plant a chefnogi teuluoedd.

7.2. Mae absenoldeb rhai aelodau o staff allweddol wedi amharu ar allu'r cyngor i gynyddu datblygiadau yn ystod y flwyddyn, gan roi cryn alw ar y cyfarwyddwr corfforaethol a'i thîm. Gwnaeth y cyngor drefniadau i rannu cyfrifoldebau a datblygu gwaith yr adran, gan gynnwys secondio pennaeth arall o fewn y cyngor i fod yn bennaeth dros dro ar yr adran oedolion, iechyd a llesiant. Mae'r cyngor wedi wynebu heriau sylweddol wrth ddarparu capasiti ac arweinyddiaeth broffesiynol mewn gwasanaethau i oedolion yn ystod amser o newid mawr.

7.3. Mae cyfarwyddwr statudol gwasanaethau cymdeithasol wedi bod ar lefel cyfarwyddwr corfforaethol yn y cyngor am ymron i ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd tystiolaeth o well ddealltwriaeth a blaenoriaethu o faterion gwasanaethau cymdeithasol o fewn busnes y cyngor. Mae'r cyngor wedi dangos yn glir eu bod yn rhoi blaenoriaeth i faterion y maes ac yn cefnogi newidiadau mewn ymarfer, sy'n ofynnol yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a sydd yn cael eu gweld yn digwydd yn Alltwen.

7.4. Mae capasiti hefyd wedi lleihau o ganlyniad i newidiadau yn y strwythur corfforaethol, gyda gostyngiad o dri chyfarwyddwr corfforaethol i ddau. Mae'n bwysig bod arweinyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol yn cael digon o amser i ganolbwyntio ar y cyfrifoldebau statudol ac ar drawsnewid gwasanaethau.

7.5. Mae'r cyngor wedi cyfrannu at ac wedi elwa ar fentrau rhanbarthol sydd wedi datblygu gofal cymdeithasol a'r sector. Mae'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol yn flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae Partneriaeth Gwynedd a Môn yn nodi pobl hŷn, teuluoedd camweithredol, a chymunedau cynaliadwy/adfywio cymunedol fel ei dair blaenoriaeth.

7.6. Mae'r cyngor wedi cael trafferth ymgysylltu â'r bwrdd iechyd yn y gorffennol. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth dda bod hyn yn gwella ar lefel strategol, weithredol a gwleidyddol. Mae enghraifftiau o hyn yn cynnwys cynllun peilot Allt Wen ac ystyriaeth o berfformiad a gwelliannau mewn arferion rhyddhau o'r ysbyty ym mhwyllgor craffu'r cyngor. Mae trefniadau gweithio newydd y bwrdd iechyd ar gyfer ardaloedd wedi gwella gweithio mewn partneriaeth yng Ngwynedd.

7.7 Mae’r adrannau, drwy weithredu dull newydd o weithio, wedi canolbwyntio ar drefniadau gweithio, ymddygiad a diwylliant sy'n rhoi pobl wrth galon popeth mae'r cyngor yn ei wneud. Mae aliniad sylweddol rhwng egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, cynllun peilot Allt Wen, a Ffordd Gwynedd. Mae'r agweddau'n canolbwyntio ar bobl, yn goresgyn rhwystrau strwythurol a biwrocrataidd, ac yn cyflenwi’r hyn sy'n bwysig i bobl mewn ffordd effeithlon.

7.8. Mae sylw corfforaethol wedi ei roi i gefnogi moderneiddio gwasanaethau cymdeithasol ac ymateb i'r Ddeddf. Mae'r ddau adolygiad sylweddol o drefniadau gweithredol mewn gwasanaethau plant ac oedolion wedi cael eu cefnogi gan y gwasanaeth corfforaethol. Mae'r strwythur adrannol newid wedi caniatáu aliniad agosach rhwng gwasanaethau cymdeithasol plant a gwasanaethau ataliol.

7.9. Mae'r cyngor wedi manteisio ar gyfleoedd ac wedi parhau i ddatblygu ei wasanaethau'n raddol. Mae'r cyngor yn adnabod bod angen iddo wella cyfathrebu gyda phartneriaid er mwyn cynhyrchu gwasanaethau ar y cyd. Ni wnaeth y cyngor ddatblygu a gweithredu ei strategaethau comisiynu strategol a gyhoeddwyd yn flaenorol yn llawn. Mae angen amrywiaeth ehangach o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau i bobl sydd â dementia a datblygu gwasanaethau gofal cartref mewn ardaloedd gwledig ynysig.

7.10. Y gyllideb ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2014-2015 oedd £59,056,000, gyda tharged o £6,084,000 ar gyfer arbedion dros y tair blynedd nesaf. Mae'r cyngor yn wynebu diffyg cyllideb o oddeutu £50,000,000 hyd at 2017-2018, ac er mwyn mynd i'r afael â hyn, efallai y bydd gostyngiad pellach yn y gyllideb gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau cymdeithasol, a bydd angen rheoli a chraffu ar y risgiau sy'n gysylltiedig â hyn.

7.11. Yn ystod y flwyddyn, fe ymddeolodd yr aelod cabinet ar gyfer gofal wedi blynyddoedd lawer yn y swydd. Cymerwyd ei le gan aelod cabinet ar gyfer oedolion ac iechyd ac aelod cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc. Gyda chymorth gan y trefniadau newydd yn yr adran, bydd yr aelod cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc yn arwain ar rianta corfforaethol. Fe ddylai'r aelod cabinet ar gyfer oedolion ac iechyd gael gwell golwg ar ddatblygiadau newydd y gwasanaeth ac ymgysylltiad â'r bwrdd iechyd.

7.12. Mae'r cyngor wedi perfformio'n dda yn rhoi gofynion Mwy na geiriau – y fframwaith ar gyfer y Gymraeg – ar waith. Wrth roi ail flwyddyn ei gynllun gweithredu ar waith, mae'r cyngor wedi datblygu ei ddealltwriaeth o ble mae angen iddo wella adnoddau Cymraeg a chymryd camau ymarferol yn datblygu ei weithlu Cymraeg ei iaith. Yng nghynhadledd Mwy na Geiriau 2015, enillodd y cyngor wobrau am ddatblygu adnoddau arloesol ar gyfer gweithio gyda phobl sydd â phlant ag anghenion dysgu, gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu gwasanaethau ataliol ac arweinyddiaeth, a datblygu ysgolion iach. Mae'r cyfarwyddwr corfforaethol hefyd yn arwain ar yr agenda hwn yn genedlaethol ac yn cyfrannu at y strategaeth fydd yn dilyn Mwy na geiriau.

7.13. Mae'r cyngor wedi gwella ei oruchwyliaeth a rheolaeth o'r gwasanaeth cwynion. Yn ystod y flwyddyn, dychwelodd aelodau staff allweddol at eu swyddogaethau sylweddol yn rheoli'r broses gwyno, ac mae mwy o oruchwyliaeth o gwynion gan y cyfarwyddwr corfforaethol. Mae'r cyngor wedi rhoi'r canllawiau ar gyfer rheoli cwynion a ddaeth i rym yn 2014 ar waith, a chafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion sydd wedi symud ymlaen at ymchwiliad ffurfiol. Nid oedd unrhyw ymchwiliadau ffurfiol cam dau yn ystod y flwyddyn. Gwnaed un cais am ymchwiliad ffurfiol cam dau, ond canfu'r ymchwilydd annibynnol fod ymchwiliad cynhwysfawr iawn eisoes wedi cael ei gwblhau ar gam un. Bu cynnydd yn nifer yr ymholiadau a sylwadau oedd yn awgrymu datrys problemau'n gynharach. Fodd bynnag, ni chafodd yr holl gwynion eu rheoli o fewn yr amserlenni disgwyliedig, a methwyd ag ymdrin ag 13% o gwynion cam un ar gyfer plant a 26% ar gyfer oedolion o fewn yr amserlenni disgwyliedig. Roedd amrywiaeth o resymau am yr oediadau hyn, ond yn bennaf roedd yr oedi oherwydd diffyg capasiti rheoli.

**Meysydd o gynnydd**

- Gwell aliniad rhwng y cyngor a'r adran
- Gweithredu Mwy na Geiriau

- Gwell goruchwyliaeth a rheolaeth o gwynion

**Meysydd i’w gwella**

- Gweithredu rhaglenni moderneiddio
- Craffu a goruchwylio rhoi rhaglenni moderneiddio ar waith

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethu |
| **DYDDIAD** | 26.11.15 |
| **TEITL** | Adroddiad ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus |
| **PWRPAS** | Craffu'r Adroddiad dan sylw |
| **AWDUR** | Cynghorydd Mair Rowlands<br><br>Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol |

## 1 Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r Adroddiad ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (Atodiad 1)

## 2 Cyflwyniad

2.1 Bwriad yr adroddiad gerbron yw edrych yn ôl a'r beth sydd wedi ei gyflawni dros y cyfnod Ebrill 2014 - Mawrth 2015 yn ogystal â barn archwilwyr allanol ple'n berthnasol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o waith y Panel ar gyfer eleni. (Er gwybodaeth - mae bwriad cyflwyno adroddiad o'r fath ar gyfer 2015/16 yn ystod mis Mai 2016).

Bydd yr aelodau yn ymwybodol bod y maes diogelu yn un o brif gyfrifoldebau'r Cyngor ac mae hefyd wedi ei gynnwys fel prif flaenoriaeth o fewn y Cynllun Strategol.

Bydd yr aelodau yn ymwybodol yn ogystal bod y maes diogelu yn canolbwyntio ar ein cyfrifoldeb i sicrhau bod plant ac oedolion bregus Gwynedd yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth.

Yn ogystal disgwylir ein bod yn ymyrryd yn amserol ac yn briodol lle bo angen amddiffyn plentyn neu oedolyn bregus rhag cael ei gam-drin. Mae canllawiau cenedlaethol yn eu lle ar gyfer gyrru ymarfer yn y maes ac mae'r Gwasanaethau priodol yn cydweithio gydag asiantaethau perthnasol eraill e.e. heddlu

Mae'n bwysig nodi yma bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb, a gall rhai wneud y camsyniad mae ond cyfrifoldeb gweithwyr o fewn y maes gwasanaethau cymdeithasol yw diogelu. Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn hyrwyddo'r meddylfryd a diwylliant yma sefydlwyd y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus i yrru a monitro'r trefniadau corfforaethol. Mae'r Panel yn gymysg o ran aelodaeth, gyda 3 aelod

cabinet ynghyd a'r uwch swyddogion perthnasol yn bresennol.

## 3 Ystyriaethau Perthnasol

3.1 Dylid cadw mewn cof mai adroddiad ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, ac felly mae yma ganolbwyntio ar drefniadau corfforaethol diogelu yn hytrach nac achosion penodol y maes. Mae trefniadau eraill yn bodoli, megis y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Plant ac Oedolion Bregus, ar gyfer ymdrin â materion arbenigol y maes. Mae'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol hyn yn statudol eu natur ac yn amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol.

## 4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

4.1 Credir i'r adroddiad grynhoi gwaith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus yn gywir a theg ac mae'n hanfodol bod aelodau'n ymwybodol o waith y Panel ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

## 5 Camau nesaf ac amserlen

5.1 Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet 24.11.15.

## 6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1

# Adroddiad ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus

# 2014/15

## 1. Cyflwyniad

1.1. Bydd yr aelodau yn ymwybodol bod y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r maes diogelu ac wedi ei gynnwys eto eleni o fewn y Cynllun Strategol. Bydd yr aelodau hefyd yn ymwybodol bod Panel Strategol Diogelu (Plant ac Oedolion Bregus) wedi ei sefydlu ar gyfer rhoi sicrwydd i'r Cabinet a'r Cyfarwyddwr Statudol o effeithiolrwydd ein trefniadau diogelu ac amddiffyn fel Cyngor.

1.2. Bwriad yr adroddiad hwn felly yw ceisio rhoi trosolwg o waith y Panel am y flwyddyn 2014/15 ynghyd a chrynhoi barn arolygwyr allanol ar ein trefniadau. Yn ogystal â hyn, byddwn hefyd yn crynhoi er gwybodaeth ein bwriad o ran 2015/16.

1.3 Cadeirydd y Panel yw'r Cynghorydd Mair Rowlands a mae hi'n cael ei chefnogi gan Morwena Edwards sef Cyfarwyddwr Statudol sydd a chyfrifoldeb am y maes diogelu. Yn ogystal mae'r Cynghorydd Gareth Roberts a'r Cynghorydd Gareth Thomas yn aelodau o'r panel oherwydd eu dyletswyddau yn y meysydd oedolion a phlant. O ran swyddogion, mae sawl Pennaeth yn aelodau o'r Panel (megis Addysg, Oedolion Iechyd a Llesiant, Plant a Chefnogi Teuluoedd a Chefnogaeth Gorfforaethol) ac mae'r swyddog monitro hefyd yn aelod o'r panel.

1.4 I gefnogi gwaith y Panel mae Grŵp Gweithredol yn bodoli. Pwrpas y Grŵp hwn yw gweithredu y rhaglen waith a hefyd ymdrin â materion gweithredol. Mae aelodaeth y Grŵp yn cynnwys pencampwr diogelu o bob adran o'r Cyngor. Mae Cadeirydd y grŵp Gweithredol hefyd yn aelod o'r Panel Strategol.

1.5 Prif ffocws y trefniadau uchod yw sicrhau bod gweithdrefnau corfforaethol diogelu y Cyngor yn effeithiol ac yn gadarn. Mae trefniadau eraill yn bodoli, megis y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Plant ac Oedolion Bregus, ar gyfer ymdrin â materion arbenigol y maes. Mae'r Byrddau hyn yn statudol ac yn gweithredu ar draws asiantaethau, gyda chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i gyfrannu at y trefniadau llywodraethu hyn yn rhanbarthol ac yn isranbarthol, ac o bryd i'w gilydd bydd angen addasu trefniadau corfforaethol y Cyngor er mwyn adlewyrchu argymhellion y Byrddau Rhanbarthol.

1.6 Ein bwriad fel Panel Strategol yw sicrhau ein bod yn adrodd yn gyson i'r Cabinet ynglŷn â chynnydd y maes hwn, gan gynnig lle bo angen argymhellion ar gyfer gwella. Yn dilyn yr adroddiad hwn, rhagwelir y bydden yn adrodd mewn cylch rheolaidd i'r Cabinet yn unol a'r trefniadau adrodd ar berfformiad - gan hefyd gyflwyno adroddiad blynyddol bob mis Mai.

## 2. Rhaglen Waith

2.1 Mae'r Panel Strategol wedi bod yn gyfrifol am weithredu rhaglen waith gynhwysfawr. Rhoddir ddiweddariad yn y tabl isod o'r hyn sydd wedi ei gyflawni rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015.

| | Maes Gwaith | Gweithred/Canlyniad |
|---|---|---|
| 1 | Sicrhau dealltwriaeth o weithdrefnau a pholisïau diogelu corfforaethol o fewn y Cyngor | Ers sefydlu'r Panel ym mis Tachwedd 2012, mae'r polisïau adrannol a chorfforaethol wedi eu hadolygu yn flynyddol. Mae hyn yn cynnwys holl adrannau'r Cyngor yn ail ymweld â'r trefniadau a thrwy eu rheolwyr dynodedig yn sicrhau bod dealltwriaeth o'r trefniadau yn wybyddus i staff. |
| 2 | Sicrhau ymwybyddiaeth a chydymffurfiad o'r Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus Corfforaethol | Bu i bob rheolwr dynodedig ddechrau ar gyfres o gyfarfodydd gyda timau unigol o fewn eu hadran er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynnwys y polisïau corfforaethol ac adrannol - a darparwyd nodiadau briffio i'r rheolwyr hynny er mwyn hwyluso'r gwaith. Cynhyrchwyd posteri sy'n hyrwyddo'r neges bod diogelu plant ac oedolion bregus yn gyfrifoldeb i bawb a dosbarthwyd copïau o'r poster hwnnw i bob man gwaith o fewn y Cyngor gyda chyfarwyddyd clir eu bod i'w harddangos mewn mannau amlwg ar y safle. Ategwyd y neges hwnnw mewn taflen wybodaeth a dosbarthwyd "cardiau busnes" ar draws holl adrannau'r Cyngor, sydd yn nodi'r un rhif ffôn newydd a sefydlwyd ar gyfer adrodd ar bryderon yn ymwneud a diogelu plant a/neu oedolion bregus. |
| 3 | Darparu hyfforddiant diogelu ar gyfer aelodau, staff a rheolwyr | Cynhaliwyd naw gweithdy gyda swyddogion ac Aelodau etholedig er mwyn codi ymwybyddiaeth a sicrhau gwell dealltwriaeth o'r disgwyliadau a wneir o bob swyddog ac Aelod yn y maes hwn. Sefydlwyd pecyn e-ddysgu ar ddiogelu ym maes plant a chwblhawyd pecyn e-ddysgu, sydd eto i'w ryddhau, ym maes oedolion bregus. Bu i rai rheolwyr dynodedig fynychu sesiynau hyfforddi allanol mwy arbenigol ac mae cynlluniau i sicrhau bod cynulleidfa ehangach yn derbyn yr hyfforddiant hwnnw yn ystod 2015/16. |
| 4 | Cymeradwyo, dosbarthu a sicrhau ymwybyddiaeth o bolisïau a chanllawiau diogelu'r gwasanaeth addysg | Adolygwyd Polisi Diogelu'r Adran yn un ôl a'r arferiad blynyddol.<br><br>Bwriedir adolygu polisïau a chanllawiau maes diogelu a'u perthnasu i gwestiynau allweddol Estyn. |
| 5 | Sicrhau awdit blynyddol annibynnol o ansawdd gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant mewn ysgolion | Ysgolion yn cyflwyno adroddiad blynyddol i sylw'r cyrff llywodraethol yn flynyddol.<br><br>Gwaith pellach wedi cychwyn ac amserlen gweithredu wedi ei chytuno gyda'r ysgolion parthed gofynion Estyn yn y maes. |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Sicrhau awdit blynyddol annibynnol o ansawdd gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion bregus ar draws adrannau a gwasanaethau, drwy samplo gweithdrefnau gweithredol diogelu | Cwblhawyd awdit annibynnol yn ystod Hydref 2014 er mwyn mesur lefel ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff ar draws y Cyngor o'r hyn a geisir ei gyflawni yn y maes hwn. Roedd cynnal yr awdit yn cynnwys ymweld â staff mewn ugain lleoliad gwahanol, cyfweld pob rheolwr dynodedig a Chadeirydd y Panel Strategol yn ogystal ag adolygu'r polisïau a'r rhaglen waith. Adroddwyd bod enghreifftiau da o'r polisi ar waith ond bod angen canolbwyntio ar sicrhau bod y negeseuon yn cael eu cyfleu yn effeithiol i weithwyr teithiol ar draws y Sir. Nodwyd tair elfen o'r Polisi corfforaethol sy'n pery pryder i rai gweithwyr, sef y gofyn i weithredu tu hwnt i swyddogaethau gwaith, pryder ynglŷn â gwneud cyhuddiad ar gam a diffyg dealltwriaeth am faterion yn ymwneud a gorfod gweithredu fel tyst. |
| 7 | Sicrhau fod y flaenoriaeth i faes diogelu plant ac oedolion bregus yn cael ei hadlewyrchu yng Nghynllun Strategol y Cyngor | Mae'r maes gwaith diogelu wedi ei gynnwys o fewn y Cynllun Strategol eisoes ac wedi parhau yn flaenoriaeth yn dilyn adolygiad yn ystod 2015. Mae rhaglen waith arfaethedig bellach wedi ei gytuno. Mae'r rhaglen waith yn cynnwys rhoi sylw pellach i faterion corfforaethol, maes addysg, maes plant o ran ecsploetio plant yn rhywiol a maes oedolion o ran argymhellion y Comisiynydd Pobl a Hŷn ac argymhellion Winterbourne. |
| 8 | Aelodau Arweiniol yn derbyn tystiolaeth o berfformiad corfforaethol / trawsadrannol y cyngor parthed materion diogelu plant ac oedolion bregus | Fel rhan o'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus mae'r Aelodau Arweiniol yn derbyn diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun gwaith corfforaethol a hefyd materion o bwys adrannol. |
| 9 | Cefnogi swyddogaethau a dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Statudol o fewn y Cyngor | Mae gwaith diogelu plant ac oedolion bregus yn rhan o ofyniad statudol y Cyfarwyddwr Statudol ond yn ddyletswydd ar y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Mae gwaith y Panel Strategol yn dangos cefnogaeth y corff ac adrannau ar draws y Cyngor i'r dyletswyddau hyn. Mae Adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol yn cael ei gyflwyno yn flynyddol i'r Cyngor Llawn, a gwnaethpwyd hyn eleni yng Ngorffennaf 2015. Mae'r adroddiad hwn yn ogystal yn ffordd o gefnogi y swyddogaeth sydd gan y Cyfarwyddwr. Eleni bu i'r Panel hefyd ychwanegu at y rhaglen gyfarfodydd eitem barhaol sydd yn rhoi y cyfle i aelodau'r Panel i gyflwyno unrhyw bryder neu wybodaeth sydd ganddynt at sylw'r Cyfarwyddwr. Mae hyn yn ychwanegol wrth gwrs i'r angen i wneud hynny ar fyrder os yw'n fater brys.<br><br>Fel rhan o drefniadau y Cyfarwyddwr o ran trafod gyda Phenaethiaid Adran perthnasol, mae cyfarfod Tîm Statudol hefyd yn weithredol, lle mae'r Cyfarwyddwr yn cyfarfod gyda Phennaeth Oedolion Iechyd a Llesiant a Phennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd yn rheolaidd er mwyn trafod materion |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwasanaeth yn benodol. |
| 10 | Rhannu gwybodaeth am weledigaeth, blaenoriaethau a pholisïau'r Panel Diogelu | Mae gwaith y Panel wedi ei flaenoriaethu o fewn y Cynllun Strategol ac felly yn cael y sylw priodol o fewn gwaith y Cyngor. |
| 11 | Cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant ac y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion Bregus gyda gwasanaethau o fewn y Cyngor fel yn briodol | Mae'r Cyfarwyddwr ynghyd a Phennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd a Phennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn aelodau o Fyrddau Rhanbarthol Diogelu. Mae'r Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd yn cymryd rôl arweiniol efo mynychu'r ddau Fwrdd yma, fel y Pennaeth sydd yn arbenigo yn y maes diogelu. Mae'r Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd yn adrodd yn rheolaidd ar unrhyw fater sydd angen sylw'r Panel sydd wedi codi yn unrhyw un o'r ddau Fwrdd yma. Yn amlwg mae'r Cyfarwyddwr Statudol yn mynychu yn gyson ac yn derbyn gwybodaeth drwy y rhwydweithiau arferol. Mae rhaglen waith eleni, o ran cynnwys y maes 'ecsploetio plant yn rhywiol', yn enghraifft o'r cydberthynas sydd yn bodoli. |
| 12 | Sicrhau trefniadau effeithiol o gomisiynu neu rheoleiddio gwaith gyda phlant neu oedolion bregus gan asiantaethau allanol | Sefydlwyd Grŵp Tasg o ' fysg aelodau'r Panel Gweithredol, a swyddogion allweddol eraill, er mwyn adolygu ac ychwanegu arweiniad o fewn y Llawlyfr Caffael yng nghyswllt trefniadau comisiynu, rheoleiddio a monitro gweithgaredd asiantaethau allanol yn y maes hwn. Cymeradwywyd ffrwyth yr adolygiad ac mae'r arweiniad a ddatblygwyd yn awr yn ffurfio rhan o'r Llawlyfr Caffael corfforaethol. |
| 13 | Datblygu cronfa ddata gorfforaethol integredig ar gyfer cofnodi gweithgaredd staff y Cyngor o ran gweithio efo plant ac oedolion bregus | Sefydlwyd cronfa ddata ar gyfer cofnodi gwiriad cofnod troseddol pob cyflogai sy'n cyflawni swyddogaeth ple bo angen dadleniad o gofnod troseddol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r polisi corfforaethol yn nodi'r angen i adnewyddu'r gwiriad hwn pob tair blynedd ac mae'r gronfa ddata yn fodd o gynorthwyo rheolwyr ar draws y Cyngor i sicrhau dadleniad cyfredol ar gyfer pob gweithiwr perthnasol. |
| 14 | Sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu oedolion bregus yn sgil argymhellion adolygiad Winterbourne | Er i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Panel Strategol ar y maes, barn y Cyfarwyddwr Statudol yw bod angen gwaith pellach ar y maes hwn. Mae wedi bod yn gyfnod heriol o fewn yr Adran Oedolion dros y flwyddyn 2014/15 oherwydd absenoldeb staff allweddol.<br><br>Mae'r mater wedi ei flaenoriaethu at gyfer 2015/16 a bydd Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn arwain ar sicrhau bod y mater yn derbyn y sylw priodol. |

## 3. Archwiliadau Allanol a'u derbyniwyd yn ystod y cyfnod

3.1 **Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol (Swyddfa Archwilio Cymru)**

Yn ystod y flwyddyn 2014 - 2015 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad ar 'Drefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol'. Pwrpas yr archwiliad oedd canfod 'A yw trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor yn cynnig sicrwydd ansawdd bod plant yn cael eu diogelu?'. Mae'n debyg ei fod yn deg dweud fod canlyniad yr adolygiad yn bositif iawn ar y cyfan ond hefyd yn cynnig y gwelliannau i'r Cyngor eu hystyried. Y Panel Strategol Diogelu sydd yn gyfrifol am sicrhau fod y cynigion lleol yn cael eu hystyried yn fanwl, a gellir adrodd fod gweithredu yn barod wedi digwydd arnynt - ond bydd y Panel yn parhau i gadw golwg ar y datblygiadau. Mae'r adroddiad dan sylw yn rhan o Adolygiad Cenedlaethol 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' gyhoeddwyd ym Mehefin 2015. Mae'r Panel hefyd yn ystyried yr argymhellion cenedlaethol sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad hwnnw.

3.2 **Arolygaeth Gwaith a Gofal Cymdeithasol Cymru (Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol)**

Yn ystod Ebrill a Mai 2014 cynhaliwyd archwiliad gan Arolygaeth Gwaith a Gofal Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o drefniadau'r Cyngor i gynllunio gofal ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sydd fwyaf bregus ac sy'n arddangos ymddygiadau heriol allai eu gosod mewn perygl. Roedd yn gofyn a oedd ymarfer yn hyrwyddo gwrando ar lais plant ac yn hyrwyddo gwell canlyniadau iddynt. Pennodd yr arolygwyr bod trefniadau sefydlog mewn lle yng Ngwynedd a disgrifiwyd y gweithlu fel un sefydlog gyda morâl uchel. Nodwyd rhai gwersi i'w dysgu a meysydd i'w datblygu yn ogystal â negeseuon cadarnhaol. Rhannwyd 10 canfyddiad o'r archwiliad gyda'r Panel Rhiantu Corfforaethol, Y Panel Strategol Diogelu Corfforaethol a Chabinet y Cyngor.

3.3 **Adolygiad Lle i'w alw'n Gartref' (Comisiynydd Pobl Hŷn)**

Yn dilyn cyhoeddi 'Lle i'w alw'n Gartref' sef adolygiad o safon gofal mewn Cartrefi Preswyl a Nyrsio yng Nghymru gan y Comisiynydd Pobl Hŷn, aethom ati i lunio rhaglen waith er mwyn cyfarch y disgwyliadau. Bellach cymeradwywyd y rhaglen waith gan y Comisiynydd ac mae'r uwch reolwyr yn sicrhau fod y gweithredu perthnasol yn digwydd. Roeddem yn hyderus fod monitro materion amlwg, megis meysydd fel iechyd a diogelwch, eisoes yn digwydd ond efallai yn llai hyderus ein bod yn monitro safon y gofal o bersbectif y defnyddiwr h.y. materion mwy meddal. Mae'r cynllun yma yn mynnu ein bod yn gwneud hynny a byddwn yn adrodd ar safon y cartrefi gofal a nyrsio yng Ngwynedd yn flynyddol. Mae bwriad ganddom i gyflwyno'r adroddiad cyntaf o'r fath yn y misoedd nesaf.

3.4 **Adolygiad o Drefniadau Chwythu'r Chwiban (Swyddfa Archwilio Cymru)**

Canolbwynt yr adolygiad oedd y meysydd canlynol: Polisi, Ymrwymiad, Gweithredu, Addysg a hyfforddiant, Ymwybyddiaeth, Llwyth Achosion a Polisi ar waith. Roedd canlyniad yr adolygiad yn bositif ond cynigwyd argymhellion ar gyfer gwella mewn nifer o'r meysydd uchod. Rhoddwyd

sylw penodol i arfer da yn y maes 'Addysg a hyfforddiant', gan nodi hefyd mannau amlwg lle gellir gwella.

3.5 **Adroddiad Blynyddol (Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol)**

Ar y 30 Hydref 2015, bu i ni dderbyn yn swyddogol Adroddiad Blynyddol ar berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn 2014/15. Bydd yr Adroddiad yma yn dod gerbron y Cabinet ym mis Rhagfyr eleni. Maent wedi cyfeirio at ein trefniadau diogelu o fewn yr adroddiad ac yn canmol y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran trefniadau diogelu corfforaethol. Maent yn gweld yr angen i wella trefniadau diogelu oedolion bregus gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac mae'r gwaith hwn eisoes wedi ei adnabod gan y Pennaeth perthnasol, gyda chynllun gwaith yn cael ei thrafod gyda'r uwch swyddogion arbenigol.

## 4. Y bwriad wrth edrych ymlaen – 2016 ymlaen

4.1 Fel sydd wedi ei nodi gychwyn yr adroddiad hwn, mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu ac uchafu'r maes Diogelu yn y Cynllun Strategol trwy sicrhau ei fod yn derbyn ystyriaeth trawsadrannol a sylw cyngor gyfan - yn hytrach na'i fod yn cael ei weld fel cyfrifoldeb rhai adrannau yn unig. Trwy adolygu'r Cynllun Strategol ym mis Gorffennaf eleni comisiynwyd tri prosiect trawsffurfiol yn y maes. Mae'r prosiectau hyn wedi eu comisiynu mewn ymateb i rai o'r heriau flwyddyn ddiwethaf (Gweler isod D1, D2 a D3). Mae'n debyg ei fod yn deg dweud ei bod wedi yn gyfnod anodd o ran achosion cymhleth a rhai sy'n hynod ddifrifol. Hyderai'r Panel Strategol fod y prosiectau isod yn targedu'r elfennau rheini sydd angen eu cryfhau a'u gwella. Mae natur y sialensiau a'r achosion diweddar yn golygu fod yn rhaid rhoi ffocws penodol i rai materion - gan sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o achosion ac yn parhau i wella'n trefniadau.

4.2 **D1** - **Sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan i'r maes diogelu**

Pwrpas y prosiect yw sicrhau fod perchnogaeth gorfforaethol i'r agenda diogelu a bod gweithredu yn effeithiol o ran diogelu plant ac oedolion bregus Gwynedd.

Erbyn diwedd Mawrth 2017 byddwn wedi:

- Adolygu polisïau a gweithdrefnau yn flynyddol
- Sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer mesur effaith y trefniadau diogelu corfforaethol
- Cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth o'r maes a monitro eu heffaith
- Cynnal awdit blynyddol o gydymffurfiad gyda'r polisi
- Monitro trefniadau cytundebu (staff a darpariaethau) o ran diogelu gan gryfhau gweithdrefnau lle bo angen
- Sicrhau bod aelodau craffu yn ymwybodol o waith y Panel Strategol Diogelu

4.3 **D2 - Diogelu plant a phobl ifanc**

Pwrpas y prosiect yma yw gwella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu o fewn y maes plant a phobl ifanc. Erbyn diwedd Mawrth 2016, byddwn wedi:

Adolygu trefniadau'r Cyngor o ran ymateb i'r risg o Ecsploetio Plant yn Rhywiol (CSE) gan:

- Sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn cyd fynd â'r strategaeth ranbarthol sy'n cael ei datblygu'n aml asiantaethol
- Sicrhau fod y Cyngor, gymaint ag sydd bosib, yn deall y galw am wasanaeth, a thueddiadau CSE yng Ngwynedd
- Gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth unigolion a grwpiau allweddol o'r maes arbennig hwn gan gynnwys sut i adnabod arwyddion
- Gydnabod bod y risg yn uwch i blant mewn gofal a gweithio gyda'r Panel Rhiant Corfforaethol ar geisio gwarchod y plant mwyaf bregus

Byddwn hefyd yn ystod 2015-16 yn cryfhau ymhellach weithdrefnau a diwylliant diogelu o fewn y maes Addysg drwy:

- Gynnal yr awdit blynyddol o drefniadau diogelu a llywodraethu o fewn yr adran ac o fewn ysgolion
- Greu rhaglen hyfforddiant i ddiwallu anghenion yr awdit blynyddol
- Weithredu rhaglen waith yn unol ag argymhellion yr awdit blynyddol ac ystyried hefyd unrhyw gyfleoedd i wella

4.4 **D3 - Diogelu oedolion bregus**

Pwrpas y prosiect yw anelu i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu o fewn y maes oedolion. Erbyn diwedd Mawrth 2016, fe fydd y prosiect yn benodol wedi ymateb i argymhellion Adroddiad Winterbourne a hefyd adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn “Lle i alw’n gartref” gan:

- Ddatblygu ystod o wahanol ddulliau lle gall unigolion cael eu clywed
- Adnabod a oes defnydd addas o eiriolaeth a cheisio ymateb i unrhyw ddiffygion
- Ddarparu tystiolaeth bod y grwpiau corfforaethol yn gallu dangos eu bod yn gwrando ar lais oedolion bregus

4.5 Rydym bellach wedi cadarnhau arweinyddion y prosiectau ac mae eu rhaglenni gwaith cychwynnol wedi eu cymeradwyo gan y Panel Strategol Diogelu ym mis Medi 2015.

4.6 Rydym angen gwella perchnogaeth aelodau a staff o’r maes diogelu, a gweithredu yn effeithiol o ran diogelu plant ac oedolion bregus Gwynedd. Bydd y tri prosiect yn ein galluogi i gyflawni hyn, ond bydd diogelu, wrth gwrs, yn faes blaenoriaeth barhaus i’r Cyngor, a byddwn yn parhau i adolygu a monitro tu hwnt i gyfnod y Cynllun Strategol.

## 5. Casgliad

5.1 Mae'r hyn gyflawnwyd y llynedd o ran y rhaglen waith yn amlygu gweithgarwch y Panel Strategol a'r Grŵp Gweithredol o ran y gwaith caled sydd wedi ei wneud o ran parhau i wella ein trefniadau diogelu ac amddiffyn yn gorfforaethol. Gyda'r archwiliadau allanol yn cynnig adborth bositif ar y cyfan maent hefyd yn amlygu elfennau y gellid eu gwella. Yn ogystal mae'r achosion penodol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn yn cynnig cyfleon i wella ac adolygu ein trefniadau. Bydd angen sicrhau fod y cyfleon rhain yn cael eu ymgorffori yn rhaglenni gwaith y prosiectau neu unedau perthnasol.

5.2 Mae'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus yn ffyddiog fod y prosiectau sydd wedi eu comisiynu trwy'r Cynllun Strategol yn cynnig cyfleon rhagweithiol i wella ein trefniadau eto fyth ond yn ymateb hefyd i heriau sydd wedi codi.

5.3 Rhagwelir y bydden yn gweld ffrwyth y gwaith yma erbyn y tro nesaf fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mai.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethu |
| **DYDDIAD** | 26.11.15 |
| **TEITL** | Adroddiad ar galluogi o fewn trefniadau gwaith newydd |
| **PWRPAS** | Craffu'r Adroddiad dan sylw |
| **AWDUR** | Cynghorydd Gareth Roberts<br><br>Aled Davies, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |

## 1. Pwrpas yr adroddiad

1.1 Mae aelodau wedi nodi eu hawydd i edrych ar drefniadau galluogi yn sgil derbyn adroddiadau blaenorol yn y maes. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar yr elfen darparu gwasanaeth. Yn unol â threfniadau'r Cyngor, mater i'r Pwyllgor Archwilio fydd craffu agweddau ariannol eu natur sy'n berthnasol i'r maes gwaith yma. Gan mae un agwedd o waith gweithwyr cymdeithasol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yw darpariaeth gwasanaethau galluogi, ystyrir ei bod hi'n bwysig cynnal y drafodaeth yng ngoleuni'r newidiadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

1.2 Bydd yr aelodau yn ymwybodol o'r prosiectau sydd o fewn y Cynllun Strategol a bod un ohonynt yn canolbwyntio ar newid ymarfer ein gweithwyr i gyd-fynd a gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r newid yma yn cael ei weithredu ar y cyd ag Iechyd ac mae'r gwaith i'w weld ar hyn o bryd yn ardal Eifionydd. Mae sawl un ohonom yn cyfeirio at y newid yma fel Ffordd Gwynedd neu Cynllun Alltwen. Y bwriad yn y tymor canolig/hir yw ymestyn y dull gweithio yma i bob rhan o'r Sir.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Fel sydd wedi ei nodi mewn adroddiadau blaenorol i'r Pwyllgor, mae'r gwasanaeth galluogi yn ffordd o ymateb yn ddwys i broblemau unigolyn am gyfnod byr, a hynny er mwyn ceisio adfer sgiliau byw unigolyn mor fuan â phosib ac osgoi creu dibyniaeth.

2.2 Yn y gorffennol agos, byddai'n deg dweud bod galluogi yn cael ei weld fel cynllun penodol - rhywbeth newydd a phendant iawn. Roedd fel petai unigolyn yn "mynd i mewn" iddo ac yn "dod allan" ohono mewn cyfnod penodol. Mewn un ystyr roedd hwn ei angen er mwyn ceisio annog gweithwyr i'w ddefnyddio a hefyd mae'n debyg roedd yn ffordd o "werthu" y meddylfryd o allu adfer sgiliau a gwella.

2.3 Fel sydd wedi ei adrodd mewn adroddiadau blaenorol, roedd llwyddiant galluogi o ran gweld unigolion yn adfer sgiliau a hefyd osgoi dibyniaeth yn glir i'w weld. Gwelwyd y gwasanaeth yn cael ei ganmol a defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid yn hoff iawn ohono.

2.4 Gwelwyd arbediad damcaniaethol sylweddol, hynny yw, os byddai'r unigolion hyn oedd wedi dangos gwelliant heb ddangos y gwelliant hwn, gallai'r gost dros y blynyddoedd o gefnogi a chynnal yr unigolion yma fod yn sylweddol. Felly roedd bosib adnabod, drwy'r cynllun, bod arbediad o gostau i'r dyfodol wedi ei wneud.

2.5 Serch hyn ac, fel sydd wedi ei adrodd o'r blaen, daeth tystiolaeth ac ymchwil cenedlaethol a gwybodaeth newydd. Y brif wers ddaeth allan o'r ymchwil hwn gan John Bolton oedd bod 'na ormod o unigolion yn derbyn yr ymyrraeth yma pan nad oeddent wirioneddol ei angen. Credir bod yr awdurdodau oedd wedi mabwysiadu model "intake" yn fwy tebygol o fod wedi rhoi gwasanaeth galluogi i unigolion nad oedd ei angen. Yma yng Ngwynedd felly roedd rhaid i ni adolygu ein trefniadau gan na fyddai'n briodol i ni fod yn rhoi gwasanaethau i unigolion nad oedd eu hangen.

2.6 Yn ystod yr un cyfnod, sef dechrau 2015, bu i ni edrych ar ein trefniadau gwaith drwy ddefnyddio egwyddorion Ffordd Gwynedd – dyma'r gwaith yn Alltwen. Bydd yr aelodau hefyd yn ymwybodol bod y gwaith hwn hefyd yn cyfarch y gofynion sydd bellach arnom yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

2.7 Rydym wedi gweld o'r gwaith yma yn Alltwen, bod angen edrych ar yr ymyraethau rydym yn ei gynnig i unigolion o bersbectif yr unigolyn, ac nid o bersbectif proses. Gyda trefniadau y gwasanaethau galluogi roedd y Cyngor yn euog mewn difri o fod yn rhoi unigolion "drwy'r drefn" heb roi mewn difri ddigon o sylw i'r sgwrs gyda'r unigolyn.

2.8 Beth sydd gennym felly ar hyn o bryd yw rhaglen o newid diwylliant a meddylfryd yn gyfan gwbl. Mae'r ffordd o weithio sydd yn dod allan o waith Ffordd Gwynedd yn Alltwen yn cynnig cyfleoedd i roi'r person yn llawer mwy canolog a hefyd yn cyfarch a gofynion y Ddeddf.

2.9 Ein bwriad felly fel rhan o'r adroddiad hwn, yw rhoi cyflwyniad i chi gan ddau aelod o staff (un o iechyd ac un o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) o'r tîm yn Alltwen. Bydd hyn yn gyfle i aelodau'r Pwyllgor weld sut mae'r gwaith yma yn ymgorffori'r cynlluniau galluogi yn llawer mwy naturiol ac yn fwy penodol i unigolyn.

## 3. Ystyriaethau Perthnasol

3.1 Mae'r Ymchwiliad Craffu Rhyddhau O'r Ysbyty i'r Cartref wedi ei

dderbyn yn ddiweddar ac wedi ei drafod yn y Fforwm Sirol. Mae dwy ffrwd gwaith wedi eu cychwyn yn sgil y drafodaeth yn y Fforwm Sirol - un o ran y sialensiau o ran recriwtio staff i swyddi gwag a'r ail yn ymwneud a threfniadau gwaith rhwng yr ysbyty lem a'r gymuned.

3.2 Bydd yr ail ddarn o waith yn edrych ar y trefniadau hyn gan ddilyn egwyddorion Ffordd Gwynedd yn ogystal.

## 4. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

4.1 Credir i'r adroddiad ac y bydd y cyflwyniad yn cynnig trosolwg bras o'r newid sylweddol sydd yn digwydd o fewn y maes oedolion ar hyn o bryd o ran ceisio ymateb i ofynion y Ddeddf a rhoi'r unigolyn yn ganolog. Mae hyn yn cynnwys yr agwedd o integreiddio ein gwaith ac ymarfer gyda'r Gwasanaeth Iechyd.

## 5. Camau nesaf ac amserlen

5.1 Pe dymunir gallwn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ymhen amser ar sut mae'r gwaith Alltwen yn cael ei fabwysiadu ar draws Wynedd. Fodd bynnag, credir bod bwriad gan yr aelodau craffu i ymchwilio i agweddau penodol o waith Alltwen ac efallai bod gwerth ystyried dod a'r ddau fater at ei gilydd.

## 6. Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Dim

PROSIECT ANSAWDD ADDYSG – ADRODDIAD CYNNYDD

| ARGYMHELLIAD YR YMCHWILIAD CRAFFU | YR HYN SYDD WEDI EI GYFLAWNI | CANLYNIADAU |
|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth o fewn Ysgolion** - Dylid datblygu cynigion pendant i gadarnhau rôl allweddol arweinyddiaeth addysgol o fewn ysgolion gan benaethiaid, uwch dimau rheoli ac arweinyddion adran, a chefnogi gwaith i feithrin hyder i gyflawni'r rôl | Adroddiad wedi'i gomisiynu i faes arweinyddiaeth yng Ngwynedd. Mae'r fanyleb wedi'i pharatoi, a bydd yr ymweliadau/ymchwil yn digwydd ym mis Hydref 2015.<br><br>Mae ffocws penodol ar arweinyddiaeth yng nghynlluniau busnes Yr Awdurdod a GwE.<br><br>Mae rhaglen benodol o weithdai datblygu arweinyddiaeth wedi'i chynnal gan GwE; mae 27 o ddarpar arweinwyr wedi'u cofrestru o Wynedd.<br><br>Sefydlu 'Cynllun Y Moelwyn', - cynllun peilot o gydweithio strategol rhwng ysgolion y dalgylch (cynradd ac uwchradd).<br><br>Achosion penodol o gydweithio strategol o ran arweinyddiaeth a rheolaeth wedi'u hyrwyddo gan Yr Awdurdod a chan gyrff llywodraethol yr ysgolion eu hunain.<br><br>Cydweithio strategol o ran arwain a rheoli rhwng penaethiaid holl ysgolion uwchradd Meirionnydd. | Bydd yr adroddiad i faes arweinyddiaeth ynghyd ag argymhellion i'w hystyried, yn cael ei gyflwyno i'r Adran Addysg yn Nhachwedd.<br><br>Hyfforddiant gorfodol ym meysydd arwain a rheoli, ac addysgu ac asesu wedi'i ddarparu i benaethiaid, gan osod gwaelodlin o ran disgwyliadau ar gyfer y flwyddyn ysgol bresennol a thu hwnt.<br><br>Mae 'Cynllun Y Moelwyn', sef cynllun peilot o gydweithio strategol rhwng ysgolion y dalgylch (cynradd ac uwchradd) wedi bod yn hynod lwyddiannus ac wedi derbyn sylw a chanmoliaeth gan y Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Mathemateg** - Rhaid rhoi sylw ar fyrder i ddatblygu dulliau addysgu rhagorol mewn dysgu Mathemateg o fewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y sir a gyda partneraid eraill | Mae'r Awdurdod a GwE wedi adnabod Saesneg a mathemateg fel meysydd sydd yn peri pryder yn ein hysgolion uwchradd. | GwE wedi rhyddhau hysbyseb Rhanbarthol am Ymgynghorydd Her Mathemateg i fynd i'r afael â'r agenda mathemateg. |
| **Deall Perfformiad a Data** - Dylid gosod disgwyliad clir o ran system tracio cyrhaeddiad, canllawiau monitro a'r defnydd a wneir o'r wybodaeth ym mhob ysgol yn y sir, yn cynnwys wrth bontio rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd | Mae angen gwaith ar ddatblygu tracio a thargedu effeithiol, yn benodol yn yr ysgolion uwchradd, er mwyn cynyddu'r nifer o blant sydd yn cyrraedd y trothwy lefel 2+ (pump TGAU A*-C gan gynnwys mathemateg, a Chymraeg neu Saesneg). Bydd angen sicrhau bod cynlluniau busnes Yr Awdurdod a GwE yn mynd i'r afael â chodi safonau mewn ysgolion sy'n tanberfformio. | |
| **Codi a Chyfleu Disgwyliadau** - Dylid ysbrydoli a chodi disgwyliadau'r Awdurdod, Llywodraethwyr, staff a disgyblion am gyraeddiadau plant y sir fel bod modd cyrraedd yn uwch na'r targedau sydd wedi eu gosod ar gyfer TL2+ | Cynhadledd wedi ei chynnal ym Mehefin 2015 ar 'Hyrwyddo Ansawdd Mewn Ysgolion Uwchradd Gwynedd' i osod y disgwyliadau yn glir. Cafwyd cyflwyniadau ar y meysydd a ganlyn:<br>• Creu ysgol lwyddiannus<br>• Troi'r weledigaeth yn realaeth<br>• Meddwl tu allan i'r bocs<br>• Cylch a natur hunan arfarnu ysgol ac adran a throsglwyddo cynradd-uwchradd gan edrych yn benodol ar ddysgu ac addysgu<br>• Datblygu arweinyddiaeth dosranedig a datblygu arweinyddiaeth ganol a sicrhau bod pob aelod o staff yn cyd ddyheu<br>• Ymateb i'r her a chodi disgwyliadau ysgolion uwchradd Gwynedd | Isafswm y disgwyliadau wedi eu gosod yn glir i'r ysgolion gyda'r nod o dorri 70% mewn perthynas â'r prif ddangosydd CA4, TL2+ wedi ei osod. Y nod yma hefyd yn cael ei adlewyrchu yn nhargedau'r ysgolion a Chynllun Busnes yr Adran Addysg. |

| | | |
|---|---|---|
| **Pegynnu o ran Ansawdd** - Dylai'r Awdurdod ddatblygu model o welliant parhaus gyda chymorth a her effeithiol i wella ysgolion | Cynhaliaeth briodol wedi'i thargedu drwy weithredu'r 'model newydd' (GwE) dan arweiniad yr Ymgynghorydd Her cyswllt. | Ysgolion yn cael lefel briodol o gefnogaeth a her i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol .<br><br>Ysgolion sydd mewn peryg o lithro yn cael eu hadnabod yn gynnar fel y gellir rhoi ymyriad priodol ar waith.<br><br>Cryfhau systemau cefnogi ysgol i ysgol y a datblygu partneriaethau newydd.<br><br>Adnabod meysydd rhagoriaeth ac arfer sy'n werth ei rhannu .<br><br>Yr awdurdod a Gwe yn monitro a herio'r ysgolion sy'n achosi pryder gan ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio |
| **Rôl yr Awdurdod** - Dylid amlygu a sefydlu cyd-ddealltwriaeth eang ar rôl yr Awdurdod ac, yn benodol, ei berthynas gydag Ysgolion o ran y cyfrifoldeb dros ansawdd a rhyddhau arweinyddion ysgol i roi sylw i ansawdd | Rôl a phrif flaenoriaethau'r Awdurdod wedi ei nodi'n glir yng nghynllun busnes yr Adran Addysg a'r Cynllun Strategol:<br>• Gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau.<br>• Gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, gyda'r bwriad o symud tuag at y nod bod penaethiaid ysgolion yn ddigyswllt, hynny yw, nad ydynt yn dysgu plant.<br>• Gwell ansawdd o ran arweinyddiaeth o fewn ysgolion y sir.<br>• Strwythur gyrfa gliriach yn ei le ar gyfer athrawon.<br>• Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn | I'w gyflawni yn 2015-17<br>• Gweithio ar amodau arwain a rheoli ysgolion y sir a gweithredu ar yr argymhellion cytunedig.<br>• Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio.<br>• Datblygu rheolwyr a darpar reolwyr o fewn gwasanaethau ac adnabod arweinwyr ar gyfer y dyfodol.<br>• Datblygu cyfundrefn ysgol i ysgol rymus a sicrhau bod trefniadau mewn lle er mwyn rhannu arfer gorau i osgoi |

| | | |
|---|---|---|
| | elwa o safonau mwy cyson yn ein hysgolion, gan y bydd effaith arweinyddiaeth gref yn cael effaith positif ar gyrhaeddiad plant a phobl ifanc.<br>• Prif ffocws y Tîm Moderneiddio Ysgolion bellach yn benodol ar wella amodau arweinyddiaeth a rheolaeth. Bydd hyn yn creu ysgolion sy'n hyfyw ac yn caniatáu gwell amodau ar gyfer arwain a rheoli effeithiol.<br>• Datblygu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol.<br>• Creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, cynyddu a chysoni safonau addysg,a gwella profiadau i blant a phobl ifanc | dyblygu.<br>• Sicrhau bod buddsoddiadau cyfalaf yn arwain at wella amodau arweinyddiaeth a rheolaeth. |
| **Rôl Llywodraethwyr** - Dylid ail-edrych ar y math o gefnogaeth a roddir i rôl llywodraethwyr er mwyn ei wneud yn fwy addas i bwrpas yng nghyd-destun y rhaglen ansawdd | Trefn yn ei le i ddarparu cyrsiau Mandadol i lywodraethwyr Newydd, Cadeiryddion, Clercod a Deall Data.<br><br>Consortiwm y Gogledd wedi datblygu modiwlau ar y we ar gyfer y Cyrsiau Mandadol.<br><br>Swyddogion yr Awdurdod yn ymweld â chyrff llywodraethol yn y categorïau coch ar gyfer hyfforddi a chynorthwyo parthed rhediad ac effeithiolrwydd y corff llywodraethol.<br><br>Yn dilyn diddymu'r Wobr Efydd mae Swyddogion wedi llunio taflen ar gyfer ei | Y cyrsiau yn mynd rhagddynt mewn 3 ardal.<br><br>Cyrsiau mandadol ar gael ar y we i unrhyw lywodraethwr.<br><br>Wedi gweithio gydag ysgolion coch ac yn derbyn gwerthfawrogiad y Llywodraethwyr ar tim rheoli, mewn sefyllfaoedd pan fo ESTYN yn ail-ymweld.<br><br>Wedi cyflwyno'r hunan arfarniad i un ysgol categori coch yn ddiweddar. Heb symud |

| | | |
|---|---|---|
| | chyflwyno i gyrff llywodraethol fel offeryn ar gyfer hunan arfarnu. Mae trefn genedlaethol hefyd yn cael ei greu. | ymlaen eto i dynnu fwy o ysgolion i fewn. |
| **Cyswllt gyda Disgyblion** - Dylid sicrhau trefn reolaidd i ddod â llais disgyblion ar ansawdd addysg i fewn i sylw llywodraethwyr yn eu cyfarfodydd ac i sylw'r Awdurdod | Cyrff llywodraethol Uwchradd yn cael eu hannog i drefnu bod 2 gynrychiolydd y Cyngor Ysgol yn mynychu cyfarfodydd y llywodraethwyr.<br><br>Cyrff llywodraethol Cynradd yn cael eu hannog i drefnu bod cynrychiolaeth o'r Cyngor Ysgol yn rhoi cyflwyniad i'r Llywodraethwyr yn flynyddol. | Roedd hyn yn ofyniad yn y Wobr Efydd ac bellach yn cael ei nodi fel gofyniad yn y broses hunan arfarnu. |

ELFEN ARALL O'R PROSIECT ANSAWDD NA GODODD O'R YMCHWILIAD

| MAES | YR HYN SYDD WEDI EI GYFLAWNI | CANLYNIADAU |
|---|---|---|
| **Cefnogi dysgwyr bregus yn fwy effeithiol** | Strategaeth ysgol gyfan i Gefnogi Plant Bregus wedi ei gyflwyno i'r Ysgolion Uwchradd. | Strategaeth yn cael ei weithredu yn yr ysgolion uwchradd.<br><br>Codi Safonau Perfformiad a Lles Dysgwyr Bregus. |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 26 Tachwedd 2015 |
| **TEITL YR EITEM** | Newidiadau yn y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

## 1 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae trawsnewid gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc, yn enwedig rhai bregus, yn un o brif flaenoriaethau Cynllun Strategol y Cyngor. Y bwriad yw gwella deilliannau i blant a phobl ifanc.

1.2 Mae'n bwysig nodi y paratowyd Strategaeth newydd yng nghyd-destun newid arwyddocaol yn y maes, yn cynnwys:

- y cynigion deddfwriaethol ar gyfer diwygio'r fframwaith ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol;
- y dystiolaeth sy'n awgrymu bod angen hoelio sylw ar ymyrraeth gynnar ac ataliol;
- y rhaglen ar gyfer datblygu'r Ysgol Arbennig newydd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y Sir;
- y cyd-destun ariannol

1.3 Daeth yr angen am Strategaeth o'r fath i'r amlwg yn wyneb dadansoddiad o brofiadau plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol. Amlygwyd rhai gwendidau sylfaenol yn cynnwys:

- **Anghysondeb o fewn y gyfundrefn:**
  - o ran disgwyliadau rhieni; yn safon a lleoliad y ddarpariaeth ac yn niwylliant yr ysgolion
- **Cyfundrefn draddodiadol a chymhleth**
  - meini prawf angen eu hadolygu; y gweithredu'n adweithiol (awdurdod ac ysgolion); darpariaeth yn cael ei gomisiynu'n allanol heb ddigon o reolaeth trosto
- **Ansawdd perfformiad**
  - anghysondeb o fewn ysgolion a thimau arbenigol; diffygion mynediad at ddata cyfredol (y wybodaeth yn cael ei gadw ar wahân mewn ffurf wahanol); ac anodd profi cynnydd
- **Perthynas â gwasanaethau eraill**
  - Y strwythur ddim yn hybu cydweithio
- **Twf mewn anghenion penodol**
  - Y ddarpariaeth ddim yn adlewyrchu'r pwyslais cywir ar yr anghenion pennaf

- **Diffyg cyfathrebu**
  - diffyg ymwybyddiaeth ar gyfer derbyn gwybodaeth; y gyfundrefn bresennol yn rhy gymhleth a diffygion cyfathrebu rhwng yr holl fudd ddeiliad

1.4 Nod y Strategaeth yng Ngwynedd yw:

**'Sicrhau bod plant a phobol ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu.'**

1.5 Mae'r canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni drwy'r Strategaeth yn cynnwys:

- darpariaeth sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, gan geisio adnabod cyflyrau yn gynnar iawn ym mywydau plant fel y gall hynny gael effaith ar eu haddysg a'u bywydau yn gyffredinol;

- cynyddu'r arbenigeddau yn ein hysgolion trwy raglenni hyfforddi i ddatblygu mwy o arbenigedd;

- trefniadau amlasiantaethol cadarn o gyd-weithio a fydd yn arwain at rannu gwybodaeth, a sicrhau cydgynllunio effeithiol ar gyfer addysg a datblygiad plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol;

- cynnig gwasanaeth sy'n sicrhau bod ansawdd uchel yn perthyn i'r profiadau addysgol;

- plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth ychwanegol yn gynt; yn gwneud cynnydd addysgol ar gyflymder priodol, ac yn cyfrannu at hyrwyddo eu hannibyniaeth;

- amgylchedd ddysgu o'r ansawdd uchaf posib ar gyfer plant sydd efo'r anghenion mwyaf dwys;

- sicrhau cyfundrefn effeithiol ac effeithlon.

1.6 Er bod dipyn o oedi wedi bod, mae sawl newid i'r ddarpariaeth eisoes wedi cymryd lle:

- **Peidio cynnig y gefnogaeth 3* o'r newydd** ers 1 Medi 2015. Yn yr ysgolion lle mae'r gyllideb wedi'i datganoli (uwchradd a'r 14 cynradd mwyaf) mae'r gyllideb eisoes wedi'i rhewi ers tua 5 mlynedd. Mae gofyn i ysgolion fod yn fwy hyblyg o ran y defnydd o'u cyllideb ADY yn y cyfnod Interim.

- **Cynnal hyfforddiant** ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol pob ysgol ar y defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ogystal â chreu pecyn e-ddysgu cynhwysfawr i gefnogi hyn.

- **Adolygu'r defnydd o'r meini prawf mynediad a gadael** y Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu (llefaredd a rhifedd) sydd yn golygu ein bod yn gallu targedu'r plant cywir yn well. Datblygu'r defnydd o Fforymau I drafod achosion penodol.

- **Peilota'r defnydd o gymorthyddion ymestyn allan** ar gyfer cynnig cefnogaeth i'r plant sydd yn gadael y canolfannau anhwylder iaith yn hytrach na chymorthyddion unigol am nifer penodol o oriau'r wythnos.

- Cychwyn rhoi'r **Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad newydd** mewn lle, mewn ymateb i'r diffyg yn y ddarpariaeth. Cychwyn cynnal Fforymau I drafod achosion penodol.

1.7 Yng Nghabinet Anffurfiol Tachwedd 2014 cefnogwyd yr argymhelliad i fynd allan i ymgynghori ar y strategaeth ddrafft, ac fe gynhaliwyd y cyfnod ymgynghori yn ystod dechrau Ionawr - Chwefror, 2015.

1.8 Cytunwyd yn Haf 2015 bod angen gwneud mwy o waith ymgysylltu ar effaith posib o weithredu egwyddorion y Strategaeth, ac fe gynhaliwyd cyfnod o ymgysylltu eang yn ystod Medi – Hydref 2015.

## 2. YR YMATEB I'R STRATEGAETH YN SGIL YR YMGYNGHORI

2.1 Yn ystod Medi - Hydref 2015 cynhaliwyd 22 sesiwn, trafodwyd gydag dros 380 o ran-ddeiliaid, gweler tabl isod. Yn ogystal bydd trafodaeth bellach yn cael ei chynnal ar y cyd efo SNAP efo 2 grŵp o ddisgyblion ysgol uwchradd yn ystod mis Tachwedd.

2.2 Defnyddiwyd dulliau amrywiol i godi ymwybyddiaeth o'r sesiynau cynnal trafodaeth gan gynnwys "Newyddion Gwynedd", Datganiad i'r wasg, e-bostio'r ysgolion a defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol. Yn anffodus nid oedd yr ymateb gystal â'r hyn y gobeithiwn ond byddwn yn ystyried lleoliadau a dulliau gwahanol eto pan fyddwn yn mynd yn ôl i'w diweddaru.

2.3 Mae'n fwriad rhyddhau Newyddlen a thaflen "Cwestiwn ac Ateb"; gan ein bod wedi sefydlu rhestr ddosbarthu ar gyfer pawb sydd wedi mynychu'r sesiynau; ac rydym eisoes wedi sefydlu tudalen ADY ar wefan y Cyngor ar gyfer rhannu diweddariadau.

| Cyfarfod | | Nifer o fynychwyr | Nifer o Ffurflenni Adborth |
|---|---|---|---|
| **Rhieni a Llywodraethwyr** | Arfon (29-09-15) | 20 | 7 |
| | Dwyfor (30-09-15) | 12 | 6 |
| | Meirionnydd (01-10-15) | 9 | 1 |
| **Staff** | Tîm Gwybyddiaeth a Dysgu (14-09-15) | 9 | 5 |
| | Staff y CBAAA (17-09-15) | 21 | 2 |
| | Derwen (21-09-15) | 30 | - |
| | Undebau Staff Ategol (18-09-15) | 5 | - |
| | Grŵp Tasg ADY (18-09-15) | 2 | - |
| **Cymorthyddion** | Arfon (22-09-15) | 73 | - |
| | Dwyfor (23-09-15) | 31 | - |
| | Meirionnydd (24-09-15) | 51 | 2 |
| **Aelodau Lleol** | Arfon (22-09-15) | 14 | - |
| | Dwyfor (23-09-15) | 5 | - |
| | Meirionnydd (24-09-15) | 4 | - |
| **Ychwanegol** | Iechyd (2-10-15) | 7 | - |
| | Sesiwn Aml- Asiantaethol (7-10-15) | 8 | 5 |
| | Sesiwn Aml- Asiantaethol (12-10-15) | 8 | 9 |
| | Penaethiaid (Cynradd <50) (19-10-15) | 11 | 8 |
| | Penaethiaid (Cynradd >50) (19-10-15) | 19 | 13 |
| | Penaethiaid (Datganoledig) (20-10-15) | 8 | 6 |
| | Penaethiaid (Uwchradd) (21-10-15) | 11 | 11 |
| | Grŵp Cynhwysiad Uwchradd | 25 | - |
| | **Cyfanswm** | 383 | 75 |

## 2.4 Prif Negeseuon

- Y niferoedd sydd wedi mynychu'r sesiynau wedi bod yn **gadarnhaol iawn**. Er bod niferoedd y rhieni yn ymddangos yn isel (dim ond 8 rhiant wnaeth gwblhau taflen adborth), 'roedd nifer o'r holl fudd ddeiliaid y bu i ni gysylltu â nhw hefyd yn rhieni i blant ar y gofrestr ADY.

- Mae'n gwbl amlwg fod pawb y bu i ni gysylltu â nhw wedi **cymryd perchnogaeth o'r problemau** sy'n bodoli efo'r gwasanaeth ar hyn o bryd, ac yn cefnogi'r Achos dros Newid

- Derbyniwyd cefnogaeth gref gan y Penaethiaid i'r Tîm Craidd Integredig, ac Mae dealltwriaeth glir y bydd **angen i ysgolion wneud mwy OND** bod angen arweiniad; hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn i hyn lwyddo

- Angen sylw pellach i **rôl y Cydlynwyr ADY** yn yr ysgolion

- Angen sylw pellach i'r **dosbarthiad o gymorthyddion**, ysgolion yn bryderus iawn i golli gafael o'r cymorthyddion ADY yn eu hysgolion

- Cefnogaeth gyffredinol gref i'r angen am **newidiadau allweddol i'r ddarpariaeth Gwybyddiaeth a Dysgu**

- Angen **codi ymwybyddiaeth** ynglŷn â'r newidiadau gyda staff yr ysgol gyfan, nid yn unig Cydlynwyr a chymorthyddion.
- Angen datblygu Strategaeth Gyfathrebu er mwyn cyrraedd y teuluoedd mwyaf bregus.
- Angen sefydlu **is-dîm i fanylu ar y Blynyddoedd Cynnar** (nifer o'r gwasanaethau tu allan i reolaeth addysg)
- Angen sefydlu **is-dîm i fanylu ar y ddarpariaeth ôl 16 oed** – eto tu allan i reolaeth addysg
- Angen sefydlu **is-dîm i fanylu ar y ddarpariaeth Iechyd a'r berthynas efo Derwen.**

## 3. Y STRATEGAETH DDIWYGIEDIG

3.1 Cyflwynir fersiwn diwygiedig o'r Strategaeth ADYaCh yn **Atodiad 1**. Credwn fod y Strategaeth bellach yn aeddfed i fynd ger bron y Cyngor er mwyn cael cymeradwyaeth i'w mabwysiadu.

3.2 Nid oes unrhyw un o egwyddorion sylfaenol y strategaeth ddrafft wedi'u newid. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys y bwriad i roi mwy o sylw i'r canlynol:

- Blynyddoedd Cynnar ac ymyrraeth gynnar;
- Sefydlu tîm canolog, Integredig o arbenigeddau penodol i hwyluso cyd-weithio a chyd-gynllunio;
- Dad-gomisiynu'r CBAAA;
- Rhaglen Hyfforddiant i uwchraddio sgiliau'r gweithlu;
- Cyflwyno'r defnydd o Gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

3.3 Prif bwrpas y Strategaeth ddiwygiedig yw sicrhau bod pecyn o 16 o brosiectau yn eu lle er mwyn gwella'r gwasanaeth i blant a phobl ifanc sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol. Wrth lunio'r strategaeth, mae pob ymdrech wedi'i wneud i symud tuag at drefn newydd sy'n canolbwyntio ar y plentyn/ person ifanc a'u hanghenion/ dyheadau.

3.4 Amlygir isod ddau o'r prif newidiadau yn y Strategaeth ers cyhoeddi'r fersiwn drafft.

3.4.1 <u>Strwythur y Tîm Integredig ADY newydd</u> (gweler 4.4 - tud. 10 o'r Strategaeth) Yn dilyn sylwadau a gafodd eu hamlygu yn ystod yr ymgysylltu 'rydym yn ystyried opsiynau ar gyfer :

- Rhoi elfen o reolaeth i'r ysgolion dros y cymorthyddion
- Cyflwyno rôl newydd - Cydlynwyr ADY 'dalgylchol'

3.4.2 <u>Rhaglen Hyfforddiant</u> (gweler 4.8 - tud. 13 o'r Strategaeth) Amlygwyd fod yr ysgolion yn awyddus iawn i dderbyn hyfforddiant arbenigol cyn i'r newidiadau ddigwydd, a bydd y Rhaglen Hyfforddiant yn cael ei haddasu i gryfhau'r elfen yma.

## 4. YR ACHOS BUSNES

### 4.1 Yr Arbedion

4.1.1 Mae'r achos busnes wedi canolbwyntio ar dair elfen o'r gyllideb sef:

- Y gweithlu ADY presennol
- Y Gyllideb Integreiddio (Datganiadau a 3*)
- Y Gyllideb ADY (yn cael ei dosbarthu drwy fformiwla)

4.1.2 Mae'r gyllideb bresennol 2015/16 yn y tri maes yma yn cael eu rhannu fel a ganlyn:

| | Cyllideb | Swm | Eglurder |
|---|---|---|---|
| 1 | Gweithlu | £2,169,077 | Cyllideb ganolog ar gyfer Cynnwys CBAAA ac Athrawon Arbenigol eraill |
| 2 | Cyllideb ADY ac Amddifadedd | £1,583,086 | Cael ei ddatganoli yn ei gyfanrwydd i'r ysgolion ar sail fformiwla 1:3:3:3 |
| 3 | Cyllideb Integreiddio datganiadau | £3,823,551 | Cael ei ddatganoli i rai ysgolion i benodi cymorthyddion datganiad |
| 4 | Cyllideb Integreiddio arall (3*) | £1,930,390 | Cael ei ddatganoli i rai ysgolion i benodi cymorthyddion 3* |
| 5 | Cyfanswm | **£9,506,131** | |

4.1.3 Yn dilyn ymgynghori pellach ar y Strategaeth a phrif egwyddorion yr Adolygiad mae gwaith modelu manwl wedi cymryd lle ar sail gwybodaeth am ddisgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth, y meini prawf presennol ac Adolygiad o'r gweithlu presennol.

4.1.4 Mae hyn yn cynnwys ail strwythuro llwyr o'r gweithlu presennol, gan gynnwys dod a rhai timau penodol a'r CBAAA i ben ac yn cynnig strwythur llawer mwy Integredig a syml. Un nodwedd greiddiol i hyn yw diddymu'r ddarpariaeth Integreiddio 3* bresennol - sydd yn cael effaith ar swyddi nifer uchel o gymorthyddion dysgu. Mae'r gwaith modelu pellach o ran datganoli/ canoli'r gyllideb ADY yn dangos canrannau gwahanol o ddatganoli cyllideb i'r ysgolion **ond mae'r ffigwr arbedion yn aros yr un fath ar gyfer yr holl opsiynau.**

4.1.5 Y gyllideb newydd ar gyfer y model newydd fyddai:

| | Cyllideb | Swm | Eglurder |
|---|---|---|---|
| 1 | Gweithlu | £3,291,006 | Cyllideb ganolog ar gyfer cyflogi gweithlu'r Tîm Integredig |
| 2 | Cyllideb ADY ac Amddifadedd | £1,583,108 | Y swm yma yn cael ei ddatganoli ar sail fformiwla (newydd) |
| 3 | Cyllideb Integreiddio datganiadau | £3,823,551 | Cael ei ddatganoli i bob ysgol i benodi cymorthyddion datganiad |
| 4 | Cyllideb Integreiddio arall (3*) | £ - | Y gyllideb yma wedi'i ganoli ar gyfer ffurfio'r Tîm Integredig |
| 5 | Cyfanswm | **£8,697,665** | |

4.1.6 Arbedion - Byddai hyn yn dangos arbediad blynyddol parhaol o **£808,466** yn y flwyddyn (academaidd) gyntaf o weithredu'r Tîm Integredig Llawn; ac o gynnwys arbedion eraill i'r gyllideb Integreiddio Datganiadau dros amser byddai'r arbedion blynyddol parhaol yn **£986,886 erbyn 2021/22.**

4.1.7 Byddai hyn yn dangos arbedion cronnus o **£531,574** ar gyfer y ffenest **arbedion 3 blynedd** (blwyddyn ariannol 2015/16 - 2017/18).

4.1.8 Cyflwynir gwybodaeth am y proffil arbedion yn **Atodiad 2** ac yn **nhabl 1** isod:

**Tabl 1- y proffil arbedion**

Proffil arbedion parhaol fesul blwyddyn academaidd

| | Pennawd cyllideb | Arbedion parhaol (cronnus) arfaethedig | | | | | | | | | Eglurder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynllun | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | C'swm cronnus | |
| | Cyllideb cyflogi'r Gweithlu a'r gyllideb Integreiddio 3* a datganiadau | | | | | | | | | | |
| 1 | Cyllideb y Gweithlu a Chyllideb Integreddio | Cychwyn cyflwyno CDU yn lle datganiadau yn y blynyddoedd cynnar a blwyddyn 5 (lleihau oriau rhai datganiadau drwy newid trothwyon) | £0 | £23,550 | £56,120 | £99,960 | £135,830 | £153,370 | £178,420 | £178,420 | gall yswm yma fod yn uwch - ond angen ei fuddsoddi i dyfu maint y gweithlu arbenigol. Y gyllideb yn ei chyfanrwydd yn £3.9m 2015/16 |
| 2 | | Adolygu'r gwasanaeth - ail fodelu'r gweithlu, dad gomisiynnu'r cyd bwyllgor i gyflogi'r mwyafrif o'r gweithlu yn ganolog Arian Integreiddio (3*) yn cael ei gadw'n ol yn ganolog | £0 | £41,808 | £808,466 | £808,466 | £808,466 | £808,466 | £808,466 | £808,466 | ail fodelu'r holl ddarpariaeth gweithlu arbenigol presennol a chynnwys y gyllideb 3* yn ei chyfanrwydd |
| 3 | Cyfanswm arbedion | | £0 | £65,358 | £864,586 | £908,426 | £944,296 | £961,836 | £986,886 | £986,886 | |
| 4 | Arbedion ar gyfer y ffenest arbedion 3 blynedd (bl. ariannol 2015/16 - 2017/18) | | | | | | | | | £531,574 | |

## 4.2 Buddsoddiad Unwaith ac am byth:

4.2.1 Er mwyn gwireddu'r arbedion yma bydd angen gwneud cais i'r Cabinet am fuddsoddiad unwaith ac am byth. Bydd angen swm o £1,038,583 ar gyfer y ffenest arbedion 3 blynedd (blwyddyn ariannol 2015/16 - 2017/18). Cyfanswm o £1,354,000 erbyn 2021/22.

4.2.2 Mae angen amlygu fod oblygiadau costau di swyddo uchel iawn wedi'i hadnabod yma er mwyn galluogi gwneud arbedion parhaol. Fodd bynnag fe fyddwn yn cyd weithio efo'r gwasanaeth gofal i gyfeirio'r gweithlu at gyfleoedd ar gyfer swyddi amgen.

4.2.4 Cyflwynir gwybodaeth am y proffil buddsoddiad unwaith ac am byth yn **nhabl 2** isod:

**Tabl 2 - Proffil buddsoddiad unwaith ac am byth**

| | Proffil Costau unwaith-ac-am-byth fesul blwyddyn academaidd | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pennawd | Costau unwaith-ac-am-byth | | | | | | | | | Eglurder |
| | | Cynllun | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | C'swm | |
| | "Rheoli Newid" | | | | | | | | | | |
| 1 | Rhaglen Hyfforddiant | Rhaglen gynhwysfawr ar gyfer y gweithlu presennol, gweithlu newydd a rhieni. | £40,000 | £80,000 | £80,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £200,000 | angen mwy o waith manwl. Sylw penodol i CDU ar y dechrau |
| 2 | Rheoli'r Newid - Gwybodaeth a chyngor i blant a rhieni | Rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr - gan gynnwys swyddog penodol am gyfnod o 2 flynedd i reoli'r newid a sicrhau llif gwybodaeth gan gynnwys ymateb i anghydfod | £50,000 | £50,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £100,000 | adnoddau cyfathrebu |
| 3 | Cefnogaeth Interim cyn cyflwyno'r gweithlu newydd | Darpariaeth interim er mwyn paratoi ar gyfer trawsnewid y gwasanaeth - cynnig darpariaeth iaith a lleferydd interim hyd Awst 2016. | £100,000 | | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £100,000 | Swyddi i gyd yn weithredol erbyn Medi 2016 |
| | | | | | | | | | | £400,000 | |
| | Costau di swyddo | | | | | | | | | | |
| 4 | Costau di swyddo Gwybyddiaeth a Dysgu | lleihad sylweddol yn y gweithlu drwy ail strwythuro | £0 | £177,000 | £177,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £354,000 | angen gwirio'n bellach |
| 5 | Costau di swyddo CBAAA | lleihad sylweddol posib yn y gweithlu | £0 | £100,000 | £100,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £200,000 | angen gwirio'n bellach |
| 6 | Costau di swyddo Cymorthyddion 3* | diddymu'r ddarpariaeth yn ei gyfanrwydd ond nifer sylweddol o swyddi cyffelyb yn cael eu cynnig | £0 | £0 | £400,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £400,000 | Amcan yn unig - angen gwirio'n bellach |
| | | | | | | | | | | £954,000 | |
| 7 | Cyfanswm | | £190,000 | £407,000 | £757,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £1,354,000 | |
| | | | | | | | | | | | |
| 8 | Cais am fuddsoddiad yn ystod y ffenest arbedion 3 blynedd (bl. ariannol 2015/16 - 2017/18) | | | | | | | | | £1,038,583 | |
| 9 | Yn ogystal mae swm penodol eisoes wedi'i gymeradwyo ar gyfer costau Rheoli Prosiect | | | | | | | | | £206,843 | |

## 5 Y DEILLIANNAU

5.1 Dyma'r deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol:

- Cynlluniau mwy personol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Mynediad cynt a mwy penodol at wasanaethau ADY a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Gwasanaeth mwy arbenigol
- Atebolrwydd fesul ardal yn y Fforymau Ardal ADY

5.2 Dyma'r deilliannau i Gyngor Gwynedd:

- Arbediad ariannol parhaol
- Rheolaeth well ar y gyllideb ADY
- Adolygu a Monitro rheolaidd

## 6 RISGIAU

6.1 Un o'r prif risgiau ar gyfer y Prosiect Trawsnewid yma yw'r effaith ar y gweithlu, mae swyddi dros 150 o gymorthyddion yn cael eu heffeithio.

6.2 Bydd y modelau darpariaeth newydd fodd bynnag yn gallu cynnig 'Strwythur Gyrfa' ar gyfer nifer penodol o gymorthyddion efo'r cyfle i gael cynnig - cytundeb parhaol, sicrwydd oriau, cyfle i ddatblygu'i gyrfa, hyfforddiant a thyfu arbenigedd penodol. Mae asesiad effaith cydraddoldeb eisoes wedi'i gwblhau.

6.3 Mae'n greiddiol hefyd fod plant, pobl ifanc a'u rhieni yn ymwybodol o'r newidiadau, ac yn cael dealltwriaeth gref o'r trefniadau newydd. Un o'r mesurau i leihau'r risgiau yma oedd cynnal y drafodaeth ynglŷn â'r model darparu newydd efo'r holl fudd ddeiliaid yn ystod mis Medi/ Hydref. Byddwn

yn datblygu  Strategaeth Gyfathrebu glir er mwyn hwyluso'r newid.  Byddwn hefyd wedi ymgynghori'n bellach efo dau grŵp o bobl ifanc ar y gofrestr ADY yn ystod mis Tachwedd.


6.4 Byddwn am benodi Swyddog 'Rheoli Newid' i reoli'r cyfathrebu ac i ymateb i unrhyw anghydfod fel ag y maent yn codi.

6.5 Bydd trafodaethau yn parhau efo'r Adran Iechyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol.  Mae trafodaethau cyson wedi cymryd lle efo Cyngor Ynys Môn er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau i gyd weithio a chefnogi'n gilydd yn y maes yma, yn ogystal ag yn y maes addysg yn gyffredinol.

## 7. RHAGLEN WAITH:

7.1 Mewn ymateb i'r trafodaethau diweddar 'rydym wedi addasu'r amserlen ar gyfer gwireddu'r newidiadau.

Y cynnig yw ein bod yn rhoi sylw penodol i ffurfio'r Tîm Integredig ADY Craidd yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 er mwyn sicrhau digon o amser ar gyfer addasiadau angenrheidiol yn yr ysgolion - cyn newid y ddarpariaeth cymorthyddion.



## 8. CWESTIYNNAU'R CYFARFOD PARATOI:

Yn y cyfarfod paratoi ar 20 Hydref 2015 amlygwyd nifer o gwestiynau penodol. 'Rydym wedi ymateb i'r ymholiadau yma isod:

8.1 **A oes cysondeb yn y ddarpariaeth yn y sector cynradd a chyd weithio cadarn efo'r sector uwchradd pan fod disgyblion yn trosglwyddo o un sector i'r llall?**

*Rhan bwysig o rôl y Tîm integredig fyddai i hwyluso trosglwyddiad plant gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol i'r Sector Uwchradd. Byddai'r tîm hefyd yn sicrhau fod yna gysondeb ar draws y sir o'r drefn mwyaf effeithiol o drosglwyddo disgyblion.*

8.2 **Mae pryder y byddai mwy o faich ar Benaethiaid ac Athrawon yn enwedig mewn ysgolion bach**

**Ymateb:**
*Byddwn yn creu rôl Cydlynydd Dalgylch o'r newydd i gryfhau'r cyd weithio rhwng y sector cynradd ac uwchradd ac i gynnig dilyniant yn y cyfnodau trosiannol. Yn ogystal bydd y rôl yma yn rhoi arweiniad a chyngor i'r ysgolion i leihau'r baich ar y Penaethiaid a'r athrawon.*

8.3 **Bod cysondeb yn y ddarpariaeth a fu yn y gorffennol drwy'r Unedau AAA lle'r oedd disgyblion yn mynychu'r unedau hyn yn y boreau ac yn mynychu ysgolion prif lif yn y prynhawniau**

**Ymateb:**
*Hyn yn mynd yn groes i egwyddorion cynhwysiad oddi fewn i'r ysgolion prif lif. Y model newydd yn mynd i fod yn llawer mwy cynhwysol*

8.4 ***Yr angen i gyfarch awtistiaeth fel cyflwr ar wahân***

**Ymateb:**
*Wedi creu gwasanaeth newydd Cyfathrebu a Rhyngweithio sydd yn cynnwys anhwylderau iaith ac awtistiaeth gan fod cymaint o draws gyffwrdd rhwng y cyflyrau a hefyd yn y sgiliau a'r hyfforddiant ar gyfer y gweithlu. Fe fydd y pecyn sydd yn cael ei gynnig gan y tîm yn seiliedig ar angen yr unigolyn ac felly fe fydd yr hyn sydd yn cael ei gynnig i ddisgyblion ASD o'i gymharu ag Anhwylderau eraill cyfathrebu yn gallu bod yn wahanol ac arbenigol.*

8.5 **Beth fyddai cost gweinyddu'r Fforymau Ardal yn y tair ardal o'r gymharu â chost y drefn bresennol**

**Ymateb:**
*Yn y gorffennol cynhaliwyd Paneli Cymedroli* ***misol*** *ar gyfer trafod achosion 3*. Aelodaeth yn cynnwys Uwch Reolwr, Prif Seicolegydd, 2 bennaeth a SNAP.*
*Byddai'r Fforymau newydd yn cymryd lle unwaith bob hanner tymor yn y 3 ardal (gyda chyfle i gynnal Meirionnydd / Dwyfor ar y cyd ar adegau). Byddai'r aelodaeth yn amrywio yn ôl ardal felly dim gormod o bwysau ar yr un rhai.*

*Byddai'r gost yn uwch ond byddai pwrpas y Fforwm yn llawer mwy effeithiol er mwyn sicrhau a blaenoriaethu'r ddarpariaeth yn y dull gorau posib.*

8.6 **Bod hyfforddiant yn allweddol i'r Tîm Arbenigol yn ogystal â'r athrawon ac y dylid cryfhau'r elfen o hyfforddiant**

**Ymateb:**
*Cytuno'n llwyr, mae cais am fuddsoddiad unwaith ac am byth i sicrhau bod aelodau'r tîm integredig efo'r sgiliau angenrheidiol, yn ogystal â defnyddio'u harbenigedd nhw i hyfforddi'r ysgolion. Bydd pwyslais llawer mwy strategol ar y rhaglen hyfforddiant, gan gynllunio'r rhaglen ar sail tystiolaeth o'r ymyraethau gorau. 'Rydym hefyd yn ymateb i gais gan y penaethiaid am hyfforddiant cyn i'r newidiadau gael eu gweithredu.*

8.7 **O safbwynt penodi seicolegwyr, a fydd arbenigedd digonol ar gael i'r tri Fforwm Ardal? Be fydd yn digwydd i'r Seicolegwyr sydd dan hyfforddiant yn y CBAAA?**

**Ymateb:**
*'Rydym wedi modelu'r gwasanaeth newydd yn ôl cyflyrau a bydd y seicolegwyr yn arwain y timau yma yn Strategol yn ogystal â pharhau efo chyfrifoldeb gweithredol dros ardaloedd penodol. Byddwn angen cynnwys hyfforddai o fewn y tîm craidd yma er mwyn sicrhau dilyniant a chadw'r arbenigedd Cymreig o fewn y sir.*

8.8 **A ddylid mesur cynnydd y plant a pha effaith mae'r ddarpariaeth yn ei gael ar y plentyn?**

**Ymateb:**
*Bydd hyn yn greiddiol, ac yn digwydd yn holistig o fewn yr ysgolion yn eu Cynlluniau Datblygu Unigol (drwy ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn). Byddwn hefyd yn datblygu systemau electroneg i dracio cynnydd y disgyblion yn unol â'r meini prawf a dangosyddion penodol*

8.9 **Beth fydd rôl Cyrff Llywodraethol ysgolion?**

**Ymateb:**
*Mae hyfforddiant ar gyfer y Cyrff Llywodraethol yn greiddiol gan fod angen i'r Ysgol gyfan gymryd cyfrifoldeb am ddarparu'r gwasanaeth gorau ar gyfer eu holl ddisgyblion. Byddwn yn trefnu sesiynau mandadol ar gyfer y Llywodraethwyr dynodedig ADY yn y flwyddyn newydd.*

**ATODIADAU**

**Atodiad 1 –** Strategaeth Ddrafft Cyngor Gwynedd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
**Atodiad 2 -** Yr Achos Busnes

**RHAGAIR**

Mae trawsnewid gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc, yn enwedig rhai bregus, yn un o brif flaenoriaethau Cynllun Strategol y Cyngor. Y bwriad yw gwella deilliannau i blant a phobl ifanc.

Bydd cynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn ganolog i unrhyw gynlluniau fydd yn cael eu datblygu o'r newydd; ac yn ogystal, bydd y ffactorau canlynol yn derbyn llawer mwy o sylw:

- adnabod problemau / anghenion yn gynnar ym mywyd y plentyn a sicrhau ymyrraeth briodol;
- ymyrryd yn gynnar pan fo problemau yn dod i'r golwg;
- gweithio yn fwy integredig ac amlasiantaethol, gan rannu gwybodaeth a chydgynllunio'r ddarpariaeth;
- sgiliau a dealltwriaeth y gweithlu yn cael eu datblygu yn gyson;
- cyfathrebu gwell a mwy trefnus gyda'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd.

Y bwriad yw y bydd gweithgareddau mwy ataliol yn digwydd o fewn y maes, yn enwedig gyda theuluoedd bregus, gan sicrhau bod gwasanaethau mwy cyflawn a mwy integredig ar gael ar eu cyfer.

Bydd y trawsnewid yma yn golygu y byddwn yn trefnu ein hunain yn llawer mwy effeithiol ac effeithlon fel Cyngor er mwyn ymateb i anghenion plant a phobl ifanc bregus yng Ngwynedd.

Er bod dipyn o oedi wedi bod, mae sawl newid i'r ddarpariaeth eisoes wedi cymryd lle:

1. **Peidio cynnig y gefnogaeth 3* o'r newydd** ers 1 Medi 2015. Yn yr ysgolion lle mae'r gyllideb wedi'i datganoli (uwchradd a'r 14 cynradd mwyaf) mae'r gyllideb eisoes wedi'i rhewi ers tua 5 mlynedd. Mae gofyn i ysgolion fod yn fwy hyblyg o ran y defnydd o'u cyllideb ADY yn y cyfnod Interim.
2. **Cynnal hyfforddiant** ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol pob ysgol ar y defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ogystal â chreu pecyn e-ddysgu cynhwysfawr i gefnogi hyn.
3. **Adolygu'r defnydd o'r meini prawf mynediad a gadael** y Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu (llefaredd a rhifedd) sydd yn golygu ein bod yn gallu targedu'r plant cywir yn well. Datblygu'r defnydd o Fforymau I drafod achosion penodol.
4. **Peilota'r defnydd o gymorthyddion ymestyn allan** ar gyfer cynnig cefnogaeth i'r plant sydd yn gadael y canolfannau anhwylder iaith yn hytrach na chymorthyddion unigol am nifer penodol o oriau'r wythnos.
5. Cychwyn rhoi'r **Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad newydd** mewn lle, mewn ymateb i'r diffyg yn y ddarpariaeth. Cychwyn cynnal Fforymau I drafod achosion penodol.

Pwrpas y Strategaeth hon felly, yn dilyn ymgynghori eang yw gosod cyfeiriad a chyflwyno prosiectau penodol ar gyfer trawsnewid y maes anghenion dysgu ychwanegol.

Rhestraf isod beth fydd yn wahanol yn sgil gweithredu'r Strategaeth hon:

1. Bydd pwyslais ar **osod y disgybl yn ganolog** – drwy bersonoli'r gefnogaeth gan ddefnyddio dulliau penodol (sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn) wrth gynllunio'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth ar eu cyfer.

2. Byddwn yn **cynnig math newydd o gefnogaeth**, gyda mwy o bwyslais ar ymgynghori, rhoi arweiniad a chefnogaeth gan gynnwys mentora. Ni fydd cymaint o ddibyniaeth ar gymorthyddion, gyda'r ddarpariaeth yn fwy hyblyg ac am gyfnodau penodol.

3. Byddwn yn **gwella dealltwriaeth rhieni o'r ddarpariaeth a'r opsiynau** sydd ar gael ar gyfer eu plant.

4. Byddwn yn **codi safonau** drwy:
   - gynyddu cyraeddiadau plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol;
   - wella ansawdd y ddarpariaeth ADY yn gyffredinol
   - gynyddu arbenigedd yr holl weithlu yn yr ysgolion

5. Bydd angen **newid diwylliant** er mwyn sicrhau bod **Ysgol gyfan** yn cymryd cyfrifoldeb am y maes ADY; bydd angen arweinyddiaeth gref i hyrwyddo hyn.

6. Byddwn yn **newid pwyslais, fesul cyflwr** o ran y gefnogaeth arbenigol fydd ar gael. Byddwn yn rhoi mwy o sylw i anhwylderau iaith, awtistiaeth a chynnal ymddygiad ar sail fod angen ymyrraeth fwy arbenigol ar y cyflyrau yma. Bydd newid sylweddol yn y gefnogaeth ar gyfer oediad dysgu gyda mwy o bwyslais ar i'r ysgolion gyflwyno'r ddarpariaeth yma eu hunain gyda chefnogaeth ymgynghorol y Tîm Integredig. Bydd **rheolaeth yn cael ei fewnoli** ac yn gyson ar draws yr holl ddarpariaeth.

7. Bydd **Rhaglen Hyfforddiant** penodol yn cael ei gynnig i holl weithlu'r ysgolion

8. Byddwn yn hyrwyddo **gwell defnydd a dealltwriaeth o'r meini prawf,** gan sicrhau bod modd **cyrraedd y ddarpariaeth yn llawer cynt**

9. Byddwn yn sicrhau fod pobl ifanc yn gadael yr ysgolion yn fwy **hyderus ac annibynnol.**

10. Byddwn yn **cryfhau cyd weithio** gydag asiantaethau eraill

11. Byddwn yn sicrhau gwell **system data a thracio** a sicrhau trefniadau monitro rheolaidd.



Cynghorydd Gareth Thomas
Aelod Cabinet Addysg, Cyngor Gwynedd

**CYNNWYS:**


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN** | Tud 3 - 4 |
| **2** | **Y STRATEGAETH AR GYFER TRAWSNEWID Y MAES ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YNG NGWYNEDD** | Tud 5 - 6 |
| **3** | **Y DEILLIANNAU** | Tud 6 |
| **4** | **Y CYNLLUN GWEITHREDU** | Tud 7 – 15 |
| **5** | **YR ACHOS BUSNES** | Tud 16 – 18 |
| **6** | **BETH FYDD YR EFFAITH I BLANT A PHOBL IFANC GWYNEDD?** | Tud 19 |
| **7** | **YR AMSERLEN A'R CAMAU NESAF** | Tud 20 |

## 1. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

Mae'n bwysig nodi y paratoir y Strategaeth yma yng nghyd-destun newid arwyddocaol yn y maes, yn cynnwys:

- y cynigion deddfwriaethol ar gyfer diwygio'r fframwaith ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol;
- y dystiolaeth sy'n awgrymu bod angen hoelio sylw ar ymyrraeth gynnar ac ataliol;
- y rhaglen ar gyfer datblygu'r Ysgol Arbennig newydd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y Sir;
- y cyd-destun ariannol

Daeth yr angen am Strategaeth o'r fath i'r amlwg yn wyneb dadansoddiad o brofiadau plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol. Amlygwyd rhai gwendidau sylfaenol yn cynnwys:

- **Anghysondeb o fewn y gyfundrefn:**
  - o ran disgwyliadau rhieni; yn safon a lleoliad y ddarpariaeth ac yn niwylliant yr ysgolion
- **Cyfundrefn draddodiadol a chymhleth**
  - meini prawf angen eu hadolygu; y gweithredu'n adweithiol (awdurdod ac ysgolion); darpariaeth yn cael ei gomisiynu'n allanol heb ddigon o reolaeth trosto
- **Ansawdd perfformiad**
  - anghysondeb o fewn ysgolion a thimau arbenigol; diffygion mynediad at ddata cyfredol (y wybodaeth yn cael ei gadw ar wahân mewn ffurf wahanol); ac anodd profi cynnydd
- **Perthynas â gwasanaethau eraill**
  - Y strwythur ddim yn hybu cydweithio
- **Twf mewn anghenion penodol**
  - Y ddarpariaeth ddim yn adlewyrchu'r pwyslais cywir ar yr anghenion pennaf
- **Diffyg cyfathrebu**
  - diffyg ymwybyddiaeth ar gyfer derbyn gwybodaeth; y gyfundrefn bresennol yn rhy gymhleth a diffygion cyfathrebu rhwng yr holl fudd ddeiliad

Yn ychwanegol i'r ffactorau uchod, cyhoedded Llywodraeth Cymru gynigion Deddfwriaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol - mewn Papur Gwyn, 22 Mai 2014.

Yn y Rhagair gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau - Huw Lewis, nodir:

> "Mae'r system bresennol ar gyfer cefnogi plant ag AAA yn seiliedig ar fodel a gyflwynwyd dros 30 o flynyddoedd yn ôl. Nid yw'r model hwn bellach yn addas i'w ddiben. Mae ymchwiliadau ac adolygiadau wedi barnu bod y system bresennol yn gymhleth, yn ddyrys ac yn ennyn gwrthwynebiad".

"….. Byddai rhai o'r darpariaethau deddfwriaethol a gynigir yn golygu newid sylweddol i'r fframwaith statudol tra byddai eraill yn adeiladu ar gryfderau sydd eisoes i'w cael" ….. "dylai 'r hyn sy'n gweithio gael ei gadw a'i wella a dylai'r hyn nad yw'n gweithio gael ei addasu a'i ddisodli".

Mae sawl egwyddor allweddol yn cael eu cyflwyno fel sail ar gyfer diwygio'r fframwaith AAA sef:

- dylai barn dysgwyr, a hefyd barn eu rhieni gael ei ystyried;
- dylai dysgwyr allu disgwyl i'w hanghenion gael eu hadnabod;
- dylai'r broses o gymeradwyo asesiadau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr fod yn fwy syml;
- dylai unrhyw anghytundebau gael eu datrys mewn modd mor gyflym a didrafferth a phosibl;
- dylai pawb sydd ynghlwm wrth gynnig cefnogaeth i ddysgwyr, gyd-weithio mewn darparu gwasanaeth di-dor.

Mae'r ddeddf arfaethedig yn cynnig y newidiadau sylfaenol canlynol:

- Y term Anghenion Addysg Arbennig (AAA) yn newid i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)[i];
- Cyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) drwy ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion. Bydd y cynlluniau yma yn disodli datganiadau AAA a Chynlluniau Addysg Unigol (CAU) anstatudol a chynlluniau ôl 16. Yr awdurdodau lleol fyddai efo'r cyfrifoldeb i baratoi CDU a sicrhau ei weithrediad ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc gydag ADY rhwng 0-25 oed.
- Cyhoeddi Cod Ymarfer newydd fydd yn cynnwys gofynion gorfodol y bydd yn rhaid i gyrff perthnasol weithredu'n unol a hwy.

Bwriad y Llywodraeth drwy gyflawni mesurau'r Ddeddf fydd datblygu gwasanaeth Anghenion dysgu Ychwanegol sydd â'r nodweddion canlynol:

- Creu system gyfartal ac unedig;
- Cyflwyno proses fwy hyblyg a mwy ymatebol;
- Sicrhau dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn;
- Darparu gwell cefnogaeth a gwell gwybodaeth a chyngor;
- Osgoi unrhyw ddyblygu;
- Gwella trefniadau cyd weithio;
- Sicrhau bod anghydfodau'n llai tebygol o ddigwydd;
- Sicrhau cyn lleied â phosib o apeliadau;
- Cynnal ac estyn yr hawl i apelio.

## 2. Y STRATEGAETH AR GYFER TRAWSNEWID Y MAES ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YNG NGWYNEDD

Nod y Strategaeth yng Ngwynedd yw:

> **'Sicrhau bod plant a phobol ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu.'**

Mae'r canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni drwy'r Strategaeth yn cynnwys:

- darpariaeth sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, gan geisio adnabod cyflyrau yn gynnar iawn ym mywydau plant fel y gall hynny gael effaith ar eu haddysg a'u bywydau yn gyffredinol;
- cynyddu'r arbenigeddau yn ein hysgolion trwy raglenni hyfforddi i ddatblygu mwy o arbenigedd;
- trefniadau amlasiantaethol cadarn o gyd-weithio a fydd yn arwain at rannu gwybodaeth, a sicrhau cydgynllunio effeithiol ar gyfer addysg a datblygiad plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol;
- cynnig gwasanaeth sy'n sicrhau bod ansawdd uchel yn perthyn i'r profiadau addysgol;
- plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth ychwanegol yn gynt; yn gwneud cynnydd addysgol ar gyflymder priodol, ac yn cyfrannu at hyrwyddo eu hannibyniaeth;
- amgylchedd ddysgu o'r ansawdd uchaf posib ar gyfer plant sydd efo'r anghenion mwyaf dwys;
- sicrhau cyfundrefn effeithiol ac effeithlon.

Y prif hwyluswyr ar gyfer cyflawni'r newidiadau a llwyddo i wneud gwahaniaeth positif fydd:

- **Y gweithlu** - bydd rhaglen hyfforddiant yn ei lle ar gyfer arfogi a datblygu'r gweithlu ar gyfer darparu'r math cywir o gefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol;
- **Rhieni**[ii] - sicrhau mwy o bwyslais ar gyfer gwell cyfathrebu gan sicrhau bod anghenion y plentyn yn ganolog i'r holl broses;
- **Trefniadau a siâp y Gwasanaeth** - bydd sylw penodol yn cael ei roi i ad-drefnu gwasanaethau o fewn yr Awdurdod Addysg;
- **Ysgolion**
  - Cynyddu arbenigedd yn ein hysgolion trwy raglenni hyfforddi i ddatblygu mwy o arbenigedd;

- sicrhau gwell dealltwriaeth ac eglurder ar ran yr ysgolion , yr Awdurdod Addysg ac asiantaethau eraill o ran natur y cyfrifoldebau a'r darpariaethau.
- Arweinyddiaeth ysgolion yn datblygu dealltwriaeth ysgol gyfan o'r diwylliant newydd yn y maes yma

## 3. Y DEILLIANNAU

Bydd gofyn sicrhau bod deilliannau clir i blant a phobl ifanc yn sgil newid i'r maes dan sylw:

**Deilliant 1:** **Bod plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol yn ganolog i unrhyw benderfyniad wrth gynllunio darpariaeth ar eu cyfer; a'u bod yn derbyn y math cywir o gefnogaeth ac ymyrraeth yn fuan – gyda phwyslais yn y blynyddoedd cynnar.**

**Deilliant 2:** **Bod plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn gwasanaeth o ansawdd, yn yr ysgolion a gan dimau amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol ar draws Gwynedd.**

**Deilliant 3:** **Bod y ddarpariaeth ar gyfer plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn amserol i sicrhau fod yr ymyrraeth orau yn cael ei defnyddio.**

Wrth adnabod y deilliannau rhoddwyd sylw i'r canlynol:


- Yr angen i drawsffurfio'r holl wasanaeth o fewn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad;
- Yr angen i ymateb yn llawn i'r prif bwyntiau a wnaed yn ystod y cyfnod ymgysylltu;
- Yr angen i roi ystyriaeth lawn i brofiad a dymuniad y plentyn wrth gynnig newid y ddarpariaeth;
- Yr angen i gynyddu capasiti yn ein hysgolion, gwneud arbedion a lleihau'r galw yn y maes yma yn y dyfodol er sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn y tymor hir.
- Yr angen i baratoi ar gyfer y newidiadau deddfwriaethol

O'i gweithredu bydd y Strategaeth yn cyflawni:

- Gwasanaeth o ansawdd i blant a phobl ifanc Gwynedd;
- Gwasanaeth sy'n llawer mwy effeithiol ac effeithlon.

## 4. Y CYNLLUN GWEITHREDU

Bydd y rhaglen o brosiectau a ddangosir isod yn cyflawni'r deilliannau canlynol:




### 4.1 <u>Cyflwyno'r defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddisodli'r trefniadau datganiad a chynlluniau addysg unigol presennol:</u>

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i'r ALl ddechrau cyflwyno'r defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gynllunio'r ddarpariaeth yma yn syth. Bydd y Cynlluniau Datblygu Unigol (o fabwysiadau'r ddeddfwriaeth newydd) yn disodli datganiadau AAA (Statudol) a Chynlluniau Addysg Unigol (CAU) anstatudol[iii]. Bydd pob plentyn neu berson ifanc gydag ADY efo'r hawl i dderbyn yr un cynllun statudol – sef y CDU.

Mae'n allweddol ein bod yn darganfod be sy'n bwysig i'r disgyblion wrth geisio personoli'r profiad addysgol. Byddwn yn gwneud hyn drwy siarad efo nhw a'u teuluoedd, a chytuno sut yw'r ffordd orau i flaenoriaethu a darparu'r gefnogaeth.

Mae'r adolygiadau yma yn rhoi'r plentyn neu berson ifanc yn y canol, gan edrych ar yr hyn sy'n gweithio ac nad yw'n gweithio, a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr efo'r Meini Prawf isod i greu cynllun gweithredu sy'n wirioneddol unigol ac effeithiol ar eu cyfer Mae'r dull yma o ddeall anghenion disgybl yn berthnasol i bob plentyn/ person ifanc nid yn unig y rhai efo ADY.

Bydd camau a gweithdrefnau penodol i'w dilyn yn unol â'r drefn o bersonoli cynllunio ar gyfer anghenion disgyblion unigol.
Mae Rhaglen Hyfforddiant penodol yn hanfodol ar gyfer cyflwyno'r 'newid diwylliant' yma. Bydd yr egwyddorion yn greiddiol ar gyfer yr Ysgol gyfan a bydd hyn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr efo timau arweinyddol yr ysgolion.
O Fedi 2015 ymlaen byddwn yn cyflwyno modiwlau e-ddysgu, hyfforddiant arbenigol ar gyfer cydlynwyr (i ddechrau) a rhwydwaith o 'bencampwyr' yn cysoni'r arfer dda o Ysgol i Ysgol.


## 4.2 Datblygu'r defnydd o feini prawf er mwyn cyflwyno canllawiau ac eglurder o ran y ddarpariaeth briodol ar gyfer pob anhwylder.

Bydd yr awdurdod yn addasu a symleiddio'r Meini Prawf presennol i fod yn fwy dealladwy er mwyn cysoni'r defnydd ohonynt.
Bydd y meini prawf yma yn benodol fesul cyflwr/ anhwylder ac yn amlygu anghenion unigol disgyblion ochr yn ochr a'r ddarpariaeth sydd bosib ei gynnig ar eu cyfer.

Bydd y gweithdrefnau manwl yma yn rhoi arweiniad clir i'r ysgolion, a'r rhieni o ran y camau priodol i'w dilyn wrth ymateb i anghenion unrhyw unigolyn. O hyn daw eglurder o ran pryd a pha gam y dylai disgybl fod arno oddi fewn i bob darpariaeth arbenigol.

## 4.3 Sefydlu Fforymau Ardal ADY a Phanel Sirol ADY


Gweler o'r diagram isod fod **y drefn bresennol** o wneud cais am gefnogaeth yn gallu cymryd hyd at 84 wythnos (7 tymor Ysgol) i gyrraedd asesiad statudol. Gall cyfnod pellach o hyd at 26 wythnos ddigwydd cyn i benderfyniad gael ei wneud (gweler isod). O ddefnyddio'r **drefn newydd** gallai disgybl dderbyn cefnogaeth ddwys oddi fewn i un tymor Ysgol (gweler trosodd).



Mae'n fwriad ail sefydlu Swyddfa Ardal ym mhob rhan o'r Sir, ac yng nghyd a hyn bydd Fforwm Ardal ADY yn cael ei sefydlu. Bydd y Fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynnwys cynrychiolwyr aml asiantaethol yn ogystal â phenaethiaid ac aelodau penodol o'r Tîm ADY Integredig.

Bydd hyn yn rhoi cyfle i gynnal trafodaeth leol am anghenion y disgyblion a gallu'r Ysgol i ymateb i'r angen yma. Bydd unrhyw gais am gefnogaeth tu hwnt i ddarpariaeth Ysgol angen eu cyfeirio at y Fforwm Ardal ADY - ac fe gaiff y ceisiadau eu gwirio a'u cymeradwyo ar gyfer derbyn mewnbwn arbenigol yn ôl yr angen.
Bydd achosion mwy dwys yn cael eu cyfeirio at sylw'r Panel Sirol. Y panel yma fydd yn cymeradwyo adnoddau ychwanegol ac yn disodli'r Paneli Cymedroli presennol drwy fod yn gwirio ac yn adolygu'r ddarpariaeth datganiad cyfredol.

Gweler isod y drefn newydd o gyrraedd y ddarpariaeth:




## 4.4 Sefydlu un Tîm Integredig ADY Newydd:

Byddwn yn datblygu un Tîm Integredig sgilgar yn cynnwys timau penodol o arbenigeddau yn ôl cyflwr/ anhwylder a lleoliad. Bydd y timau yma yn cynghori a chefnogi'r ysgolion ac yn sicrhau cysondeb wrth ddarparu ymyraethau a chefnogaeth briodol i'r unigolion.
Wrth gynllunio'r model darpariaeth newydd, amlygwyd yr angen i newid y pwyslais o ran strwythur a maint y ddarpariaeth ar gyfer rhai anhwylderau.

Byddwn yn rhoi mwy o sylw i Cyfathrebu a Rhyngweithio (Anhwylderau Iaith ac Awtistiaeth) ac i Gynnal Ymddygiad. Mae hyn ar sail fod angen ymyrraeth fwy arbenigol ar y cyflyrau yma, a bod niferoedd uwch o ddisgyblion angen y gefnogaeth . Bydd newid sylweddol yn y gefnogaeth ar gyfer oediad dysgu gyda mwy o bwyslais ar i'r ysgolion gyflwyno'r ddarpariaeth yma eu hunain gyda chefnogaeth ymgynghorol y Tîm Integredig.

Er mwyn gweithredu'r ail fodelu bydd y ddarpariaeth cymorthyddion 3* presennol yn dod i ben. Mae dau opsiwn newydd ar gyfer diwallu'r ddarpariaeth yma, unai :

- Cyflwyno tim o swyddogion a chymorthyddion ADY arbenigol oddi fewn i'r Tim Integredig neu
- Datganoli canran (llai) o'r gyllideb Integreiddio i'r ysgolion ar sail fformiwla ar gyfer penodi cymorthyddion ADY eu hunain



Amlinellir isod y strwythur staffio ar gyfer y gwasanaethau gwahanol:

4.4.1 Seicolegwyr Addysgol

Er mwyn sicrhau cysondeb mewn ymarfer bydd gan bob tîm arbenigol fynediad at seicolegydd addysg. Fel rhan o ddarpariaeth y gwasanaethau arbenigol bydd y seicolegydd yn rhan allweddol o gynllunio strategol a chyflwyno rhaglen hyfforddiant pob gwasanaeth. Y Seicolegydd fydd yn gosod cyfeiriad strategol i bob gwasanaeth, gan sicrhau cysondeb o ran y defnydd o ymyraethau ar sail tystiolaeth.

4.4.2 Cydlynwyr Dalgylch ADY **(Mwy o waith manwl i'w wneud ar hyn)**

Bydd y swyddi yma'n gwbl newydd ac yn unigryw i Wynedd.
Drwy ganoli elfen o'r gyllideb ADY o bob ysgol byddwn yn creu tim o **Gydlynwyr Dalgylch ADY** (mewn ymateb i bryder ysgolion o ran pwysau cynyddol ar eu Cydlynwyr ADY)

Byddai'r cyfrifoldebau yn cynnwys:

- Cysoni'r ddealltwriaeth o ADY ar draws pob ysgol
- Cyfle i rannu arfer da ac i rannu adnoddau
- Trosolwg mwy lleol o'r anghenion a'r pryderon fesul ysgol, o fewn dalgylch ac o fewn ardal - yn y Sir
- Blaenoriaethu a chynllunio yn llawer gwell – drwy adnabod tueddiadau yn llawer cynt
- Cefnogaeth gryfach a fwy cyson yn y cyfnodau trosiannol er mwyn sicrhau dilyniant o 0-25 oed
- Monitro cydymffurfiaeth a'r ddeddfwriaeth a chod ymarfer newydd
- Rheoli anghydfod a bod yn gyswllt lleol ar gyfer rhieni i drafod pryderon.

Yn ogystal i hyn byddwn yn penodi **Cydlynwyr Ansawdd ADY** - bydd y rôl yma yn fwy gweinyddol ei natur ac yn gyfrifol am sicrhau fod cysondeb yn y defnydd o CDU, trefnu adolygiadau a Fforymau Ardal , Y Panel Sirol ac o fonitro'r cyllidebau ADY

4.4.3 Athrawon Ymgynghorol ADY

Bydd yr athrawon yn gyfrifol am gefnogi penaethiaid ac athrawon ar lawr dosbarth yn bennaf. Gall rhai hefyd fod yn gyfrifol am dîm o Swyddogion arbenigol ar lefel ardal. Bydd y gynhaliaeth i ysgolion ar ffurf hyfforddiant ac adnoddau parod. Bydd yr athrawon yn treulio cyfnodau estynedig ar lawr dosbarth yn arsylwi, modelu a monitro.

4.4.4 Swyddogion ADY

Bydd Swyddogion penodol oddi fewn i rai o'r timau arbenigol yn gyfrifol am gefnogi athrawon a chymorthyddion ar lawr dosbarth ond yn wahanol i'r Athrawon Ymgynghorol bydd ffocws clir ar gefnogi teuluoedd. Bydd y swyddogion yn treulio amser yn arsylwi, modelu a monitro ar lawr dosbarth, ac yn cefnogi teuluoedd yn yr aelwydydd yn ôl yr angen.

4.4.5 Cymorthyddion ADY

Bydd cymorthyddion sydd wedi'u penodi ar sail **anghenion datganiadau** disgyblion unigol yn parhau i gefnogi'r ysgolion ond bydd pob Ysgol yn gyfrifol am gyflogi'r cymorthyddion yma'n uniongyrchol. Dros amser bydd y

ddarpariaeth yma hefyd yn cael ei adolygu i gydymffurfio a'r meini prawf a'r ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig gan y Tîm Integredig newydd.

Yn ogystal bydd cymorthyddion yn cael eu penodi yn rhan o'r Tim Integredig ac ar gael i gefnogi'r disgyblion ar lawr dosbarth. Byddant a'r profiad angenrheidiol i gynghori cymorthyddion eraill o fewn y dosbarth. Bydd hyd y lleoliad efo'r disgybl yn llwyr ddibynnol ar eu hanghenion a blaenoriaethau'r gwasanaeth. **NEU** bydd canran (lai) o'r gyllideb integreiddio bresennol yn cael ei datganoli i bob Ysgol ar sail fformiwla ar gyfer penodi eu Cymorthyddion ADY eu hunain, neu o fewn clwstwr.

## 4.5 Sefydlu trefniadau newydd ar gyfer y Ddarpariaeth Cynhwysiad/ Cynnal Ymddygiad:

Yn unol â chanllawiau a blaenoriaethau'r tîm arbenigol cynnal ymddygiad newydd byddai disgwyl cynhwyso pob disgybl o fewn ysgolion cynradd Gwynedd. Edrychir ar ddull mwy Integredig o weithio efo ysgolion, gyda phwyslais ar gysoni'r gwasanaeth ar draws y Sir.

Byddai'r gwasanaeth ar gyfer y sector uwchradd yn cael ei rannu'n ddau brif ran, cynhaliaeth o fewn Ysgol a chynhaliaeth tu allan i'r Ysgol. Caiff hyn ei gyflwyno mewn dull mwy holistaidd a therapiwtig er mwyn eu hintegreiddio'n ôl i'r ysgolion.

## 4.6 Adolygu Darpariaeth Canolfannau Arbenigol:

Byddwn yn adolygu'r holl ddarpariaeth ADY yn y canolfannau arbenigol - mae'r canolfannau yma'n rhoi sylw penodol i'r Blynyddoedd Cynnar, Awtistiaeth, Anhwylderau Iaith ac ADY cyffredinol yn Nhŷ Meirion (Dolgellau). Y nod fydd cynnig gwell cysondeb a gwell defnydd o adnoddau'r canolfannau arbenigol.
Bydd hyn yn cysoni'r ddarpariaeth efo blaenoriaethau a gweithdrefnau'r timau arbenigol newydd.

Byddwn yn ystyried yn benodol cyflwyno meini prawf mynediad a gadael newydd i'r holl ganolfannau, gan edrych yn benodol ar oedran mynediad i'r Canolfannau Anhwylder Iaith ac ABC. Byddwn am sicrhau fod mynediad posib ar gyfer pob plentyn addas, gan gynnwys plant iau (oedran meithrin).

## 4.7 Yr Ysgolion Arbennig

Caiff y Strategaeth ei gwireddu ochr yn ochr efo agor yr Ysgol arbennig newydd ym Meirion Dwyfor. Bydd adnoddau o ansawdd yn cael eu cyflwyno gan yr Ysgol newydd yn ychwanegol i'r hyn sydd eisoes ym Mhendalar; a byddwn yn sicrhau fod gan rieni ddealltwriaeth glir o'r holl opsiynau darpariaeth ADY sydd ar gael.

Y bwriad yw uchafu'r arbenigeddau a'r arferion da o gyd weithio sydd eisoes yn bodoli yn yr ysgolion prif lif a'r ysgolion arbennig. Bydd elfen o'r gweithlu

arbenigol i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu lleoli o fewn yr ysgolion arbennig.

## 4.8 Rhaglen Hyfforddiant

Bydd yn rhaid sicrhau fod gweithlu'r Tim Integredig yn cynnwys arbenigeddau penodol fesul cyflwr, a bydd yr arbenigedd yma'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan sicrhau fod yr ymyraethau cywir ar sail tystiolaeth yn cael eu harfer. Bydd pob tîm arbenigol yn cynllunio Rhaglen Hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu a'r rhieni o dan arweiniad y Seicolegwyr Addysg.

Bydd gwefan gynhwysfawr o adnoddau ac arweiniad ar gael drwy rwydwaith y cyngor fydd yn sicrhau mynediad rhwydd i staff at adnoddau parod i gefnogi'r gwaith o gynnal anghenion arbenigol o fewn ysgolion.
Bydd y wefan yn ffynhonnell o adnoddau ac arweiniad i ysgolion.

Fel rhan o ddatblygiad proffesiynol staff y Tîm Integredig bydd modd manteisio ar y rhaglenni hyfforddiant sydd yn cael eu cynnig i weddill staff yr ysgolion. Bydd cyfle i'r gweithlu yma gynyddu'u harbenigeddau a bydd cyfle i gymorthyddion gael cynnig cynllun gyrfa.

## 4.9 Datblygu Siarter / Cytundeb rhwng Ysgolion a'r Awdurdod Lleol

Bydd y Siarter yn ddogfen fydd yn cynnig dealltwriaeth glir o swyddogaethau'r Awdurdod Lleol ochr yn ochr â swyddogaethau ysgolion wrth ymwneud gyda'r maes yma yn ogystal â'u cyfrifoldebau. Bydd hefyd yn manylu ar atebolrwydd Awdurdod i Ysgol, ac Ysgol i Awdurdod.
Bydd hyn yn greiddiol fel sail i ddatganoli elfennau o'r gyllideb ADY I'r ysgolion.

## 4.10 Sefydlu Uned Ddata oddi fewn i'r Adran Addysg

Mae'r systemau data presennol yn gwbl annibynadwy, yn anghydlynnus ac yn drwm ar amser gweinyddol. Mae'n greiddiol ein bod yn gallu symleiddio'r dulliau o ddal gwybodaeth yn electroneg ac yn lleihau dyblygu gwaith. Y bwriad yw sefydlu trefn fel bod posib cael mynediad at yr holl wybodaeth am ADY disgybl oddi fewn i un ffeil electroneg.

Mae'n fwriad datblygu uned oddi fewn yr Adran addysg er mwyn sicrhau systemau data cyfredol a chywir. Mae hyn yn gwbl greiddiol er mwyn monitro fod disgyblion yn cael eu hasesu'n gyson yn erbyn targedau cydnabyddedig; ac o amlygu os yw perfformiad addysgol y plentyn yn llithro yn erbyn y targedau. Mae'n angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o CDU a'r defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn oddi fewn i ysgolion. Rhaid osgoi rhwystrau gweinyddol a gweithdrefnau llafurus i'w dilyn.
Mae hefyd yn greiddiol ar gyfer adolygu a monitro'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd ac er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

## 4.11 Mesur bodlonrwydd plant a phobl ifanc sydd efo anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd.

Yn ystod y cyfnod o ymgysylltu efo holl fudd ddeiliaid y gwasanaeth adnabuwyd fod gwella cyfathrebu â rhieni'n gyffredinol yn un o'r materion allweddol i roi sylw iddo. Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig eto'n atgyfnerthu hyn.

Byddwn felly yn sicrhau fod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd:

- Yn cael eu cynnwys
- Yn cael eu hymgynghori a nhw
- Yn derbyn yr holl wybodaeth a chyngor sydd eu hangen arnyn nhw, a hynny mewn ffordd glir ac eglur

Bydd y defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn greiddiol i hyn, ond yn ogystal byddwn angen cynnwys trawstoriad o ddisgyblion a rhieni yn ein gwaith cynllunio. Byddwn angen trafod nid yn unig opsiynau newydd ar gyfer ymgysylltu a rhannu gwybodaeth ond hefyd pa wybodaeth maent ei angen ac ym mha ffurf.

## 4.12 Fforymau Cynllunio ADY Ysgolion

Yn ychwanegol i'r Fforymau ardal mae bwriad i ddatblygu Fforymau Cynllunio i roi cyfle i weithlu ysgol rannu eu pryderon efo gweithlu perthnasol o'r awdurdod a chyfnewid arbenigedd ac arfer da gyda chydweithwyr.
Bydd yn gyfle i sicrhau bod y ddarpariaeth a'r adnoddau yn cael eu gweithredu'n effeithiol a bod y dehongliad o'r Fwydlen Ddarpariaeth yn gyson a chywir.

Caiff y fforymau hyn eu trefnu'n rheolaidd er mwyn cynnig cyfle i adolygu, monitro a thrafod effeithiolrwydd darpariaeth ADY ysgolion unigol a rhoi cyngor a chymorth i ysgolion ar gyfer cynllunio a datblygu safon uchel o ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol.

Disgwylir i bob ysgol gyflwyno dogfen 'map darpariaeth' fydd yn amlinellu'r defnydd o'r gyllideb ADY, yr anghenion disgwyliedig, y ddarpariaeth ymyrryd ac adnabod disgyblion (neu grwpiau o ddisgyblion) y gall eu cynnydd fod yn achosi pryder. Bydd y wybodaeth yn greiddiol ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn cynllunio ac adolygu'r Gwasanaeth a'r gweithdrefnau yn rheolaidd.

Bydd yr awdurdod yn sicrhau presenoldeb gweithlu arbenigol fydd yn cynnwys:
Seicolegwyr, athrawon ymgynghorol, Swyddogion ADY, Swyddog diogelu, Swyddog Cydymffurfiaeth, Swyddogion Cynhwysiad a bydd pob fforwm yn cael ei gadeirio gan yr Uwch Reolwr ADY a Chynhwysiad.

## 4.13 Darpariaeth yn y Blynyddoedd Cynnar

Gan fod mwyafrif y cyllid ar gyfer y ddarpariaeth yma tu allan i reolaeth addysg y bwriad yw sefydlu Is dim Prosiect I edrych ar y maes yma'n benodol.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod dulliau asesu mwy cyson, manwl a holistaidd o gyflwr ac anghenion y plentyn yn digwydd yn y Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd (neu unrhyw ddarpariaeth gwarchod cyn oed ysgol).

Bydd hyn yn fodd o sicrhau dilyniant a chysondeb ar gyfer plant gydag anghenion dysgu ychwanegol yn y cyfnod trosiannol o'r meithrin i'r ysgolion; ac yn dileu'r angen i ail asesu.

## 4.14 Darpariaeth ôl 16 oed

Mae aneglurder yn y cynigion deddfwriaethol o ran sut, a phwy fydd angen gweithredu yn yr oedran yma. Cafwyd trafodaeth fuddiol iawn efo Gyrfa Cymru ac yn y cyfarfodydd efo'r rhieni a llywodraethwyr ynglŷn â hyn a chytunwyd fod angen sefydlu IS dim Prosiect I edrych ar y maes yma'n benodol.

## 4.15 Cyfleoedd i gyd weithio efo'r Tim Plant ac asiantaethau eraill

Yn unol â chanllawiau'r ddeddfwriaeth arfaethedig byddwn yn cyd-weithio efo'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Derwen I sicrhau bod CDU yn cael eu cyflwyno ar gyfer plant 'sy'n derbyn gofal'. Bydd hyn yn disodli'r angen (ac yn lleihau dyblygu) am Gynlluniau Addysg Bersonol (CAP) Bydd angen sefydlu is grŵp penodol i edrych ar y maes yma.

## 4.16 Cyd –weithio efo Iechyd

Bydd angen sicrhau fod dealltwriaeth glir o ran atebolrwydd iechyd am eu cyfrifoldebau o fewn y maes ADY. Bydd angen parhau i gynnal trafodaethau ar lefel uchel ac ar lefel reolaethol fesul Gwasanaeth efo'r Bwrdd Iechyd.

Byddwn angen creu memorandwm o ddealltwriaeth ar lefel strategol a gweithredol rhwng Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a'r trydydd Sector. Bydd angen eglurder o ran y trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth, y defnydd o'r iaith Gymraeg, a materion adnoddau yn sgil y ddeddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol.

## 5. Yr Achos Busnes

5.1 Mae'r achos busnes wedi canolbwyntio ar dair elfen o'r gyllideb sef:

- Y gweithlu ADY presennol
- Y Gyllideb Integreiddio (Datganiadau a 3*)
- Y Gyllideb ADY (yn cael ei dosbarthu drwy fformiwla)

5.2 Mae'r gyllideb bresennol 2015/16 yn y tri maes yma yn cael eu rhannu fel a ganlyn:

| | Cyllideb | Swm | Eglurder |
|---|---|---|---|
| 1 | Gweithlu | £2,169,077 | Cyllideb ganolog ar gyfer Cynnwys CBAAA ac Athrawon Arbenigol eraill |
| 2 | Cyllideb ADY ac Amddifadedd | £1,583,086 | Cael ei ddatganoli yn ei gyfanrwydd i'r ysgolion ar sail fformiwla 1:3:3:3 |
| 3 | Cyllideb Integreiddio datganiadau | £3,823,551 | Cael ei ddatganoli i rai ysgolion i benodi cymorthyddion datganiad |
| 4 | Cyllideb Integreiddio arall (3*) | £1,930,390 | Cael ei ddatganoli i rai ysgolion i benodi cymorthyddion 3* |
| 5 | Cyfanswm | **£9,506,131** | |

5.3 Yn dilyn ymgynghori pellach ar y Strategaeth a phrif egwyddorion yr Adolygiad mae gwaith modelu manwl wedi cymryd lle ar sail gwybodaeth am ddisgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth, y meini prawf presennol ac Adolygiad o'r gweithlu presennol.

5.4 Mae hyn yn cynnwys ail strwythuro llwyr o'r gweithlu presennol, gan gynnwys dod a rhai timau penodol a'r CBAAA i ben ac yn cynnig strwythur llawer mwy Integredig a syml. Un nodwedd greiddiol i hyn yw diddymu'r ddarpariaeth Integreiddio 3* bresennol - sydd yn cael effaith ar swyddi nifer uchel o gymorthyddion dysgu. Mae'r gwaith modelu pellach o ran datganoli/ canoli'r gyllideb ADY yn dangos canrannau gwahanol o ddatganoli cyllideb i'r ysgolion **ond mae'r ffigwr arbedion yn aros yr un fath ar gyfer yr holl opsiynnau.**

5.5 Y gyllideb newydd ar gyfer y model presennol (sef Opsiwn 3) fyddai:

| | Cyllideb | Swm | Eglurder |
|---|---|---|---|
| 1 | Gweithlu | £3,291,006 | Cyllideb ganolog ar gyfer cyflogi gweithlu'r Tîm Integredig |
| 2 | Cyllideb ADY ac Amddifadedd | £1,583,108 | Y swm yma yn cael ei ddatganoli ar sail fformiwla (newydd) |
| 3 | Cyllideb Integreiddio datganiadau | £3,823,551 | Cael ei ddatganoli i bob ysgol i benodi cymorthyddion datganiad |
| 4 | Cyllideb Integreiddio arall (3*) | £ - | Y gyllideb yma wedi'i ganoli ar gyfer ffurfio'r Tîm Integredig |
| 5 | Cyfanswm | **£8,697,665** | |

5.6 Arbedion - Byddai hyn yn dangos arbediad blynyddol parhaol o **£808,466** yn y flwyddyn (academaidd) gyntaf o weithredu'r Tîm Integredig Llawn; ac o gynnwys arbedion eraill i'r gyllideb Integreiddio Datganiadau dros amser byddai'r arbedion blynyddol parhaol yn **£986,886 erbyn 2021/22.**

5.7 Byddai hyn yn dangos arbedion cronnus o **£531,574** ar gyfer y ffenest **arbedion 3 blynedd** (blwyddyn ariannol 2015/16 - 2017/18) ochr yn ochr efo cais am fuddsoddiad unwaith-ac-am-byth o £1,038,583 yn yr un cyfnod. Byddai mwyafrif y costau yma yn deillio o gostau di swyddo arfaethedig.

5.8 Cyflwynir gwybodaeth am y proffil arbedion yn nhabl 1

### Tabl 1- y proffil arbedion

Proffil arbedion parhaol fesul blwyddyn academaidd

| | Pennawd cyllideb | Arbedion parhaol (cronnus) arfaethedig | | | | | | | | | Eglurder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynllun | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | C'swm cronnus | |
| | Cyllideb cyflogi'r Gweithlu a'r gyllideb Integreiddio 3* a datganiadau | | | | | | | | | | |
| 1 | Cyllideb y Gweithlu a Chyllideb Integreddio | Cychwyn cyflwyno CDU yn lle datganiadau yn y blynyddoedd cynnar a blwyddyn 5 (lleihau oriau rhai datganiadau drwy newid trothwyon) | £0 | £23,550 | £56,120 | £99,960 | £135,830 | £153,370 | £178,420 | £178,420 | gall y swm yma fod yn uwch - ond angen ei fuddsoddi i dyfu maint y gweithlu arbenigol. Y gyllideb yn ei chyfanrwydd yn £3.9m 2015/16 |
| 2 | | Adolygu'r gwasanaeth - ail fodelu'r gweithlu, dad gomisiynnu'r cyd bwyllgor i gyflogi'r mwyafrif o'r gweithlu yn ganolog Arian Integreiddio (3*) yn cael ei gadw'n ol yn ganolog | £0 | £41,808 | £808,466 | £808,466 | £808,466 | £808,466 | £808,466 | £808,466 | ail fodelu'r holl ddarpariaeth gweithlu arbenigol presennol a chynnwys y gyllideb 3* yn ei chyfanrwydd |
| 3 | Cyfanswm arbedion | | £0 | £65,358 | £864,586 | £908,426 | £944,296 | £961,836 | £986,886 | £986,886 | |
| | | | | | | | | | | | |
| 4 | Arbedion ar gyfer y ffenest arbedion 3 blynedd (bl. ariannol 2015/16 - 2017/18) | | | | | | | | | £531,574 | |

5.9 Er mwyn gwireddu'r arbedion yma bydd angen gwneud cais i'r Cabinet am fuddsoddiad unwaith ac am byth. Bydd angen swm o £1,038,583 ar gyfer y ffenest arbedion 3 blynedd (blwyddyn ariannol 2015/16 – 2017/18). Cyfanswm o £1,354,000 erbyn 2021/ 22.

5.10 Mae angen amlygu fod oblygiadau costau di swyddo uchel iawn o hyd at £1m wedi'i hadnabod yma er mwyn galluogi gwneud arbedion parhaol.

### Tabl 2 - Proffil buddsoddiad unwaith ac am byth

Proffil Costau unwaith-ac-am-byth fesul blwyddyn academaidd

| | Pennawd | Costau unwaith-ac-am-byth | | | | | | | | | Eglurder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynllun | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | C'swm | |
| | "Rheoli Newid" | | | | | | | | | | |
| 1 | Rhaglen Hyfforddiant | Rhaglen gynhwysfawr ar gyfer y gweithlu presennol, gweithlu newydd a rhieni. | £40,000 | £80,000 | £80,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £200,000 | angen mwy o waith manwl. Sylw penodol i CDU ar y dechrau |
| 2 | Rheoli'r Newid - Gwybodaeth a chyngor i blant a rhieni | Rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr - gan gynnwys swyddog penodol am gyfnod o 2 flynedd i reoli'r newid a sicrhau llif gwybodaeth gan gynnwys ymateb i anghydfod | £50,000 | £50,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £100,000 | adnoddau cyfathrebu |
| 3 | Cefnogaeth Interim cyn cyflwyno'r gweithlu newydd | Darpariaeth interim er mwyn paratoi ar gyfer trawsnewid y gwasanaeth - cynnig darpariaeth iaith a lleferydd interim hyd Awst 2016. | £100,000 | | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £100,000 | Swyddi i gyd yn weithredol erbyn Medi 2016 |
| | | | | | | | | | | £400,000 | |
| | Costau di swyddo | | | | | | | | | | |
| 4 | Costau di swyddo Gwybyddiaeth a Dysgu | lleihad sylweddol yn y gweithlu drwy ail strwythuro | £0 | £177,000 | £177,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £354,000 | angen gwirio'n bellach |
| 5 | Costau di swyddo CBAAA | lleihad sylweddol posib yn y gweithlu | £0 | £100,000 | £100,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £200,000 | angen gwirio'n bellach |
| 6 | Costau di swyddo Cymorthyddion 3* | diddymu'r ddarpariaeth yn ei gyfanrwydd ond nifer sylweddol o swyddi cyffelyb yn cael eu cynnig | £0 | £0 | £400,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £400,000 | Amcan yn unig - angen gwirio'n bellach |
| | | | | | | | | | | £954,000 | |
| 7 | Cyfanswm | | £190,000 | £407,000 | £757,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £1,354,000 | |
| | | | | | | | | | | | |
| 8 | Cais am fuddsoddiad yn ystod y ffenest arbedion 3 blynedd (bl. ariannol 2015/16 - 2017/18) | | | | | | | | | £1,038,583 | |
| 9 | Yn ogystal mae swm penodol eisoes wedi'i gymeradwyo ar gyfer costau Rheoli Prosiect | | | | | | | | | £206,843 | |

5.11 Cyfanswm yr arbediad dros 7 mlynedd (sef rhwng 2015/16 hyd at 2021/22) yw £4.7 miliwn. O ystyried costau unwaith ac am byth of £1.3 miliwm (uchafswm), bydd £3.4 miliwn o arbediad net.

5.12 Cyflwynir crynodeb o'r arbedion parhaol a chostau unwaith ac am byth yn **nhabl 3**.

**Tabl 3 – Crynodeb: arbedion parhaol a chostau unwaith ac am byth hyd at 2021/22**

Crynodeb: arbedion parhaol a chostau unwaith-ac-am-byth, fesul blwyddyn academaidd hyd at 2021/22

| | | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | C'swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Arbedion ariannol parhaol (cronnus) | £0 | £65,358 | £864,586 | £908,426 | £944,296 | £961,836 | £986,886 | £4,731,388 |
| 2 | Costau unwaith-ac-am-byth | £190,000 | £407,000 | £757,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £1,354,000 |
| 3 | Felly: arbedion / (costau) net erbyn y flwyddyn honno | -£190,000 | -£341,642 | £107,586 | £908,426 | £944,296 | £961,836 | £986,886 | £3,377,388 |

## 5.13 Deilliannau

5.13.1 Dyma'r deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol:

- Cynlluniau mwy personol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Mynediad cynt a mwy penodol at wasanaethau ADY a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Gwasanaeth mwy arbenigol
- Atebolrwydd fesul ardal yn y Fforymau Ardal ADY

5.13.2 Dyma'r deilliannau i Gyngor Gwynedd:

- Arbediad ariannol parhaol
- Rheolaeth well ar y gyllideb ADY
- Adolygu a Monitro rheolaidd

## 6. BETH FYDD YR EFFAITH I BLANT A PHOBL IFANC GWYNEDD?

### i. Sicrhau dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn

- Rhoi lle canolog i safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc yn y broses a'i gynnwys ef a'i deulu o'r dechrau wrth asesu, ymyrryd, cynllunio ac adolygu.

### ii. Gwella Cyfathrebu - darparu gwell cefnogaeth a gwell gwybodaeth a chyngor

- fel bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn deall y broses ac yn gallu gwneud dewisiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth;
- ac yn sicrhau bod anghydfodau'n llai tebygol o ddigwydd.

### iii. Cysoni'r ddarpariaeth yn well ar draws y sir

- Sicrhau fod pob plentyn yng Ngwynedd yn cael mynediad i'r un ddarpariaeth ychwanegol o safon.

### iv. Cael mynediad cynt at gefnogaeth a darpariaeth arbenigol

- Meini Prawf yn rhoi gwell eglurder i bawb o ran yr hyn y dylai gael ei gynnig a phryd.

### v. Cyflwyno proses fwy hyblyg a mwy ymatebol

- Drwy asesu'n barhaus a thracio'r cynnydd yn well mae'n galluogi i'r ddarpariaeth ddatblygu dros amser yn unol â'r anghenion newidiol.


### vi. Uchafu'r arbenigeddau a'r arferion da sydd eisoes yn bodoli yn yr ysgolion arbennig

- Rhyddhau potensial i gyd weithio Ysgol i Ysgol rhwng y prif lif a'r ysgolion arbennig;
- Sefydlu Tîm Integredig cynhwysol, arbenigol gan gynnwys arbenigedd Seicolegol;
- Osgoi unrhyw ddyblygu.

### vii. Gwella trefniadau cyd weithio

- fel bod asiantaethau yn cytuno ar flaenoriaethau a sicrhau bod adnoddau priodol ar gael yn brydlon er mwyn gallu gwneud gwahaniaeth.

## 7. YR AMSERLEN A'R CAMAU NESAF




Bydd y fersiwn ddiwygiedig yma o'r Strategaeth yn cael ei chyflwyno i Gabinet y Cyngor ym mis Rhagfyr 2015.

Ni fydd unrhyw newidiadau statudol, na chyllidol i'r ysgolion yn weithredol hyd Fedi 2016.

Yn y cyfamser byddwn yn parhau i gyd weithio'n agos a'r holl fudd-ddeiliaid, wrth i ni wirio a manylu ar ein cynigion ar gyfer diwygio'r gwasanaeth.

---

[i] Bydd y term ADY yn cynnwys plant a phobl ifanc y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt; er mwyn eu galluogi i elwa i'r eithaf ar yr addysg a'r hyfforddaint sydd ar gael iddynt. Y bwriad yw sicrhau bod y diffiniad o ADY yn cynnwys yr holl ddysgwyr sydd ar hyn o bryd yn cael eu cefnogi drwy Gweithredu Ysgol, Gweithredu Ysgol a Mwy (gan gynnwys 3*) a'r rhai ar ddatganiadau AAA.
[ii] Lle y caiff y term 'rhieni'/ rhiant ei ddefnyddio golygir rhieni a hefyd bobl sydd a chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, neu sy'n gofalu amdano, er nad hwy yw'r rhieni geni.
[iii] Anstatudol – sef y disgyblion sydd ar hyn o bryd yn derbyn cefnogaeth drwy Gweithredu Ysgol, Gweithredu Ysgol a Mwy (sy'n cynnwys 3*).

**Proffil arbedion parhaol fesul blwyddyn academaidd**

| | Pennawd cyllideb | Arbedion parhaol (cronnus) arfaethedig | | | | | | | | | Eglurder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynllun | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | C'swm cronnus | |
| | **Cyllideb cyflogi'r Gweithlu a'r gyllideb Integreiddio 3* a datganiadau** | | | | | | | | | | |
| 1 | Cyllideb y Gweithlu a Chyllideb Integreddio | Cychwyn cyflwyno CDU yn lle datganiadau yn y blynyddoedd cynnar a blwyddyn 5 (lleihau oriau rhai datganiadau drwy newid trothwyon) | £0 | £23,550 | £56,120 | £99,960 | £135,830 | £153,370 | £178,420 | £178,420 | gall y swm yma fod yn uwch - ond angen ei fuddsoddi i dyfu maint y gweithlu arbenigol. Y gyllideb yn ei chyfanrwydd yn £3.9m 2015/16 |
| 2 | | Adolygu'r gwasanaeth - ail fodelu'r gweithlu, dad gomisiynnu'r cyd bwyllgor i gyflogi'r mwyafrif o'r gweithlu yn ganolog Arian Integreiddio (3*) yn cael ei gadw'n ol yn ganolog | £0 | £41,808 | £808,466 | £808,466 | £808,466 | £808,466 | £808,466 | £808,466 | ail fodelu'r holl ddarpariaeth gweithlu arbenigol presennol a chynnwys y gyllideb 3* yn ei chyfanrwydd |
| 3 | **Cyfanswm arbedion** | | **£0** | **£65,358** | **£864,586** | **£908,426** | **£944,296** | **£961,836** | **£986,886** | **£986,886** | |

4 **Arbedion ar gyfer y ffenest arbedion 3 blynedd (bl. ariannol 2015/16 - 2017/18)** **£531,574**

Tud. 83

**Proffil Costau unwaith-ac-am-byth fesul blwyddyn academaidd**

| | Pennawd | Costau unwaith-ac-am-byth | | | | | | | | | Eglurder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynllun | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | C'swm | |
| | **"Rheoli Newid"** | | | | | | | | | | |
| 1 | Rhaglen Hyfforddiant | Rhaglen gynhwysfawr ar gyfer y gweithlu presennol, gweithlu newydd a rhieni. | £40,000 | £80,000 | £80,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £200,000 | angen mwy o waith manwl. Sylw penodol i CDU ar y dechrau |
| 2 | Rheoli'r Newid - Gwybodaeth a chyngor i blant a rhieni | Rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr - gan gynnwys swyddog penodol am gyfnod o 2 flynedd i reoli'r newid a sicrhau llif gwybodaeth gan gynnwys ymateb i anghydfod | £50,000 | £50,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £100,000 | adnoddau cyfathrebu |
| 3 | Cefnogaeth Interim cyn cyflwyno'r gweithlu newydd | Darpariaeth interim er mwyn paratoi ar gyfer trawsnewid y gwasanaeth - cynnig darpariaeth iaith a lleferydd interim hyd Awst 2016. | £100,000 | | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £100,000 | Swyddi i gyd yn weithredol erbyn Medi 2016 |
| | | | | | | | | | | **£400,000** | |
| | **Costau di swyddo** | | | | | | | | | | |
| 4 | Costau di swyddo Gwybyddiaeth a Dysgu | lleihad sylweddol yn y gweithlu drwy ail strwythuro | £0 | £177,000 | £177,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £354,000 | angen gwirio'n bellach |
| 5 | Costau di swyddo CBAAA | lleihad sylweddol posib yn y gweithlu | £0 | £100,000 | £100,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £200,000 | angen gwirio'n bellach |
| 6 | Costau di swyddo Cymorthyddion 3* | diddymu'r ddarpariaeth yn ei gyfanrwydd ond nifer sylweddol o swyddi cyffelyb yn cael eu cynnig | £0 | £0 | £400,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £400,000 | Amcan yn unig - angen gwirio'n bellach |
| | | | | | | | | | | **£954,000** | |
| 7 | **Cyfanswm** | | **£190,000** | **£407,000** | **£757,000** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** | **£1,354,000** | |

| | | |
|---|---|---|
| 8 | **Cais am fuddsoddiad yn ystod y ffenest arbedion 3 blynedd (bl. ariannol 2015/16 - 2017/18)** | **£1,038,583** |
| 9 | Yn ogystal mae swm penodol eisoes wedi'i gymeradwyo ar gyfer costau Rheoli Prosiect | £206,843 |

**Crynodeb: arbedion parhaol a chostau unwaith-ac-am-byth, fesul blwyddyn academaidd hyd at 2021/22**

| | | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | C'swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Arbedion ariannol parhaol (cronnus) | £0 | £65,358 | £864,586 | £908,426 | £944,296 | £961,836 | £986,886 | £4,731,388 |
| 2 | Costau unwaith-ac-am-byth | £190,000 | £407,000 | £757,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £1,354,000 |
| 3 | Felly: arbedion / (costau) net erbyn y flwyddyn honno | -£190,000 | -£341,642 | £107,586 | £908,426 | £944,296 | £961,836 | £986,886 | £3,377,388 |